national preventive mechanism

# Monitro lleoedd cadw

## Pumed **Adroddiad Blynyddol**
## Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y Deyrnas Unedig
## **2013–14**

# Monitro lleoedd cadw

# Pumed adroddiad blynyddol Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y Deyrnas Unedig

1 Ebrill 2013 – 31 Mawrth 2014

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Arglwydd Ganghellor a'r
Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ar Orchymyn Ei Mawrhydi
Rhagfyr 2014

Cm 8964

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2014**

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heblaw logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f.3. I weld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu anfonwch e-bost i PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk. Os nodwyd bod deunydd o dan hawlfraint trydydd parti, rhaid gofyn am ganiatâd gan y deiliad hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications ac
www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/national-preventive-mechanism

Anfonwch unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn:
hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gsi.gov.uk
neu HM Inspectorate of Prisons, Victory House, 6th Floor, 30–34 Kingsway, Llundain WC2B 6EX

ISBN Argraffu 9781474112253
ISBN y We 9781474112260

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan Williams Lea Group ar ran
Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID 17111401 12/14

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffeibrau wedi'u hailgylchu

# Cynnwys


**Cyflwyniad**
Gan Nick Hardwick, Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi 4

**1 Cyd-destun** 8
Ynghylch Protocol Dewisol y Confensiwn yn erbyn Arteithio (OPCAT) 9
Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y Deyrnas Unedig 9
Y cyd-destun gwleidyddol ac economaidd 12

**2 Y bumed flwyddyn** 18
Strwythur a rôl gydgysylltu'r NPM 19
Datblygiadau sy'n ymwneud ag aelodau penodol 19
Cydweithio rhwng aelodau'r NPM 24
Sicrhau sylw llawn i'r holl leoedd cadw (Erthygl 4.2 OPCAT) 25
Cyflwyno cynigion a sylwadau ar ddeddfwriaeth (Erthygl 19c OPCAT) 27
Meysydd thematig 28
Craffu a chydweithio rhyngwladol 32

**3 Pum mlynedd NPM y Deyrnas Unedig – pwyso a mesur ac edrych ymlaen** 38
Hunanasesiad yr NPM 39
Digwyddiad NPM y Deyrnas Unedig a Chanolfan Gweithredu Hawliau Dynol Prifysgol Bryste, 'The UK's NPM: Five Years On' 42
Edrych ymlaen at y chweched flwyddyn 46

**4 Atodiadau** 48
1. Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig 31 Mawrth 2009 49
2. Disgrifiad byr o'r Aelodau 51
3. Cylch Gorchwyl Grŵp Llywio'r NPM 56
4. Cylch Gorchwyl yr Is-grŵp Plant a Phobl Ifanc 58
5. Panel Cynghori Annibynnol ar Farwolaethau yn y Ddalfa: Egwyddorion cyffredin ataliaeth ddiogelach 60
6. Ymateb yr NPM i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Arteithio 62
7. Datganiad gan Fecanweithiau Ataliol Cenedlaethol Ewrop ar yr angen am reolau gan Gyngor Ewrop ar leoedd cadw mewnfudwyr 64
8. Holiadur Hunanasesu NPM y Deyrnas Unedig 65
9. Taflenni ffeithiau'r NPM 72
10. Rhestr byrfoddau 77
11. Rhagor o wybodaeth am NPM y Deyrnas Unedig 78



# Cyflwyniad gan Nick Hardwick

## Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi

Mae gan y Deyrnas Unedig draddodiad maith o arolygu a monitro lleoedd cadw yn annibynnol. Mae trylwyredd y prosesau monitro hyn a'r graddau y maent wedi bod yn wirioneddol annibynnol wedi amrywio dros y blynyddoedd, ac mae'r gwahanol wledydd sy'n rhan o'r Deyrnas Unedig a'r gwahanol fathau o ddalfeydd i gyd wedi datblygu eu systemau arolygu eu hunain. Er hyn, ychydig iawn o wladwriaethau eraill sydd yn yr un cae â'r Deyrnas Unedig o ran ehangder y mecanweithiau monitro lleoedd cadw, profiad y gwahanol gyrff monitro a'r gefnogaeth a roddir iddynt.

Mae blynyddoedd o brofiad yn y Deyrnas Unedig wedi dangos bod unigolion sy'n cael eu cadw mewn unrhyw leoliad, o'r golwg a heb neb bron i'w hamddiffyn, yn agored iawn i niwed a bod gan fonitro annibynnol, rheolaidd rôl hanfodol i'w chwarae er mwyn sicrhau nad yw'r unigolion yn cael eu cam-drin neu'n dioddef tynged waeth. Nid yw'n syndod felly bod y Deyrnas Unedig wedi chwarae rhan allweddol yn y broses o ddatblygu Protocol Dewisol y Cenhedloedd Unedig i'r Confensiwn yn erbyn Arteithio a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol Arall (OPCAT), sy'n seiliedig ar ddatblygu system fonitro annibynnol ryngwladol a chenedlaethol ar gyfer pob lle cadw. Ar lefel genedlaethol, mae'n ofynnol i Barti-wladwriaethau sefydlu Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol (NPM) annibynnol i gynnal arolygiadau a chyflawni gweithgareddau ataliol eraill. Mabwysiadwyd OPCAT gan y Cenhedloedd Unedig yn 2002 a daeth i rym yn 2006. Y Deyrnas Unedig oedd un o'r gwladwriaethau cyntaf i gadarnhau OPCAT ym mis Rhagfyr 2003.

Mae'r rhan fwyaf o'r Parti-wladwriaethau wedi creu sefydliad newydd i weithredu fel NPM neu wedi rhoi cyfrifoldebau'r NPM i ombwdsmon hawliau dynol sy'n bodoli'n barod neu sefydliad tebyg. Mae'r sefyllfa'n wahanol yn y Deyrnas Unedig. Roedd nifer o gyrff unigol â phwerau arolygu, monitro neu ymweld annibynnol statudol yn bodoli'n barod ac wedi hen sefydlu'u hunain, felly yn hytrach na datgymalu strwythurau a oedd yn bodoli'n barod a chreu corff newydd, ym mis Mawrth 2009 dynododd y Deyrnas Unedig 18 o sefydliadau a oedd yn bodoli'n barod fel ei NPM a rhoddodd y cyfrifoldeb o gydgysylltu eu gweithgareddau NPM i Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yng Nghymru a Lloegr. Golygai'r penderfyniad hwn y gallai'r Deyrnas Unedig wneud y defnydd gorau o'r pwerau, yr adnoddau

a'r profiad a oedd gan y cyrff monitro presennol yn barod. Rhoddodd y potensial i'r cyrff hyn ddysgu'n well oddi wrth ei gilydd, cydgysylltu eu gwaith a sicrhau mwy o gysondeb wrth ymwneud â materion hawliau dynol mewn lleoedd cadw. Fodd bynnag, mae gwireddu'r potensial hwnnw heb sylfaen neu strwythur statudol penodol i wneud hynny, ymhlith cynifer o sefydliadau â gwahanol bwerau a blaenoriaethau sy'n gweithredu mewn pedair gwlad â gwahanol bwerau wedi'u datganoli, wedi bod yn dipyn o her.

Bum mlynedd ers dynodi NPM y Deyrnas Unedig, mae'r adroddiad hwn, i raddau helaeth, yn ystyried i ba raddau y mae'r potensial hwnnw wedi cael ei wireddu a'r heriau hynny wedi cael eu cyflawni. Rydym wedi cael nifer o brosesau er mwyn gwneud yr asesiad hwnnw. Ym Mehefin 2013 cyfarfuom â'r Is-bwyllgor Atal Arteithio, corff y Cenhedloedd Unedig sy'n goruchwylio gweithrediad OPCAT, yng Ngenefa i drafod gwaith NPM y Deyrnas Unedig a chryfderau a gwendidau ei strwythur. Cwblhaodd holl aelodau'r NPM hunanasesiad o'r graddau y maent yn cydymffurfio â gofynion OPCAT, ar sail y canllawiau a roddwyd i'r mecanweithiau ataliol cenedlaethol gan yr Is-bwyllgor. Byddwn yn ailadrodd y broses hon bob blwyddyn ac mae aelodau'r NPM wedi ymrwymo i ddod â phersbectif mwy allanol i'r asesiad hwnnw. Ym mis Ebrill 2014 cynhaliodd NPM y Deyrnas Unedig, ar y cyd â Chanolfan Gweithredu Hawliau Dynol Prifysgol Bryste, gynhadledd i aelodau'r NPM, cyrff sy'n cael eu harolygu, cyrff anllywodraethol, academyddion a rhanddeiliaid eraill er mwyn ystyried y cynnydd roedd yr NPM wedi'i wneud yn y pum mlynedd ers iddo gael ei ddynodi a'r blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol. Roeddem yn ddiolchgar bod y Gwir Anrhydeddus Simon Hughes AS, y Gweinidog Gwladol dros Gyfiawnder a Hawliau Sifil, wedi manteisio ar y cyfle i ddod i'r gynhadledd a chawsom ein calonogi gan ei ddatganiadau o gefnogaeth i OPCAT a gwaith yr NPM yn y dyfodol.

Prif gryfder yr NPM yw'r cannoedd o ymweliadau monitro annibynnol sy'n cael eu cynnal bob blwyddyn, a chefnogir ei ddull ataliol hefyd gan allu ei aelodau unigol i gyflawni gweithgareddau eraill megis hyfforddi neu wneud sylwadau ar gynigion deddfwriaethol. O ganlyniad uniongyrchol i OPCAT, mae cwmpas gwaith monitro aelodau'r NPM wedi cael ei ymestyn i gynnwys lleoedd cadw newydd megis celloedd yr heddlu a dalfeydd y lluoedd arfog yn y Deyrnas Unedig, er bod rhywfaint o rwystredigaeth na allwn arolygu dalfeydd lluoedd arfog y Deyrnas Unedig dramor. Mae'r meini prawf a ddefnyddir yn ein gwaith monitro wedi'u seilio'n uniongyrchol ar safonau hawliau dynol. Mae OPCAT wedi cefnogi'r aelodau yn eu hymdrechion i sicrhau bod y llywodraeth yn deall yn iawn bod angen iddynt fod yn annibynnol a bod angen iddynt gael digon o adnoddau. Rhennir gwaith ac arferion gorau ar faterion megis lleoedd cadw ar gyfer plant rhwng yr aelodau, ac mae aelodau'r NPM yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn gwneud sylwadau ar ddeddfwriaeth ddrafft y Deyrnas Unedig ac Ewrop. Mae NPM y Deyrnas Unedig yn ffynhonnell gyson o brofiad ac arbenigedd i wladwriaethau eraill sy'n dymuno sefydlu mecanweithiau ataliol cenedlaethol neu ddatblygu eu gwaith mewn lleoliadau cadw. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn hefyd

yn dangos bod 2013–14 wedi bod yn flwyddyn anodd iawn i lawer o'r cyrff rydym yn eu monitro. Roedd mwy o alw a llai o adnoddau'n rhoi sefydliadau dan bwysau ac roedd hynny'n golygu ambell dro bod unigolion wedi cael eu trin yn wael mewn nifer o wahanol leoliadau. Gwelwyd ymwybyddiaeth gynyddol, o'r diwedd, o'r ffaith fod llawer o'r rhai sy'n cael eu cadw mewn gwahanol fathau o ddalfeydd yn fwy agored i niwed, oherwydd eu hoed, iechyd meddwl, anabledd corfforol, hanes blaenorol o gamfanteisio neu nodweddion eraill. Mae aelodau unigol o'r NPM yn canolbwyntio ar y materion hyn yn y gwaith o ddydd i ddydd sy'n cael ei ddisgrifio yn eu hadroddiadau blynyddol eu hunain. Yn ychwanegol at hyn, mae'r NPM yn ceisio dod â phawb at ei gilydd i edrych ar themâu trawsbynciol sy'n effeithio ar y rhan fwyaf o'r lleoedd cadw, os nad y cyfan.

Un o'r materion hyn yw ataliaeth. Collwyd gormod o fywydau gan fod yr un camgymeriadau wedi cael eu gwneud dro ar ôl tro. Edrychodd yr NPM ar y mater hwn yn 2013–14 a chytunodd yr aelodau i gymryd gwaith y Bwrdd Gweinidogol ar Farwolaethau yn y Ddalfa yng Nghymru a Lloegr, sy'n hyrwyddo egwyddorion cyffredin ataliaeth ddiogelach, fel sail i'w gwaith eu hunain.

Rhaid sicrhau nad yw unigolion a sefydliadau sy'n cydweithredu â'r NPM wrth iddo wneud ei waith yn dioddef unrhyw sancsiynau na rhagfarn am wneud hynny. Y llynedd dechreuodd rhai aelodau o'r NPM weithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod mecanweithiau adrodd ac arolygu wedi'u sefydlu er mwyn ymdrin ag unrhyw honiadau o sancsiynau ac, yn bwysicach fyth efallai, er mwyn sicrhau bod unigolion sy'n cael eu cadw mewn lleoedd cadw'n teimlo bod rhyddid iddynt siarad ag arolygwyr neu fonitoriaid.


Yn 2014–15 mae'r NPM wedi cytuno i weithio ar fater carcharu pobl ar eu pen eu hunain a'u hynysu – mater y mae llawer o wahanol enwau arno ac sy'n digwydd mewn llawer o wahanol ffurfiau mewn gwahanol leoliadau cadw, ond sydd bob amser yn gam difrifol a ddylai gael ei ddefnyddio dim ond am y cyfnod byrraf posibl, pan fo hynny'n gwbl angenrheidiol a than oruchwyliaeth ofalus. Byddwn yn rhoi adroddiad llawnach ar y mater hwn yn adroddiad blynyddol nesaf yr NPM.

Er bod cynnydd wedi'i wneud mewn sawl maes, rydym yn sicr nad yw'r NPM yn gallu cyflawni ei botensial yn llawn eto. Mae cydgysylltu gweithgareddau cynifer o gyrff gwahanol, pob un â phwerau gwahanol a llawer ohonynt â chylch gwaith llawer ehangach na monitro lleoedd cadw, yn dipyn o her. Yn fy marn i, mae angen i'r cyfrifoldebau a'r pwerau a roddir i aelodau o ganlyniad i fod yn rhan o'r NPM gael eu nodi'n glir mewn deddfwriaeth. Mae profiad hefyd wedi dangos manteision sefydlu dyletswydd gyfreithiol ar gyrff arolygu i gydweithio. Byddai cryfhau'r sail y mae'r NPM yn cyflawni ei swyddogaethau arni'n cryfhau'r amddiffyniad a roddir i'r rhai sy'n cael eu cadw mewn lleoedd cadw. Byddai'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sy'n cael eu harolygu ac awdurdodau perthnasol ystyried argymhellion aelodau'r NPM, yn darparu sail glir ar gyfer gweithio ar y cyd ac yn sicrhau annibyniaeth aelodau'r NPM.

Yn y tymor byr, mae'r aelodau wedi cytuno ar nifer o fesurau i ddatblygu gwaith yr NPM. Er mwyn cryfhau trefniadau llywodraethu'r NPM mae'r aelodau'n bwriadu penodi cadeirydd allanol i'w Grŵp Llywio. Er mwyn codi proffil ei waith o sicrhau nad yw'r rhai sy'n cael eu cadw mewn lleoedd cadw'n cael eu cam-drin, bydd yr NPM yn gwella'i drefniadau cyfathrebu allanol ac yn sefydlu gwefan sy'n sefyll ar ei phen ei hun. Ac fel gyda'r gwaith ar gadw carcharorion ar eu pen eu hunain ac ynysu, bydd yr NPM yn canolbwyntio ar nifer fach o faterion allweddol sy'n gyffredin i'r rhan fwyaf o'r aelodau fel ffordd o gryfhau ei effaith.


Bum mlynedd ers iddo gael ei ddynodi, mae'r NPM wedi sefydlu'i hun yn dda ac mae'r pwerau a'r cyfrifoldebau a roddwyd dan OPCAT wedi cael eu hintegreiddio gan yr aelodau er mwyn cryfhau eu cyrhaeddiad, eu harbenigedd a'u hannibyniaeth. Ond dim ond y cam cyntaf yw hwn.

Yn ystod y pum mlynedd nesaf rwy'n gobeithio y bydd gwaith yr NPM yn cael ei ddatblygu ymhellach, ei bwerau'n cael eu cryfhau, a'r cydweithrediad a'r cydgysylltiad rhwng aelodau'n cael ei wella, ac y bydd unigolion sy'n cael eu cadw mewn lleoedd cadw – ble bynnag y bônt – yn cael eu hamddiffyn yn well rhag cael eu cam-drin. Drwy hyn, credaf y bydd traddodiad maith y Deyrnas Unedig o weithio yn y maes hwn yn dal yn esiampl y bydd eraill yn dymuno ei dilyn.



**Nick Hardwick**
Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi

# Adran un
# Cyd-destun



## Ynghylch Protocol Dewisol y Confensiwn yn erbyn Arteithio (OPCAT)

Mae Protocol Dewisol y Confensiwn yn erbyn Arteithio a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol Arall (OPCAT) yn gytuniad rhyngwladol ar hawliau dynol sy'n ceisio rhoi mwy o amddiffyniad i bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid. Pan gafodd ei fabwysiadu gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn 2002, dangoswyd bod consensws yn y gymuned ryngwladol fod pobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid yn neilltuol o agored i'r perygl o gael eu cam-drin a bod angen canolbwyntio ar gamau ataliol wrth ymladd yn erbyn cam-drin o'r fath. Mae OPCAT yn ymgorffori'r syniad mai'r ffordd orau o atal cam-drin mewn lleoedd cadw yw drwy system o ymweliadau rheolaidd annibynnol â'r holl leoedd cadw. Yn ystod ymweliadau o'r fath, bydd triniaeth y rhai a gedwir, a'r amodau ar eu cyfer, yn cael eu monitro

Daeth OPCAT i rym ym mis Mehefin 2006. Mae'n ofynnol bod gwladwriaethau sy'n cadarnhau OPCAT yn dynodi mecanwaith ataliol cenedlaethol (NPM). Corff neu grŵp o gyrff yw hwn sy'n archwilio'n rheolaidd sut y mae unigolion mewn lleoedd cadw yn cael eu trin, yn gwneud argymhellion ac yn cynnig sylwadau ar ddeddfwriaeth bresennol neu ddrafft er mwyn gwella'r driniaeth a'r amodau mewn lleoedd cadw.

Er mwyn cyflawni ei rôl monitro yn effeithiol, mae'n ofynnol bod yr NPM:

- yn annibynnol ar y llywodraeth a'r sefydliadau y mae'n eu monitro;
- yn cael digon o adnoddau i gyflawni ei rôl; ac
- yn cynnwys personél sydd â'r arbenigedd angenrheidiol ac sy'n ddigon amrywiol i gynrychioli'r gymuned y mae'n gweithredu ynddi.

Hefyd, mae'n ofynnol bod yr NPM yn cael pwerau:

- i fynd i mewn i'r holl leoedd cadw (gan gynnwys y rheini sy'n cael eu rhedeg gan ddarparwyr preifat);
- i gyfweld rhai sydd mewn lleoedd cadw a phobl berthnasol eraill yn breifat;
- i ddewis y lleoedd y mae am ymweld â nhw a'r bobl y mae am eu cyfweld;
- i gael gwybodaeth am nifer y bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid, nifer y lleoedd cadw a'u lleoliad
- i gael gwybodaeth am driniaeth y rhai sydd mewn lleoedd cadw a'r amodau ar eu cyfer.

Yn ogystal â hyn, rhaid i'r NPM gydgysylltu â'r Is-bwyllgor Atal Arteithio, corff rhyngwladol a sefydlwyd o dan OPCAT sydd â swyddogaethau gweithredol (ymweld â lleoedd cadw mewn Parti-wladwriaethau a gwneud argymhellion ynghylch amddiffyn rhai mewn lleoedd cadw rhag cael eu cam-drin) a swyddogaethau cynghori (darparu cymorth a hyfforddiant i Barti-wladwriaethau a'u mecanweithiau ataliol cenedlaethol). Mae 25 o arbenigwyr annibynnol a diduedd o bob rhan o'r byd yn aelodau o'r Is-bwyllgor Atal Arteithio, ac mae'n cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau.[1]

## Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y Deyrnas Unedig

Cadarnhawyd OPCAT gan y Deyrnas Unedig yn Rhagfyr 2003 a dynodwyd ei NPM ym Mawrth 2009. Roedd dynodi'r NPM yn

1 Gweler http://www2.ohchr.org/English/

gyfrifoldeb i lywodraeth y Deyrnas Unedig a dewisodd ddynodi nifer o gyrff presennol yn hytrach na chreu NPM drwy sefydlu corff newydd. Roedd hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod nifer o fathau o leoedd cadw yn y Deyrnas Unedig a oedd yn cael eu monitro eisoes gan gyrff annibynnol, mewn ffordd a ragwelwyd yn OPCAT, a bod gwahanol systemau gwleidyddol, cyfreithiol a gweinyddol ar waith yn y pedair gwlad sy'n rhan o'r Deyrnas Unedig. Yn ychwanegol at hyn, mae systemau cyfochrog ar gyfer arolygu proffesiynol a monitro lleyg yn bodoli mewn sectorau cyfiawnder troseddol a mewnfudo yn y pedair gwlad sy'n rhan o'r Deyrnas Unedig. Wrth benderfynu ar y cyrff presennol a oedd i'w dynodi'n aelodau o'r NPM, roedd y llywodraeth yn mynnu'n benodol fod sail statudol iddynt a'u bod yn gallu ymweld yn ddirybudd â lleoedd cadw. Daeth y llywodraeth i'r casgliad bod 18 o gyrff sy'n gweithredu yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cwrdd â'r gofynion hynny, a chawsant eu dynodi'n ffurfiol mewn datganiad i'r Senedd ar 31 Mawrth 2009.

Ar 3 Rhagfyr 2013, dynodwyd tri aelod newydd i'r NPM, gan adlewyrchu uno cyrff sy'n monitro gofal a gwaith cymdeithasol yn yr Alban â'r Arolygiaeth Gofal, aelodaeth ar wahân Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yr Alban, ac ymgorffori Arsylwyr Lleyg i adlewyrchu eu rôl o gydymffurfio ag OPCAT wrth fonitro dalfeydd y llysoedd a phrosesau trosglwyddo yng Nghymru a Lloegr

**Cymru a Lloegr**
Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
Byrddau Monitro Annibynnol
Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVA)
Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC)
Y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr (OCC)
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)
Swyddfa Safonau mewn Addysg (Ofsted)
Arsylwyr Lleyg

**Yr Alban**
Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn yr Alban (HMIPS)
Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn yr Alban (HMICS)
Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC)
Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban (MWCS)
Yr Arolygiaeth Gofal (CI)
Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yr Alban (ICVS)

**Gogledd Iwerddon**
Byrddau Monitro Annibynnol (Gogledd Iwerddon) (IMBNI)
Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon (CJINI)
Awdurdod Gwella Rheoleiddio ac Ansawdd (RQIA)
Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon (NIPBICVS)

Mae'r cyrff sy'n rhan o NPM y Deyrnas Unedig yn monitro gwahanol fathau o leoedd cadw ym mhob un o'r awdurdodaethau, gan gynnwys carchardai, dalfeydd yr heddlu, dalfeydd y llysoedd, cyfleusterau cadw'r tollau, llety diogel i blant, cyfleusterau mewnfudo, cyfleusterau cadw gwasanaethau iechyd meddwl a dalfeydd y lluoedd arfog, fel a ganlyn:

| LLEOLIAD CADW | Awdurdodaeth | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Lloegr** | **Cymru** | **Yr Alban** | **Gogledd Iwerddon** |
| **Carchardai** | Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi gyda CQC ac Ofsted | Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi gydag AGIC | HMIPS gyda CI | CJINI ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi gyda'r RQIA |
| | Bwrdd Monitro Annibynnol | | | IMBNI |
| **Dalfeydd yr heddlu** | HMIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi | | HMICS | CJINI gyda'r RQIA |
| | ICVA | | ICVS | NIPBICVS |
| **Dalfeydd y llysoedd** | Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ac Arsylwyr Lleyg | | HMIPS | CJINI |
| **Plant mewn llety diogel** | Ofsted (ar y cyd ag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi mewn cysylltiad â chanolfannau hyfforddi diogel) | AGGCC | CI | RQIA |
| | | | | CJINI |
| **Plant (Pob lleoliad)** | OCC | | | |
| **Cadw o dan gyfraith iechyd meddwl** | CQC | AGIC | MWCS | RQIA |
| **Amddifadu o ryddid[2] a mesurau diogelu eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol** | CQC | AGIC | CI a MWCS | RQIA |
| | | AGGCC | | |
| **Dalfeydd mewnfudo** | Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi | | | |
| | Byrddau Monitro Annibynnol | | | |
| **Dalfeydd y lluoedd arfog** | Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a Byrddau Monitro Annibynnol | | | |
| **Cyfleusterau cadw'r tollau** | Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi | | | |

Ar 24 Chwefror 2014, cafodd OPCAT ei ymestyn i Ynys Manaw. Gan fod Ynys Manaw'n Diriogaeth Ddibynnol ar y Goron, nid yw'n rhan o'r Deyrnas Unedig ond bydd y Deyrnas Unedig yn dal yn gyfrifol am sicrhau bod Ynys Manaw'n cyflawni ei rhwymedigaethau rhyngwladol o dan OPCAT. Cadarnhaodd awdurdodau Ynys Manaw y byddent yn sefydlu Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol ar wahân yn unol â meini prawf OPCAT, ac y bydd wedi'i ffurfio o dri chorff i ddechrau: y Bwrdd Monitro Annibynnol ar gyfer Carchar Ynys Manaw, y Bwrdd Monitro Annibynnol ar gyfer Cartref Gofal Diogel Ynys Manaw a'r Comisiwn Iechyd Meddwl.

Mae'r gofyniad sylfaenol yn OPCAT – bod yr holl leoedd cadw'n cael eu monitro'n annibynnol – yn cael ei gyflawni gan aelodau unigol yr NPM neu gan aelodau sy'n gweithio mewn partneriaeth â'i gilydd. Mae canfyddiadau manwl ynghylch triniaeth pobl mewn lleoedd cadw, a'r amodau ar eu cyfer, yn cael eu cyhoeddi yn adroddiadau arolygu neu adroddiadau blynyddol pob un o aelodau'r NPM.

2 Mae trefniadau diogelu rhag colli rhyddid yn gymwys i Gymru a Lloegr yn unig ond bydd sefydliadau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn arolygu ac yn ymweld â chyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol lle gall pobl gael eu hamddifadu o'u rhyddid.

Mae cydgysylltu'n hanfodol er mwyn gweithredu OPCAT yn llawn ac yn effeithiol yn y Deyrnas Unedig, oherwydd maint a chymhlethdod y strwythur anarferol o gyrff lluosog sydd yn y Deyrnas Unedig, a'r ffaith fod pob un o'r aelodau'n wahanol o ran ei fandad, ei bŵer a'i gyfrifoldeb daearyddol. Ar yr un pryd, rhaid parchu annibyniaeth pob un o aelodau'r NPM, yn ogystal â'u gallu i bennu eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer monitro lleoedd cadw.

Mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi'n cyflawni'r rôl o gydgysylltu'r NPM a phwrpas y swyddogaeth hon yw:

- hyrwyddo cydlyniant a chyd-ddealltwriaeth o OPCAT ymysg aelodau'r NPM;
- hyrwyddo cydweithio a rhannu gwybodaeth ac arferion da rhwng aelodau NPM y Deyrnas Unedig;
- hwyluso gweithgareddau ar y cyd rhwng yr aelodau ar faterion sy'n peri pryder cyffredin;
- cydgysylltu â'r Is-bwyllgor Atal Arteithio, mecanweithiau ataliol cenedlaethol eraill a chyrff hawliau dynol rhyngwladol perthnasol eraill;
- rhannu profiad ac arbenigedd rhwng NPM y Deyrnas Unedig a mecanweithiau ataliol cenedlaethol mewn Gwladwriaethau eraill;
- cynrychioli'r NPM yn ei gyfanrwydd gerbron y llywodraeth a rhanddeiliaid eraill yn y Deyrnas Unedig;
- paratoi'r adroddiad blynyddol a chyhoeddiadau eraill.

Goruchwylir swyddogaeth gydgysylltu, gweithgareddau a threfniadau llywodraethu'r NPM gan Grŵp Llywio o bum aelod o'r NPM sy'n cyfarfod yn rheolaidd ac sy'n cynrychioli aelodau ym mhob un o'r pedair gwlad sy'n rhan o'r Deyrnas Unedig a gwahanol gylchoedd gwaith sefydliadau sy'n ffurfio'r NPM (nodir y cylch gorchwyl yn Atodiad Tri).

Mae is-grŵp o'r NPM sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw mewn lleoedd cadw, dan gadeiryddiaeth Swyddfa'r Comisiynydd Plant, yn gwasanaethu fel mecanwaith i aelodau'r NPM sydd â'u gwaith yn cynnwys ymweld â phlant mewn lleoedd cadw i gyfnewid gwybodaeth a hysbysrwydd ac i ystyried gwaith ar y cyd ar faterion sy'n effeithio ar blant mewn lleoedd cadw (gweler adran 2, Meysydd thematig (iii)).

## Y Cyd-destun gwleidyddol ac economaidd

Parhaodd prinder adnoddau i effeithio ar y cyrff sy'n cael eu monitro gan aelodau'r NPM, ac ar yr aelodau eu hunain. Er enghraifft, llwyddodd y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS), sy'n gyfrifol am garchardai yng Nghymru a Lloegr ac sy'n rheoli carchardai'r sector cyhoeddus yn uniongyrchol yn yr awdurdodaethau hyn, i arbed £274 miliwn, a oedd yn 7% o'i gyllideb adnoddau. Gwnaethpwyd yr arbedion drwy fesurau amrywiol, gan gynnwys lleihau costau rhedeg carchardai a chau carchardai hŷn, gan gymryd y bydd lleoedd rhatach yn cael eu darparu yn rhywle arall.

Mewn rhai agweddau ar waith NPM y Deyrnas Unedig, rhoddodd cynnydd ym mhoblogaeth y lleoedd cadw a lleihad mewn capasiti bwysau ar y systemau ar gyfer rheoli pobl mewn lleoedd cadw. Cynyddodd cyfanswm

3 *Prisons and Probations Statistics, Population Bulletin – Weekly 26 April 2013 a Population Bulletin – Weekly 28 March 2014, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder*

4 http://www.hscic.gov.uk/searchcatalogue?productid=13209&q=title%3a%22Inpatients+formally+detained+in+hospitals+under+the+Mental+Health+Act+1983+and+patients+subject+to+Supervised+Community+Treatment%22&sort=Relevance&size=10&page=1#top

poblogaeth y carchardai yng Nghymru a Lloegr o 84,083 ar ddiwedd Ebrill 2013 i 85,252 erbyn 28 Mawrth 2014. Golygai'r cynnydd hwn nad oedd wedi'i gynllunio fod y system garchardai yn gyffredinol, ar ddiwedd y cyfnod hwn, yn rhedeg ar 99% o'i chapasiti gweithredol defnyddiadwy (85,972). Mewn lleoedd cadw iechyd meddwl, roedd y 50,408 a oedd yn cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn ysbytai'r GIG ac mewn ysbytai annibynnol yn Lloegr yn 2012–13 yn gynnydd o 4% o'i gymharu â'r cyfanswm ar gyfer y flwyddyn flaenorol.[4]

Daliodd nifer y ceisiadau i ddefnyddio'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid[5] yn Lloegr i gynyddu, gydag 11,886 o geisiadau wedi cael eu gwneud (cynnydd o 4% o'i gymharu â nifer y ceisiadau yn 2011–12 a chynnydd o 66% o'i gymharu â nifer y ceisiadau yn 2009–10). Parhaodd nifer y caniatadau a roddwyd (55% o'r holl geisiadau) i ddefnyddio'r trefniadau yn debyg i'r flwyddyn flaenorol.[6,7] Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau ar gyfer pobl yn y ddau fand oedran hynaf (75–84 ac 85 a throsodd).[8]

Dywedodd rhai o aelodau'r NPM eu bod yn poeni bod pwysau'n ffactor pwysig a oedd yn effeithio ar lefelau staffio a mynediad buan at ofal (mewn lleoliadau iechyd meddwl yng Nghymru a Lloegr) ac ar ddiogelwch y rhai sy'n cael eu cadw (mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr). Mae ailddechrau cloi pobl yn eu hystafelloedd dros nos er mwyn arbed arian mewn ysbytai iechyd meddwl diogelwch uchel yng Nghymru a Lloegr yn dangos effaith uniongyrchol toriadau yn y gyllideb ar arferion lleoedd cadw.[9] Gwelwyd cynnydd annerbyniol yn nifer y marwolaethau a achoswyd gan yr unigolyn ei hun mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr, gydag 88 o farwolaethau a achoswyd gan yr unigolyn ei hun wedi cael eu cadarnhau rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2014, cynnydd o 69% o'i gymharu â'r 52 a gofnodwyd yn 2012–13 a'r nifer uchaf ar gyfer cyfnodau y gellir eu cymharu ers y flwyddyn a ddaeth i ben ym Mawrth 2004.[10] Cynyddodd yr hysbysiadau ynglŷn â marwolaethau rhai sy'n cael eu cadw mewn lleoedd cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn 2012–13 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, â chyfanswm o 275 o hysbysiadau ynghylch marwolaethau, a 48 o'r rhain wedi'u cofnodi fel rhai ag achos annaturiol a 27 ag achos heb ei bennu (o'i gymharu â chyfanswm o 236, yn cynnwys 36 o farwolaethau annaturiol a naw ag achos heb ei bennu yn 2011/12).[11]

Cafodd y cyfnod yn arwain at y refferendwm ar annibyniaeth yr Alban ym mis Medi 2014[12] effaith hefyd ar y cyd-destun gwleidyddol yr oedd aelodau'r NPM yn gweithredu ynddo.

---

**5** Cyflwynwyd trefniadau amddifadu rhag colli rhyddid yn Lloegr dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (a gyflwynwyd yn dilyn hynny fel gwelliant dan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007), er mwyn darparu fframwaith cyfreithiol i sicrhau nad yw pobl yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid oni bai nad oes unrhyw ffordd arall o ofalu amdanynt neu ddarparu triniaeth yn ddiogel iddynt..

**6** Dangosodd ffigurau a ddarparwyd gan y Ganolfan Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol fod 11,887 o geisiadau i ddefnyddio'r trefniadau wedi cael eu gwneud yn 2012–13 a bod 6,546 o ganiatadau wedi eu rhoi.

**7** http://www.hscic.gov.uk/searchcatalogue?productid=12141&q=title%3a%22Mental+Capacity+Act+2005%2c+Deprivation+of+Liberty+Safeguards+Assessments%22+!Bi-annual+!analysis&sort=Relevance&size=10&page=1#top

**8** Y Comisiwn Ansawdd Gofal (2014) Monitoring the use of the Mental Capacity Act Deprivation of Liberty Safeguards in 2012/13, t.17 (https://www.cqc.org.uk/content/deprivation-liberty-safeguards-201213)

**9** Y Comisiwn Ansawdd Gofal (2014) Monitoring the Mental Health Act in 2012/13, t.36 (http://www.cqc.org.uk/content/mental-health-act-annual-report-201213)

**10** Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (2014) HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales Annual Report 2013–14, t.10 (http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/inspections/?post_type=inspection&s&prison-inspection-type=annual-reports)

**11** http://www.cqc.org.uk/sites/default/files/documents/cqc_mentalhealth_2012_13_07_update.pdf (t.70–27)

**12** Cyhoeddwyd canlyniad y refferendwm ar y cwestiwn 'A ddylai'r Alban fod yn wlad annibynnol?' – pan bleidleisiodd 44.7% o blaid a 55.3% yn erbyn – cyn i'r ddogfen gael ei hargraffu..

Yn ymarferol, mae gwahanol systemau cyfreithiol a datganoli cyfrifoldeb am faterion iechyd bob amser wedi golygu bod gan aelodau'r NPM yn yr Alban gyfrifoldebau pendant iawn ac mae'r perthnasoedd yn yr NPM yn gadarnhaol iawn.

Yr un pryd, bu dadlau ynglŷn â rôl y Deyrnas Unedig yn y system Ewropeaidd ar gyfer amddiffyn hawliau dynol drwy gydol y flwyddyn, yn enwedig mewn cysylltiad â gweithredu dyfarniad Llys Hawliau Dynol Ewrop yn Hirst v the UK, ynglŷn â gwahardd carcharorion rhag pleidleisio.[13] Penodwyd Cydbwyllgor seneddol ym mis Mai 2013 i ystyried ac adrodd ar gynigion y llywodraeth yn ei fersiwn drafft o'r Bil Cymhwystra i Bleidleisio (Carcharorion). Argymhellodd y pwyllgor hwn y dylid ymestyn yr hawl i bleidleisio yn holl etholiadau seneddol, lleol ac Ewropeaidd y Deyrnas Unedig i bob carcharor sydd â dedfryd o 12 mis neu lai. Ar adeg ysgrifennu hyn, nid yw'r llywodraeth wedi cyflwyno bil i roi grym deddfwriaethol i'r cynigion hyn, nac unrhyw gynigion eraill.

## Datblygiadau yn ymwneud â deddfwriaeth a pholisi

Daeth rhai datblygiadau yn ymwneud â deddfwriaeth a pholisi a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn â newidiadau sylweddol i agweddau ar reoli lleoedd cadw a darparu gwasanaethau i'r rhai sy'n cael eu cadw mewn lleoedd o'r fath.

### Yr Alban

Cafodd gwasanaeth heddlu cenedlaethol yn yr Alban, Police Scotland, ei sefydlu'n ffurfiol ar 1 Ebrill 2013. O ganlyniad i'r newid hwn, mae dalfeydd yr heddlu erbyn hyn yn cael eu rheoli'n ganolog yn yr Alban.

Cafodd dau ddarn o ddeddfwriaeth a oedd yn effeithio ar waith aelodau'r NPM yn yr Alban eu trafod a'u pasio yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Deddf Plant a Phobl Ifanc (Yr Alban) 2014,[14] a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 27 Mawrth 2014, ddyletswyddau newydd yn ymwneud â hawliau plant, gan gynnwys y gofyniad y dylai'r Arolygiaeth Gofal roi adroddiad bob tair blynedd ar gamau a gymerwyd i hyrwyddo hawliau plant yn yr Alban. Aeth Bil Cyrff Cyhoeddus (Cydweithio) (Yr Alban),[15] drwy Senedd yr Alban ar ôl cael ei gyflwyno ar 28 Mai 2013. Cafodd Gydsyniad Brenhinol ar 1 Ebrill 2014. Darparodd y Ddeddf fframwaith newydd ar gyfer integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn yr Alban a gwella ansawdd a chysondeb y gwasanaethau hyn. Bydd yr Arolygiaeth Gofal (aelod o'r NPM) yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o fonitro'r gwasanaethau hyn.

### Cymru a Lloegr

Cyflwynwyd nifer o newidiadau polisi mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr yn ystod y flwyddyn. Cyflwynwyd diwygiadau i'r cynllun cymhellion a breintiau haeddiannol sy'n cael ei weithredu mewn carchardai a sefydliadau troseddwyr ifanc yng Nghymru a Lloegr ym mis Tachwedd 2013.[16] Mae'r newidiadau hyn yn ei gwneud hi'n anos i garcharorion ennill breintiau ac yn cyfyngu ar y rhai sydd ar gael.

**13** Achos Hirst v the UK (Rhif 2) (Rhif y cais: 74025/01)
**14** http://www.legislation.gov.uk/asp/2014/8/introduction/enacted
**15** http://www.scottish.parliament.uk/parliamentarybusiness/Bills/63845.aspx
**16** https://www.gov.uk/government/news/major-shake-up-to-prisoner-incentives
**17** https://www.justice.gov.uk/legal-aid/newslatest-updates/legal-aid-transformation

Newidiodd y trefniadau comisiynu ar gyfer gwasanaethau iechyd mewn carchardai yn Lloegr ym mis Ebrill 2013, gyda'r GIG yn Lloegr yn ymgymryd â'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau a oedd wedi bod yn cael ei gyflawni cyn hyn gan ymddiriedolaethau gofal sylfaenol lleol. Roedd rhywfaint o ansicrwydd a dryswch wrth i'r gwasanaethau presennol gael eu tendro fel rhan o'r trefniadau newydd.

Ym mis Medi 2013 cyhoeddwyd cynlluniau i adeiladu'r carchar mwyaf yn y Deyrnas Unedig, sefydliad â 2,000 o leoedd a fyddai'n cael ei redeg yn breifat yn Wrecsam yng Ngogledd Cymru.
Cyflwynwyd cyfyngiadau ar gymorth cyfreithiol ar gyfer materion cyfraith carchardai ym mis Rhagfyr 2013.[17]

Roedd y datblygiadau eraill yn cynnwys Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 13 Mawrth 2014[18] ac a nododd ddarpariaethau newydd yn ymwneud â rhyddhau troseddwyr a goruchwyliaeth ar ôl rhyddhau troseddwyr, yn ogystal â darpariaethau ar gyfer cyfnod estyniad ar gyfer carcharorion â dedfryd estynedig. Roedd hefyd yn ehangu pwerau ar gyfer profion cyffuriau mewn carchardai.

## Cyfleusterau cadw iechyd meddwl

Cyhoeddodd llywodraeth y Deyrnas Unedig 'Mental Health Crisis Care Concordat' ym mis Chwefror 2014. Lluniwyd y fenter polisi hon er mwyn gwella canlyniadau i bobl sydd ag argyfwng iechyd meddwl yn Lloegr – rhai ohonynt yn cael eu hanfon i ganolfannau cadw – ac roedd yn cynnwys ymrwymiadau i ysgogi gwelliannau amlasiantaethol er mwyn diwallu eu hanghenion. Mae'r cefnogwyr yn cynnwys Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO), Cymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, Heddlu Trafnidiaeth Prydain, y Coleg Plismona a'r Swyddfa Gartref yn ogystal â'r prif asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Ar 13 Mawrth 2014 daeth un o bwyllgorau Tŷ'r Arglwyddi, a sefydlwyd er mwyn craffu ar weithrediad ymarferol Deddf Galluedd Meddyliol 2005, i'r casgliad bod diffyg dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth eang o'r Ddeddf, ac nad oedd trefniadau diogelu rhag colli rhyddid, a oedd wedi cael eu hychwanegu at y Ddeddf yn 2007, yn addas i'r diben, a bod angen eu hadolygu er mwyn eu newid. Ar 19 Mawrth 2014, daeth y Goruchaf Lys i benderfyniad yn achosion P v Cheshire West and Chester Council and another a P and Q v Surrey County Council. Roedd dyfarniad y Goruchaf Lys yn ehangu'r ddealltwriaeth o'r diffiniad o 'amddifadu o ryddid', ac o ganlyniad mae wedi tynnu sylw at nifer cynyddol o bobl sy'n cael eu cydnabod fel rhai sydd wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid, nid yn unig mewn cartrefi gofal ac ysbytai ond hefyd mewn lleoliadau cymunedol megis lleoliadau byw â chymorth. Yn dilyn y datblygiadau hyn, mae Comisiwn y Gyfraith (Cymru a Lloegr) wedi dechrau adolygu sut y dylai amddifadu o ryddid gael ei awdurdodi a'i oruchwylio mewn ysbytai, cartrefi gofal a lleoliadau cymunedol lle mae'n bosibl y byddai pobl yn colli eu hawliau dan Erthygl 5 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel arall.
Mae Comisiwn y Gyfraith yn yr Alban yn adolygu trefniadau diogelu'r Alban a bydd yn cyflwyno adroddiad yn 2014.[19]

**18** http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/11/contents/enacted/data.htm
**19** For more information, see http://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/lords-select/mental-capacity-act-2005/news/, http://lawcommission.justice.gov.uk/areas/capacity-and-detention.htm and http://www.scotlawcom.gov.uk/law-reform-projects/adults-with-incapacity/

## Merched mewn lleoedd cadw

Ym mis Gorffennaf 2013, cyhoeddodd Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder Senedd y Deyrnas Unedig adroddiad ar ei ymchwiliad i droseddwyr benywaidd, gan asesu cynnydd bum mlynedd ar ôl adolygiad arloesol y Farwnes Corston o ferched a oedd yn arbennig o agored i niwed yn y system cyfiawnder troseddol.[20] Nododd y Pwyllgor fod cytundeb cyffredinol nad yw'r rhan fwyaf o droseddwyr benywaidd yn achosi llawer iawn o risg i ddiogelwch y cyhoedd a bod carchar yn aml yn ymateb aneffeithiol. Roedd cydnabyddiaeth gyffredinol hefyd fod anghenion penodol merched sy'n droseddwyr yn aml yn cael eu hesgeuluso mewn system sydd wedi'i chynllunio ar gyfer mwyafrif o droseddwyr gwrywaidd. Yn ychwanegol at hyn, canfu'r Pwyllgor nad oedd nifer y merched mewn carchardai wedi gostwng yn ddigon cyflym a dywedodd fod angen ad-drefnu carchardai merched yn raddol a chyflwyno'r math o unedau llai a'r trefniadau mwy ymatebol a oedd yn cael eu hargymell gan y Farwnes Corston. Rhoddodd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi dystiolaeth i ymholiad y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder ac eisteddodd fel sylwedydd ar y Bwrdd Cynghori Gweinidogol ar Droseddwyr Benywaidd, a sefydlwyd i gefnogi gweithrediad strategaeth newydd y llywodraeth ar gyfer carcharorion benywaidd. Mae aelodau'r NPM wedi gweld tystiolaeth o rai ymatebion cadarnhaol i'r pryderon y rhoddwyd sylw iddynt gan y Pwyllgor.

Parhaodd llywodraeth yr Alban i adrodd ar ei chynnydd wrth weithredu adroddiad terfynol y Comisiwn ar Droseddwyr Benywaidd (a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2012).[21,22] Nododd Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi yn yr Alban ei fwriad i gynllunio a datblygu Carchar Ei Mawrhydi Inverclyde, cyfleuster cenedlaethol a fyddai'n cymryd lle'r carchar merched presennol, Carchar a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Cornton Vale, a dywedodd ei fod yn falch iawn o'r buddsoddiad sylweddol er mwyn gwella amodau byw yn Cornton Vale yn ystod y flwyddyn. Agorodd uned ranbarthol i ferched yng Ngharchar a Sefydliad Troseddwyr Ifanc newydd Grampian ym mis Mawrth 2014 a chyhoeddwyd cynlluniau ar gyfer uned ranbarthol arall yng Ngharchar Ei Mawrhydi Caeredin.[23]

## Deddfwriaeth yn y dyfodol


Cyflwynwyd cynigion deddfwriaethol sy'n cynnwys diwygiadau i drefniadau cadw yn y Deyrnas Unedig yn ystod y flwyddyn:

- Bil Cyfiawnder Troseddol (Yr Alban), a gyflwynwyd ym mis Mehefin 2013, ac a oedd yn cynnwys nifer o wahanol fesurau newydd[24]
- Bil Mewnfudo, a gyflwynwyd ym mis Hydref 2013, sy'n cynnwys darpariaethau yn ymwneud â chadw plant ar eu pen eu hunain a llety cyn ymadael i deuluoedd[25]
- Bil Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd, a gyflwynwyd ym mis Chwefror 2014, sy'n amlinellu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer creu 'colegau diogel' newydd i gadw unigolion dan 18 oed.[26]

20 http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201314/cmselect/cmjust/92/9202.htm
21 http://www.scotland.gov.uk/About/Review/commissiononwomenoffenders/finalreport-2012
22 http://www.scotland.gov.uk/Topics/Justice/policies/reducing-reoffending/women-offenders and http://www.scottish.parliament.uk/S4_JusticeCommittee/Inquiries/20131024_CSfJ_2nd_progress_report_on_CWO.pdf
23 http://www.scotland.gov.uk/Resource/0045/00454059.pdf p. 8
24 http://www.scottish.parliament.uk/parliamentarybusiness/Bills/65155.aspx
25 This bill achieved Royal Assent in May 2014. http://services.parliament.uk/bills/2013-14/immigration.html
26 http://services.parliament.uk/bills/2014-15/criminaljusticeandcourts.html

## Adran dau

# Y bumed flwyddyn



Yn 2013–14, mae holl aelodau NPM y Deyrnas Unedig wedi parhau i ymweld yn rheolaidd â lleoedd cadw, wedi monitro triniaeth y rhai sy'n cael eu cadw, a'r amodau ar eu cyfer, ac wedi gwneud argymhellion i'r awdurdodau perthnasol.

Bum mlynedd ers sefydlu'r NPM, mae ymdrechion wedi cael eu gwneud i gryfhau cydymffurfiad ag OPCAT mewn agweddau ar drefniadau llywodraethu a gwaith monitro ymarferol yr NPM. Yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer yr NPM cyfan, rydym yn rhoi crynodeb o brif weithgaredd gwahanol strwythurau llywodraethu a chydgysylltu'r NPM, yn ogystal â'r meysydd gwaith blaenoriaeth ar gyfer yr NPM yn ei gyfanrwydd. Rydym hefyd yn nodi rhai o'r meysydd lle mae aelodau'r NPM wedi hybu cydymffurfiad ag OPCAT yn eu sefydliadau a hefyd mewn trefniadau cydweithio gydag aelodau eraill yr NPM.

## Strwythur a rôl gydgysylltu'r NPM

Ym mis Hydref 2013 daeth cyfnod MWCS a CJINI ar grŵp llywio'r NPM i ben. Ar ôl ymgynghori â'r aelodau yn eu hawdurdodaethau perthynol cytunwyd yng nghyfarfod busnes yr NPM y byddai cynrychiolwyr o HMIPS a'r RQIA yn ymuno â'r grŵp llywio. Mae aelodaeth y grŵp llywio fel a ganlyn:

- Nick Hardwick, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
- Theresa Nixon, Awdurdod Gwella Rheoleiddio ac Ansawdd (RQIA)
- David Strang, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn yr Alban (HMIPS)
- Evan Humphries, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
- Ian Smith, Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVA).

Cyfarfu'r grŵp llywio bedair gwaith yn ystod y flwyddyn a bu'r cyfarfodydd yn fodd i ddatblygu cynllun busnes yr NPM a chefnogi paratoadau ar gyfer digwyddiad dathlu pum mlynedd yr NPM yn ogystal â blaenoriaethau eraill.

Cyfarfodydd busnes yr NPM, sy'n cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn, yw ei brif fforwm er mwyn i'r aelodau allu rhannu canfyddiadau, yr arferion gorau, profiadau a gwersi a ddysgwyd wrth fonitro gwahanol fathau o leoedd cadw a gwahanol awdurdodaethau. Eleni, cynhaliwyd un cyfarfod busnes, ym mis Hydref 2013, a chynhaliwyd y digwyddiad i ddathlu pum mlynedd o fodolaeth ym mis Ebrill yn lle ail gyfarfod busnes y flwyddyn.

Penodwyd cydgysylltydd newydd i'r NPM ac ymgymerodd â'r rôl ym mis Medi 2013.

## Datblygiadau sy'n ymwneud ag aelodau penodol

Ceir gwybodaeth am weithgareddau rheolaidd aelodau'r NPM yn unol â'u mandad OPCAT yn eu hadroddiadau blynyddol perthynol. Yma rydym yn tynnu sylw at rai o'r ffyrdd penodol y mae aelodau'r NPM wedi cyflawni a datblygu eu gwaith yn yr NPM, a lle maent wedi datblygu safonau monitro ataliol OPCAT mewn arferion sy'n bodoli'n barod. Rydym hefyd yn nodi datblygiadau pwysig yn eu hamgylchedd gweithredu a effeithiodd ar eu gallu i gyflawni eu swyddogaethau dan yr NPM.

Ym mis Chwefror 2014 cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) adroddiad ar ei gwaith rheolaidd o fonitro Canolfan Ddiogel Hillside yn Ne Cymru. Canfu AGGCC, ac arolygiaeth addysg Cymru, Estyn, fod

y ganolfan yn darparu gofal o safon uchel i'r bobl ifanc a oedd yn byw yno, ac yn eu cefnogi ar adeg anodd yn eu bywydau. Rhoddodd un o dri thîm rhanbarthol AGGCC sylw penodol hefyd i fonitro cynnydd wrth weithredu Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, yn enwedig y ddarpariaeth yn y Ddeddf y dylai pob claf mewnol, pe bai'n dymuno hynny, allu cael cefnogaeth gan eiriolydd iechyd meddwl annibynnol, gan y gallai hyn fod yn ffordd bwysig o sicrhau hawliau cleifion a allai gael eu cadw dan drefniant de facto. Bydd canfyddiadau'r gwaith hwn yn sail i'r gwerthusiadau blynyddol o berfformiad yr awdurdodau lleol perthnasol a gyhoeddir ym mis Hydref 2014.

Cafodd yr **Arolygiaeth Gofal** ei dynodi'n aelod o'r NPM yn ddiweddar yn dilyn proses o uno sefydliadau, ac mae ganddi gyfrifoldeb statudol am arolygu gwasanaethau gwaith cymdeithasol cyfiawnder troseddol dan Ddeddf Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Yr Alban) 2010. Mae hefyd yn gyfrifol am arolygu gwasanaethau lletya troseddwyr a llety diogel i blant a phobl ifanc. Yn ystod y flwyddyn, aeth yr Arolygiaeth Gofal ati i ddatblygu ei dull o graffu ar waith cymdeithasol cyfiawnder troseddol, gan gydweithio â chyrff eraill yn yr Alban, er mwyn sicrhau gwell tystiolaeth o ganlyniadau i bobl agored i niwed yn y system gyfiawnder, rhoi mwy o sicrwydd ac amddiffyniad i'r cyhoedd ac adlewyrchu newidiadau sy'n cael eu gwneud i bolisi cenedlaethol.

Cynhaliodd y **Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)** 1,292 o ymweliadau monitro dan y Ddeddf Iechyd Meddwl â 1,356 o wardiau gan siarad â 4,517 o gleifion a oedd yn cael eu cadw. Cynhaliodd CQC y cyntaf o'i ymweliadau rheoleiddio newydd â gwasanaethau iechyd meddwl. Ar ôl ymgynghori ar ei strategaeth 2013–16 yn 2012, cyhoeddodd CQC ei ymateb sy'n nodi cynlluniau i wneud yn siŵr bod ei waith rheoleiddio gwasanaethau a'i waith monitro dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol. Ymgymerodd CQC hefyd i barhau â'i waith gyda sefydliadau cenedlaethol er mwyn deall a chyflawni ei rôl fonitro dan y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid yn well wrth i gyfraith achosion a pholisi ar amddifadu o ryddid gael eu datblygu. Dechreuodd CQC ddatblygu ei fframweithiau ar gyfer arolygu lleoliadau diogel eraill a dechreuodd edrych ar ffyrdd o ddefnyddio'i bwerau gorfodi i weithredu ei fandad dan yr NPM yn dilyn ymgynghoriad gan yr Adran Iechyd ar ddiwygiadau i'w reoliadau cofrestru.[27]

Cyhoeddodd **Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon (CJINI)** adroddiad arolygu ym mis Rhagfyr 2013 ar Fonitro Cynnydd wrth Weithredu Argymhellion yr Adolygiad o Gyfiawnder Ieuenctid, a oedd yn cynnwys argymhellion ynglŷn â chadw pobl ifanc yn y ddalfa a'r arferion yn ymwneud ag anfon pobl ifanc dan 18 oed i'r Ganolfan Troseddwyr Ifanc. Ym mis Hydref 2013, cyhoeddwyd adroddiadau arolygu yn dilyn arolygiadau lle rhoddwyd rhybudd (a gynhaliwyd ar y cyd ag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, RQIA a'r Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant) o Garchar Merched Ash House a Chanolfan Troseddwyr Ifanc Hydebank Wood. Gwasanaethodd Prif Arolygydd CJINI fel aelod annibynnol o Grŵp Goruchwylio'r Tîm Adolygu Carchardai, a pharhaodd yr arolygwyr i fonitro ac adrodd ar weithrediad argymhellion y grŵp.

**27** Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (Gweithgareddau a Reoleiddir) 2014

Daeth **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)** yn gyfrifol am gasglu data yn ymwneud â nifer y rhai sy'n cael eu cadw dan Adrannau 135 a 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yng Nghymru, mewn lleoedd diogel sy'n cael eu rhedeg gan y gwasanaeth iechyd a chan yr heddlu. Gweithiodd AGIC â chyrff cyfatebol yn y sector iechyd a sector yr heddlu er mwyn sicrhau cywirdeb y data hyn cyn y gallai wneud sylwadau ynglŷn â'r defnydd o Adrannau 135 a 136.

Ym mis Ionawr 2014, gofynnodd yr Ysgrifennydd Cartref i **Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC)** wneud arolygiad thematig penodol ar les pobl agored i niwed yn nalfeydd yr heddlu. Bydd yr arolygiad thematig hwn, dan arweiniad HMIC, yn cael ei gynnal ar y cyd ag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi. Penderfynwyd y byddai'r gwaith yn canolbwyntio ar y rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl, y rhai o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig a phlant, ac y byddai'n tynnu sylw at arferion da, yn nodi meysydd i'w gwella ac yn gwneud argymhellion cenedlaethol. Cyhoeddir yr adroddiad ar yr arolygiad thematig hwn erbyn diwedd mis Mawrth 2015. Cyhoeddiad arall sy'n berthnasol i HMIC oedd y Concordat Gofal Argyfwng Iechyd Meddwl, a oedd yn rhoi rhagor o gefnogaeth i'r bwriad o ganolbwyntio yn ystod arolygiadau ar werthuso ymwybyddiaeth yr heddlu o argyfyngau iechyd meddwl ac effeithiolrwydd gwaith amlasiantaeth er mwyn cyfeirio pobl sydd angen gofal iechyd meddwl ar fyrder oddi wrth ddalfeydd yr heddlu.

Cynhaliodd **Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn yr Alban (HMICS)** ei harolygiad cyntaf o ddalfeydd yr heddlu ers creu gwasanaeth heddlu cenedlaethol, Police Scotland, ar 1 Ebrill 2013. Rheolir dalfeydd yn genedlaethol erbyn hyn, ac mae hynny'n cynnig cyfleoedd i wella safonau a chysondeb a rhoi arferion da ar waith ledled yr Alban. Defnyddiodd HMICS fframwaith arolygu dalfeydd newydd, er mwyn canolbwyntio ar y driniaeth a'r amodau mewn lleoedd cadw, yn ogystal â materion ehangach megis arweiniad, trefniadau llywodraethu, adnoddau a phartneriaethau'r Adran Ddalfeydd genedlaethol. Yn ystod ei gwaith arolygu, ymwelodd HMICS â 22 o ganolfannau cadw ledled yr Alban, siaradodd â'r rhai a oedd yn cael eu cadw yno, arsylwodd ar brosesau allweddol, archwiliodd gofnodion dalfeydd a chyfwelodd â staff a rhanddeiliaid.[28]

Parhaodd **Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi)** â'i rhaglen arolygiadau dirybudd gan mwyaf, a chyhoeddodd 98 o adroddiadau arolygu yn ystod y flwyddyn. Roedd y rhain yn dangos gostyngiad sylweddol mewn canlyniadau yn ymwneud â diogelwch yn ei harolygiadau, gydag 16 o'r 51 arolygiad carchar llawn yn dangos canlyniadau diogelwch a oedd heb fod yn ddigon da neu'n wael. Datblygodd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi feini prawf arolygu newydd (a elwir yn 'Ddisgwyliadau') ar gyfer carchardai merched, dechreuodd ddiwygio'i Disgwyliadau ar gyfer dalfeydd yr heddlu a'r llysoedd, ac ehangodd ei Disgwyliadau presennol ar gyfer dalfeydd y lluoedd arfog i gynnwys cyfleusterau cadw gwasanaethau. Ymgynghorwyd yn eang ynglŷn â'r rhain ac roeddent yn adlewyrchu newidiadau i safonau hawliau dynol. Defnyddiodd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi dystiolaeth a gynhyrchwyd drwy ei harolygiadau i dynnu sylw at broblemau penodol a wynebid

28 Mae'r adroddiad arolygu terfynol, a gyhoeddwyd yn y flwyddyn fusnes ddilynol, i'w weld yn http://hmics.org/sites/default/files/publications/Thematic%20Inspection%20of%20Police%20Custody%20Arrangements%20in%20Scotland.pdf

gan wahanol grwpiau mewn carchardai, gan ganolbwyntio ar gyn aelodau o'r gwasanaethau milwrol a charcharorion sy'n Sipsiwn, Romani a Theithwyr. Gwnaethpwyd argymhellion er mwyn rhoi sylw i'w hanghenion penodol mewn dau bapur canfyddiadau.[29] Yn olaf, parhaodd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi i weithio gydag Ombwdsmon Hawliau Dynol Bahrain, gan gefnogi ei ymdrechion i ddatblygu arolygiadau a fyddai'n gydnaws ag OPCAT.

Cynhaliodd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn yr Alban (HMIPS) broses i ddiwygio'r safonau yr oedd wedi eu defnyddio wrth arolygu carchardai yn yr Alban er 2006 ac nad oedd yn teimlo eu bod yn adlewyrchu gofynion arolygu carchardai mwyach. Ymgynghorwyd ag ymarferwyr (gan gynnwys aelodau eraill yr NPM), academyddion ac eraill a oedd â diddordeb mewn hawliau dynol a sut y mae carchardai'n cael eu rhedeg. Bydd y safonau sy'n esblygu'n cael eu cyhoeddi yn y flwyddyn fusnes nesaf a byddant yn cynnwys mwy o bwyslais ar gynnwys carcharorion mewn prosesau gwneud penderfyniadau, gwella'r gwerthusiad o eglurder pwrpas a blaenoriaethau'r carchar ac asesu perthnasoedd yn y carchar ac ag asiantaethau a chymunedau allanol.

Gwnaeth adolygiad cynharach o'r Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVA) a gomisiynwyd gan y Swyddfa Gartref ac a gefnogwyd gan Gymdeithas Awdurdodau'r Heddlu ar y pryd nifer o argymhellion llywodraethu, gan gynnwys cynnig i newid statws ICVA o sefydliad corfforedig i gwmni cyfyngedig trwy warant. Daeth y newid terfynol hwn yn weithredol o 31 Gorffennaf 2013 ymlaen. Ymestynnodd Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 gylch gwaith ymwelwyr annibynnol â dalfeydd i gynnwys pobl mewn lleoedd cadw sydd dan amheuaeth o fod yn derfysgwyr. Diwygiwyd y Cod Ymarfer ar Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (a gyhoeddwyd dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002) ym mis Mawrth 2013 i nodi sut y byddai hyn yn gweithio'n ymarferol. Mae'r newidiadau'n ystyried y gwahaniaethau rhwng y fframwaith pwerau statudol sy'n berthnasol i ymchwiliadau terfysgaeth a'r rhai sy'n berthnasol i ymchwiliadau eraill. Gwnaethpwyd newidiadau hefyd i drefniadau llywodraethu'r Gymdeithas, gan gynnwys cyflwyno cynrychiolaeth ranbarthol o gyn ardaloedd rhanbarthol awdurdodau'r heddlu a newidiadau i'r cyfansoddiad. Mae rhagor o waith yn cael ei wneud er mwyn cysoni ffurflenni adrodd am ymweliadau a ffurflenni cais cenedlaethol ar gyfer ymweliadau annibynnol â dalfeydd. Mae ICVA wedi mynegi pryder bod gostyngiad yng nghyllidebau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a galwadau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd wedi golygu nad yw cynlluniau ymweld â dalfeydd yn cael blaenoriaeth.

Yn eu gwaith monitro targedodd Byrddau Monitro Annibynnol y broses o symud mewnfudwyr yn ystod y nos, ac arweiniodd hynny at fwy o ymdrech gan y Swyddfa Gartref i ddadansoddi data perthnasol yn ofalus a lleihau nifer yr unigolion sy'n cael eu symud yn ystod oriau anghymdeithasol.

Cododd yr Arsylwyr Lleyg, a ymgorfforwyd i'r NPM yn ddiweddar, ymwybyddiaeth o'r angen i ddarparu gwybodaeth i garcharorion, gan gynnwys 'taflenni noson gyntaf', tra maent

29 http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/inspections/people-in-prison-ex-service-personnel-a-findings-paper-by-hm-inspectorate-of-prisons/#.VHMyo1Pp_lc a http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/inspections/people-in-prison-gypsies-romany-and-travellers-a-findings-paper-by-hm-inspectorate-of-prisons/#.VHMzJ1Pp_lc

yn dal yn y llys fel paratoad hanfodol ar gyfer mynd i garchar am y tro cyntaf. Cryfhaodd Arsylwyr Lleyg hefyd ymdrechion i adolygu cofnodion hebrwng carcharorion er mwyn sicrhau bod darparu gwybodaeth a thaflenni wedi cael ei gofnodi ochr yn ochr ag unrhyw ystyriaethau perthnasol a oedd yn cael eu cadw cyn i garcharor gael ei symud i garchar ar gyfer cynefino. Gwnaethpwyd rhagor o waith codi ymwybyddiaeth ymhlith holl randdeiliaid dalfeydd y llys ynglŷn â phwysigrwydd glendid, addurniad a darparu cyfleusterau glanweithdra sylfaenol yn holl ddalfeydd y llysoedd. Yn ychwanegol at hyn, dechreuodd yr Arsylwyr Lleyg ymgyrch recriwtio genedlaethol, cyflwynasant asesiadau rheolaidd o berfformiad aelodau a dechreuasant waith i ddatblygu eu trefniadau hyfforddi.

Cynhaliodd Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban (MWCS) gyfres o ymweliadau â merched ag anghenion iechyd meddwl mewn carchardai, a gwnaeth argymhellion er mwyn gwella hyfforddiant, llwybrau ac asesiadau anghenion. Adolygodd y Comisiwn weithrediad cyfyngiadau mewn ysbytai ar ohebiaeth a ffonau a'r defnydd o fesurau diogelwch i gleifion mewn lleoedd cadw, a chanfu fod bylchau o ran gwybodaeth am y mesurau diogelwch deddfwriaethol a sut y maent yn cael eu cymhwyso. Cyhoeddodd ganllawiau ar ddefnyddio 'pŵer cadw nyrsys' mewn cyfraith iechyd meddwl, ac adroddiad yn adolygu marwolaethau mewn lleoedd cadw iechyd meddwl. Yn ychwanegol at hyn, cyhoeddodd MWCS ymchwiliadau i ddau achos o bobl â phroblemau iechyd meddwl ac anabledd dysgu yn y drefn honno a oedd yn y system cyfiawnder troseddol, pan allai hyn fod wedi cael ei osgoi â gwell cefnogaeth gan y system ofal.

Llwyddodd Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon (NIPBICVS) i gynyddu cyfran yr ymwelwyr rhwng 16 a 29 oed yn y cynllun, o 9% yn 2012–13 i 11% yn 2013–14. Bwriada NIPBICVS gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n cael eu cynrychioli yn y cynllun ymweld â dalfeydd ymhellach a bydd y grŵp hwn yn cael ei dargedu mewn ymgyrchoedd recriwtio yn y dyfodol. Er bod cyfanswm y bobl a oedd mewn lleoedd cadw ar adeg ei ymweliadau wedi gostwng dywedodd NIPBICVS fod nifer yr unigolion mewn lleoedd cadw y bu ei ymwelwyr â dalfeydd yn siarad â hwy ychydig yn fwy na'r nifer yn 2012–13. Yn ychwanegol at hyn gwnaeth NIPBICVS gytundeb gwirfoddol â Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon, Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon (PSNI) a'r Adolygydd Annibynnol Deddfwriaeth Terfysgaeth sy'n golygu ei fod yn cael ei hysbysu pan fydd unigolion yn cael eu harestio a'u hanfon i le cadw dan Adran 41 o'r Ddeddf Terfysgaeth. Dan y cytundeb hwn, mae ymwelwyr yn trefnu i ymweld â'r sawl sy'n cael ei gadw cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Parhaodd Ofsted â'i raglen arolygiadau dirybudd ddwywaith y flwyddyn ar gyfer Cartrefi Plant Diogel, yn ogystal â'i arolygiadau blynyddol o Ganolfannau Hyfforddi Diogel gydag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a CQC. Rhoddwyd pwyslais ar ystyried barn a phrofiadau pobl ifanc, drwy holiadur manwl a chyfweliad â phob plentyn mewn Canolfan Hyfforddi Ddiogel, yn ogystal â chysylltu â'r rhai a oedd wedi gadael canolfannau i gael clywed eu barn. Dywedodd Ofsted fod mwy o ymwybyddiaeth o hawliau pobl ifanc mewn Cartrefi Plant Diogel a Chanolfannau Hyfforddi Diogel.

Yn ogystal â'i ymweliadau rheolaidd, ymyrrodd Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr (OCC) yn achos L ac eraill [2013] EWCA Crim 991, gan godi mater barnwyr llysoedd troseddol yn 'tybio' faint yw oed unigolion nad oes cofnod o'u hoed a hynny'n golygu bod plant yn cael eu cadw mewn carchardai oedolion. Rhoddodd y dyfarniad ganllawiau defnyddiol i'r llysoedd troseddol er mwyn atal yr arfer hwn. Rhoddodd Deddf Plant a Theuluoedd 2014, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 13 Mawrth 2014, bwerau newydd i'r Comisiynydd Plant ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth ystyried beth yw hawliau a buddiannau plant.

Cynyddodd Cyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu'r Awdurdod Gwella Rheoleiddio ac Ansawdd (RQIA) ei gweithgaredd arolygu 63%, gan gynnal 75 arolygiad o wardiau iechyd meddwl ac anabledd dysgu. Cynhaliwyd arolygiadau eraill mewn ymateb i gwynion, chwythu'r chwiban ac angen yr RQIA i adolygu'r modd y rheolir cyllid ac eiddo cleifion. Yn ychwanegol at hyn darparodd yr RQIA asesiad annibynnol o gwblhau'r argymhellion cysylltiedig ag iechyd yn y rhaglen ddiwygio a sefydlwyd o ganlyniad i'r adolygiad o Wasanaeth Carchardai Gogledd Iwerddon gan y Fonesig Anne Owers.[30]

Cododd Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC) bryder ynglŷn â'r modd yr oedd carcharorion yn cael eu trin yn yr Alban gerbron Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod a Phwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Arteithio yn ystod eu hadolygiadau rheolaidd o'r Deyrnas Unedig yn 2013.[31] Roedd argymhellion yr SHRC yn cynnwys gweithredu casgliadau'r Comisiwn ar Droseddwyr Benywaidd yn llawn; sicrhau bod mwy o gyfleusterau a gwasanaethau priodol ar gael i bobl mewn lleoedd cadw sydd â phroblemau iechyd meddwl a/neu sy'n gaeth i gyffuriau neu alcohol a'u bod yn fwy hygyrch; a phennu targedau ac amserlenni penodol ar gyfer gostwng y lefelau carcharu uchel a lleihau gorboblogi mewn carchardai.[32] Sicrhaodd SHRC hefyd fod materion amrywiol sy'n ymwneud ag amodau cadw yn cael eu nodi dan Gynllun Gweithredu Cenedlaethol cyntaf yr Alban ar gyfer Hawliau Dynol, a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr 2013.[33] Bydd camau i sicrhau bod yr agweddau ar y cynllun hwn sy'n ymwneud â lleoedd cadw'n cael eu rhoi ar waith yn cael eu cymryd gyda rhanddeiliaid perthnasol yn ystod y flwyddyn fusnes nesaf.

## Cydweithio rhwng aelodau'r NPM

Mae gan lawer o'r aelodau drefniadau cydweithio yn eu rhaglenni arolygu rheolaidd sy'n cefnogi eu swyddogaethau NPM, a chryfheir yr arferion hyn hefyd drwy arolygiadau thematig a memoranda cyd-ddealltwriaeth.

Datblygodd trefniadau cydweithio aelodau'r NPM yn yr Alban yn ystod y flwyddyn, gyda'r Arolygiaeth Gofal yn ymuno â HMIPS oar gyfer adolygiad o'i arolygiad o Sefydliad Troseddwyr Ifanc Polmont a'r arolygiad o garchar Greenock. Cwblhawyd yr arolygiad ar y cyd o ystâd ddiogel yr Alban ar gyfer pobl ifanc a gynhaliwyd gan MWCS a'r Arolygiaeth

30 Cyhoeddwyd ym mis Hydref 2011.
31 http://www.scottishhumanrights.com/resources/policysubmissions/cedawnews2013 and http://www.scottishhumanrights.com/news/latestnews/article/CATreportnews2013
32 http://www.scotland.gov.uk/Resource/0039/00391828.pdf
33 http://www.scottishhumanrights.com/actionplan

Gofal erbyn Ebrill 2014. Cyhoeddir adroddiad ar y gwaith hwn, sy'n tynnu sylw at themâu allweddol a oedd yn codi o'r arolygiad, yn y flwyddyn fusnes nesaf.

Ymchwiliodd a chyhoeddodd pedwar aelod o'r NPM – HMIC, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, CQC ac AGIC – yr adroddiad "*A criminal use of police cells? The use of police custody as a place of safety for people with mental health needs*" ym mis Mehefin 2013. Yn yr adroddiad cyfeiriasant at y defnydd aml o ddalfeydd yr heddlu fel lle diogel dan adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl, sy'n caniatáu i awdurdodau fynd â rhywun y maent yn credu ei fod yn dioddef o anhwylder meddyliol mewn lle cyhoeddus i 'le diogel' i gael ei asesu. Gwnaethpwyd nifer o argymhellion gyda'r nod o sicrhau nad yw pobl yr amheuir bod ganddynt broblemau iechyd meddwl, sy'n aml mewn sefyllfaoedd lle maent yn agored i niwed, yn cael eu cadw yn nalfeydd yr heddlu.

Datblygodd perthynas waith agosach rhwng aelodau'r NPM a oedd yn monitro dalfeydd yr heddlu yng Nghymru a Lloegr yn ystod y flwyddyn, â mwy o gyswllt rhwng yr arolygiaethau (HMIC ac Arolygiaeth Carchardai ei Mawrhydi) a'r Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd. Arweiniodd hyn at wahodd cydgysylltwyr ymweliadau annibynnol â dalfeydd ac ymwelwyr annibynnol â dalfeydd i gysgodi arolygwyr ac at gyflwyniad ar waith y rhaglen arolygiaethau ar y cyd yng nghynhadledd ICVA. Rhagwelir rhagor o gydweithio ac mae yng nghyfnod cynnar ei ddatblygiad.

Gweithiodd AGGCC ac AGIC mewn partneriaeth er mwyn monitro, arolygu a gwella gweithrediad y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid yng Nghymru. Yn ogystal ag adroddiad monitro blynyddol ar y cyd ar weithredu'r trefniadau diogelu, cynhaliwyd gweithdai i ymarferwyr a rheolwyr er mwyn nodi pryderon a themâu. Dilynwyd hyn gan adolygiad cenedlaethol o weithredu'r trefniadau diogelu, a oedd yn cynnwys arolygiadau ym mhob un o'r saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru, wedi'u cyfuno ag arolygiadau yn yr awdurdodau lleol perthnasol. Bydd adroddiad yr adolygiad cenedlaethol yn cael ei lansio mewn digwyddiad dan ofal Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2014.

Cwblhawyd y cylch llawn cyntaf o gydarolygiadau o Ganolfannau Hyfforddi Diogel gan Ofsted, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a CQC a nodwyd gwelliannau i'r ddarpariaeth lleoliadau diogel wrth i'r rhaglen fynd yn ei blaen. Cyflwynir rhagor o ddatblygiadau y flwyddyn nesaf, gan gynnwys proses ymgynghori gynhwysfawr gyda'r bwriad o weithredu fframwaith arolygu amlasiantaeth newydd a gwell yn 2015.

Yn ogystal â chefnogi'r cynlluniau a'r gweithgareddau ar y cyd yr adroddir amdanynt yma, cynhyrchodd tîm cydgysylltu'r NPM ddwy daflen ffeithiau: Introducing the UK's National Preventive Mechanism, a The First Five Years of the UK NPM (gweler Atodiad Naw).

## Sicrhau sylw llawn i'r holl leoedd cadw (Erthygl 4.2 OPCAT)

Mae NPM y Deyrnas Unedig a'i aelodau'n adolygu'r sylw a roddir i leoedd cadw'n rheolaidd ac mae'r NPM wedi rhoi sylw i unrhyw fylchau a nodwyd. Mae'r datblygiadau penodol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys lle mae'r monitro haenog sy'n cael ei ddarparu gan gyrff lleyg a phroffesiynol wedi cael ei gryfhau, fel a ganlyn.

- Mewn ymateb i sefydlu dalfeydd dros dro ar gyfer uwchgynhadledd yr G8 a gynhaliwyd yng Ngogledd Iwerddon ym mis Mehefin 2013 (96 o gelloedd dros dro a lleoedd ychwanegol i gadw hyd at 160 o bobl ar unrhyw adeg benodol), cynhaliodd NIPBICVS ymweliadau ychwanegol gan ymweld yn wirfoddol â'r holl gyfleusterau dros gyfnod o saith niwrnod. Yn ffodus, ychydig iawn o bobl gafodd eu harestio ac ni fu'n rhaid defnyddio'r ddarpariaeth a gynlluniwyd ar y cyd; fodd bynnag, roedd gwirfoddolwyr y dalfeydd wedi'u paratoi'n dda pe bai nifer fawr o bobl wedi cael eu harestio.
- Rhoddodd diwygiadau i Godau Ymarfer yr heddlu a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2013 gyfrifoldeb statudol ar Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu i sicrhau trefniadau lleol ar gyfer ymwelwyr annibynnol â dalfeydd. Roedd y diwygiadau hefyd yn nodi ei bod yn ofynnol i adroddiadau ymwelwyr annibynnol ag unigolion mewn lleoedd cadw sy'n cael eu hamau o fod yn derfysgwyr gael eu cyflwyno i'r Adolygydd Annibynnol Ddeddfwriaeth Terfysgaeth.[34] Cynhyrchodd yr ICVA ddeunydd hyfforddi penodol ar gyfer y gwaith hwn, gan ymgorffori'r newidiadau hyn mewn Codau Ymarfer ac unrhyw waith protocol a oedd yn gysylltiedig ag ymweld â chanolfannau cadw dan y Ddeddf Terfysgaeth.
- Dechreuodd yr Arsylwyr Lleyg fonitro cludiant plant o gartrefi plant diogel a chanolfannau hyfforddi diogel i'r llys ac yn ôl. Darperir yr hebryngwyr hyn dan gontract rhwng y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Serco.
- Gweithiodd HMIPS er mwyn egluro cyfrifoldebau mewn cysylltiad â monitro celloedd llysoedd yn yr Alban.

Cyfarfu tîm cydgysylltu'r NPM ag Adolygydd Annibynnol Deddfwriaeth Terfysgaeth y Deyrnas Unedig a'r SSAFA (elusen genedlaethol y Lluoedd Arfog ac aelod o'r ICVA) i benderfynu ynglŷn â phosibiliadau ar gyfer cydweithio mewn meysydd sydd o ddiddordeb i bawb. O ganlyniad, mae'r posibilrwydd o gorffori'r Adolygydd Annibynnol Deddfwriaeth Terfysgaeth yn yr NPM yn cael ei drafod gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Ar 28 Mawrth 2014 mewn datganiad gan y Gweinidog i'r Senedd cyhoeddwyd bod y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi penderfynu nad oedd angen arolygiadau annibynnol o gyfleusterau cadw'r Deyrnas Unedig yn Afghanistan mwyach - un o'r argymhellion a wnaethpwyd yn adroddiad Syr William Gage ar Ymchwiliad Baha Mousa. Gan gyfeirio at arolygiadau a oedd yn cael gwneud yn barod gan Brofost Milwrol y Fyddin a'i Arolygydd ei hun, yn ogystal ag ymweliadau gan Bwyllgor Rhyngwladol y Groes Goch, cyhoeddodd y Gweinidog Amddiffyn fod y trefniadau arolygu 'triphlyg' presennol 'eisoes yn addas i'r diben ac nad oedd angen diwygio rhagor arnynt'. Mae'r penderfyniad hwn yn wahanol iawn i'r sylwadau cadarnhaol iawn a dderbyniwyd gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi pan wnaethpwyd gwaith paratoawl ar gyfer arolygiad o'r fath yn 2011, mewn ymateb i gais gan y Weinyddiaeth Amddiffyn a Gweinidogion Gwladol olynol dros y Lluoedd Arfog. Mynegodd Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi bryder ynglŷn â'r penderfyniad hwn, sydd yn ei farn ef yn groes i Erthygl 4(1) OPCAT a nododd fod angen sicrhau na welir rhagor o achosion o ymyrryd â hawliau dynol fel a ddigwyddodd i Baha Mousa.

34 https://terrorismlegislationreviewer.independent.gov.uk/

## Cyflwyno cynigion a sylwadau ar ddeddfwriaeth (Erthygl 19c OPCAT)

Ar draws yr NPM, gwnaeth yr aelodau sylwadau ar ddeddfwriaeth a pholisi drafft fel ffordd o gryfhau trefniadau amddiffyn i'r rhai sydd yn y ddalfa ac atal camdriniaeth. Gan fod NPM y Deyrnas Unedig yn cynnwys nifer o aelodau, ac oherwydd natur ddatganoledig rhai meysydd polisi a deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig, mae aelodau'r NPM yn aml yn cydweithio wrth ddarparu ymatebion. Lle bo'n briodol, mae aelodau'r NPM hefyd yn ymateb i ymgyngoriadau ei gilydd, er enghraifft ynglŷn â safonau arolygu newydd, ac mae hon yn un o'r ffyrdd y mae'r arolygiaethau a'r cyrff monitro amrywiol yn rhannu arferion da ac yn hyrwyddo dulliau cyflenwol.

Dyma rai o'r prif ymgyngoriadau polisi a'r prosesau deddfwriaethol y mae aelodau'r NPM wedi cyflwyno cynigion a sylwadau arnynt:

- Cyflwynwyd ymateb ar y cyd gan yr NPM ri ymgynghoriad Chwefror 2013, 'Trawsnewid Trefniadau Caethiwed i Bobl Ifanc', ar gynlluniau'r llywodraeth i gyflwyno colegau diogel yng Nghymru a Lloegr. Roedd cynigion y llywodraeth yn cyfeirio at yr angen i leihau aildroseddu, lleihau costau drwy gystadleuaeth a gwella darpariaeth addysg i blant sydd yn y ddalfa fel ei sail resymegol dros newid. Roedd cyhoeddiadau dilynol gan y llywodraeth yn nodi y byddai'r coleg diogel cyntaf yn cael ei agor yn 2017, ac y byddai lle yno i hyd at 320 o ferched a bechgyn rhwng 12 a 17 oed (gweler hefyd adran 2, Meysydd thematig (iii)).
- Ymatebodd OCC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi i gynigion y llywodraeth ar gyfer diwygio cymorth cyfreithiol, yn ogystal ag adolygiad o'r cynigion hyn gan Gydbwyllgor Hawliau Dynol y Senedd. Mae'r cynigion ynglŷn â chyfraith carchardai, sydd wedi cael eu rhoi ar waith erbyn hyn, yn cyfyngu ar gymorth cyfreithiol troseddol mewn rhai materion cyfraith carchardai.
- Cyflwynodd HMIPS dystiolaeth i Bwyllgor Cyfiawnder Senedd yr Alban ar ddewisiadau eraill yn lle'r ddalfa, gan gynnwys dewisiadau eraill i droseddwyr benywaidd, a hefyd ar Orchymyn Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Pwyllgorau Ymweld â Charchardai) (Yr Alban) 2014.
- Ymatebodd HMIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi i ymgynghoriad gan y Swyddfa Gartref ar y ffordd y mae pobl ifanc 17 oed yn cael eu trin yn nalfeydd yr heddlu ym mis Medi 2013, gan ddarparu tystiolaeth o arolygiadau dalfeydd i alw am ddarparu 'oedolyn priodol' i bobl ifanc 17 oed sydd yn nalfeydd yr heddlu yn y gyfraith ac yn ymarferol. Dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984[35] (PACE), gallai pobl ifanc 17 oed gael eu trin fel oedolion gan yr heddlu ac nid oedd eu hawl i'r un oedolyn priodol â phlant iau yn cael ei chydnabod. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ymateb i ddyfarniad gan yr Uchel Lys bod y Cod PACE yn anghyson â safonau hawliau dynol, ac ym mis Hydref 2013 diwygiwyd Codau PACE C a H i gynnwys hawl i bobl ifanc 17 oed sydd mewn lleoedd cadw gael (a) mynediad at oedolion priodol, a (b) sicrwydd y bydd rhiant/gwarcheidwad yn cael ei hysbysu bod yr unigolyn wedi cael ei arestio a ble mae'n cael ei gadw. Cafodd mesurau diogelu eraill sy'n berthnasol i bobl ifanc 16 oed eu hymestyn i bobl ifanc 17 oed hefyd.

35 Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 - Cod Ymarfer ar gyfer Cadw, Trin a Holi Pobl gan Swyddogion yr Heddlu

- Gwnaeth AGGCC gyfraniad sylweddol i'r gwaith o baratoi ac ymgynghori ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), yn ogystal â Phapur Gwyn ar reoleiddio ac arolygu gofal a chefnogaeth yng Nghymru yn y dyfodol. Cyfrannodd AGGCC hefyd at adolygiad Llywodraeth Cymru o Archwilio, Arolygu a Rheoleiddio, a rhoddodd dystiolaeth i'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, yn ogystal â Phwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar waith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.
- Rhoddodd CQC dystiolaeth i'r pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi sy'n craffu ar weithrediad y Ddeddf Galluedd Meddyliol ers iddi ddod i rym. Mewn ymateb i adroddiad Tŷ'r Arglwyddi, bydd CQC yn gweithredu ei fandad i gefnogi ac annog defnyddio'r darpariaethau presennol tra maent yn gyfreithlon, fel ffordd o amddiffyn hawliau dynol pobl sy'n agored i niwed.
- Cyflwynodd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi sylwadau ar fersiwn drafft y Bil Cymhwystra i Bleidleisio (Carcharorion), gan nodi pwysigrwydd cefnogi dyfarniad gan Lys Hawliau Dynol Ewrop ar y mater. Mewn cyflwyniad i adolygiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus o atebolrwydd cwangos, galwodd Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi am fwy o fesurau diogelu ar gyfer ei fandad annibynnol. Cyflwynodd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi dystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor Cyfiawnder i bolisi a chynllunio'r ystâd garchardai, ac ymatebodd i gynigion y llywodraeth am newidiadau polisi mawr i reoli oedolion ifanc yn y ddalfa. Cyfeiriodd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi hefyd at nifer o gynigion polisi technegol sy'n effeithio ar wasanaethau iechyd a chamddefnyddio sylweddau mewn carchardai, yn ogystal â rheoliadau sy'n llywio gweithrediadau mewn carchardai a'r ystâd fewnfudo (Cyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Carchardai a Gorchmynion Gwasanaethau Cadw).
- Fel aelod o Grŵp Gweithredu Monitro Carchardai yn Annibynnol, cyfrannodd, SHRC at ymdrechion i fwrw ymlaen â'r gwaith o weithredu pwyllgorau ymweld â charchardai yn yr Alban a gwnaeth argymhellion i Ymgynghoriad Llywodraeth yr Alban ar y cynigion drafft ar gyfer Bil Iechyd Meddwl (Yr Alban); Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Yr Alban) 2000: Codau Ymarfer Diwygiedig ar gyfer Cuddwylio a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol; a Bil Cyfiawnder Troseddol (Yr Alban) yn Senedd yr Alban.
- Ymatebodd MWCS i gynigion gan Lywodraeth yr Alban ar newidiadau i Ddeddf Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) (Yr Alban) 2003.

## Meysydd Thematig

### i. Ataliaeth

Yn ystod y flwyddyn datblygodd yr NPM y gwaith y mae wedi bod yn ei wneud ers tro i werthuso a chryfhau dulliau o fonitro'r defnydd o rym ac ataliaeth a rhannu'r arferion gorau. Mae monitro'r defnydd o rym ac ataliaeth yn effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau nad yw'r rhai sy'n cael eu cadw mewn lleoedd cadw'n cael eu cam-drin, ac er mwyn diogelu eu hawliau a sicrhau eu lles.

Yn dilyn pryderon ynglŷn â mwy nag un achos o farwolaeth mewn lleoedd cadw o bob math yn dilyn ataliaeth, a chanfyddiadau ymchwiliadau dilynol bod pryderon tebyg wedi codi yn nifer o'r achosion hyn, datblygodd a chymeradwyodd y Cyd-fwrdd Gweinidogion ar Farwolaethau yn y Ddalfa (ar gyfer Cymru a Lloegr), y cynrychiolir sawl aelod o'r NPM arno,

set o 'Egwyddorion cyffredin ataliaeth' (gweler Atodiad Pump). Datblygwyd yr egwyddorion cyffredin hyn ar sail ymgynghoriad eang, ac maent yn nodi egwyddorion allweddol ar gyfer rheoli ataliaeth yn ddiogel.[36] Cyflwynwyd yr egwyddorion i holl aelodau'r NPM yn ei gyfarfod busnes ym mis Tachwedd 2013 gan yr Athro Richard Shepherd, aelod arbenigol annibynnol o'r Panel Cynghori Annibynnol i'r Bwrdd Gweinidogol. Cytunodd aelodau'r NPM i ddefnyddio'r egwyddorion fel sail i ddatblygu arferion yn eu gwaith a thrwy drafod gyda'r cyrff sy'n cael eu harolygu i geisio canfod a ellid mabwysiadu'r egwyddorion cyffredin drwy drefniadau llywodraethu, rheoli a hyfforddi.

Mae ataliaeth a defnyddio grym yn faterion pwysig ar gyfer arolygiadau rheolaidd a gweithgareddau rheoleiddio'r holl aelodau ac mae enghreifftiau o'r gwaith a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn i'w gweld isod.

### Dalfeydd yr heddlu

Parhaodd HMIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ac i adrodd ynglŷn â'u pryder nad oedd y defnydd o rym yn nalfeydd yr heddlu'n cael ei fonitro'n ddigonol na'r data'n cael eu casglu a'u dadansoddi fel sail i anghenion hyfforddi ac arferion dalfeydd. Rhannwyd y pryderon hyn gan Banel Cynghori'r Bwrdd Gweinidogol ar Farwolaethau yn y Ddalfa. Roedd y ddau gorff yn bryderus hefyd gan nad oedd staff dalfeydd yn cwblhau ffurflenni defnyddio grym a oedd ar gael yn rheolaidd pan oedd unigolion mewn lleoedd cadw'n cael eu hatal yn gorfforol ac, mewn rhai achosion, pan nad oeddent yn gweld eu hymyriad fel defnyddio grym. Gan nad oedd staff dalfeydd yn cael unrhyw adborth yn dilyn eu ffurflenni defnyddio grym ychwaith, credent yn gyffredinol eu bod yn cael eu defnyddio ar gyfer hyfforddiant diogelwch personol yn unig, ac nid fel ffordd o sicrhau bod grym yn cael ei ddefnyddio fel dewis olaf a bod cyn lleied o rym ag sy'n bosibl yn cael ei ddefnyddio.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, canfu, HMICS fod swyddogion arestio a staff dalfeydd yn yr Alban yn ystyried defnyddio grym ac ataliaeth mewn ffordd fwy cymesur a oedd yn seiliedig ar risg, a bod digwyddiadau'n cael eu cofnodi. Er hyn, roedd prinder gwybodaeth rheoli ac nid oedd digon yn cael ei wneud i fonitro tueddiadau.

### Plant

Yn ystod ei hymweliadau ag ystâd ddiogel cyfiawnder ieuenctid, roedd yr, OCC yn gofyn am ddata ynglŷn ag ataliaeth ac yn edrych ar luniau teledu cylch cyfyng o ddigwyddiadau atal, gan ddwyn unrhyw bryderon yn dilyn hynny i sylw'r sefydliad cadw a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

Roedd dull newydd o reoli ymddygiad, 'lleihau a rheoli ataliaeth gorfforol' (MMPR), yn cael ei roi ar waith mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chanolfannau Hyfforddi Diogel. Mynegodd. Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ei phryder y gallai rhai pobl ifanc gael eu hanafu'n anfwriadol gan na fyddai staff yn gallu cymhwyso'r technegau newydd yn briodol mewn sefyllfa go iawn, yn ogystal â phryder ynglŷn â'r system newydd i gofnodi digwyddiadau atal. Cyhoeddir adolygiad thematig llawn ar ddefnyddio ataliaeth mewn sefydliadau i blant a phobl ifanc yn y flwyddyn adrodd nesaf.

36 http://iapdeathsincustody.independent.gov.uk/news/iap%E2%80%99s-common-principles-on-the-safer-use-of-restraint-published-today/

Parhaodd Ofsted i fonitro digwyddiadau a lluniau teledu cylch cyfyng a gwerthuso data ar gyfer tueddiadau yn ymwneud ag ataliaeth. Aeth arolygwyr Ofsted i sesiynau briffio ar ataliaeth a dulliau newydd o reoli ymddygiad ar gyfer Canolfannau Hyfforddi Diogel a byddant yn cael eu cysylltu ag adolygiad thematig Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi.

Cododd mater ataliaeth fel thema gyffredinol drwy'r gwaith ar y cyd gan yr Arolygiaeth Gofal a'r Comisiwn Lles Meddyliol yr ystâd ddiogel ar gyfer pobl ifanc yn yr Alban. At ei gilydd, gwelsant fod angen rhagor o gyfarwyddyd a hyfforddiant cyson er mwyn sicrhau bod pawb sy'n gweithio gyda'r grŵp hwn sy'n agored iawn i niwed yn deall ataliaeth yn iawn ac yn ei chymhwyso'n briodol.

### Mewnfudo

Roedd OCC yn barti â budd yn achos 'C and others v Secretary of State for the Home Department', a oedd yn ymwneud â'r amgylchiadau pan ellir defnyddio grym yn erbyn plant a merched beichiog yng nghyd-destun symud mewnfudwyr. Arweiniodd yr achos hwn, a gafodd ei setlo, at egluro polisi'r Swyddfa Gartref na ellir defnyddio grym yn erbyn plant a merched beichiog wrth symud mewnfudwyr oni bai fo hynny'n angenrheidiol er mwyn atal niwed iddynt hwy eu hunain neu eraill.

Mynegodd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ei phryder unwaith yn rhagor nad oedd hyfforddiant ataliaeth achrededig o hyd ar gyfer staff hebrwng ar ddefnyddio grym mewn lle cyfyngedig mewn awyren. Roedd y defnydd o orfodaeth cyffyrddiad ysgafn gan staff yn ystod rhai camau o'r broses symud yn anghymesur. Nid oedd cyfiawnhad ysgrifenedig ym mhob achos dros ddefnyddio ataliaeth yn cael ei ddarparu bob amser, ac mewn gwirionedd roedd gefynnau'n cael eu rhoi ar ddwylo'n rheolaidd wrth hebrwng i rai canolfannau ac ar gyfer rhai apwyntiadau allanol (er enghraifft mewn ysbytai neu lysgenadaethau tramor).

### Ataliaeth â phobl sy'n marw

Datgelodd arolygiadau gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn ystod y flwyddyn ddau achos lle'r oedd defnyddio ataliaeth wedi achosi pryder.

Roedd dyn 84 oed o Ganada a oedd yn dioddef o dementia yn cael ei gadw yn Harmondsworth. Er gwaethaf argymhelliad gan feddyg yn y ganolfan y dylai gael ei ryddhau ar unwaith, aethpwyd ag ef i'r ysbyty â gefynnau am ei ddwylo ar ddau achlysur. Yn ystod yr ail ymweliad ar ddechrau 2013, peidiodd ei galon â churo.

Mewn achos arall yn Harmondsworth ym mis Tachwedd 2012, gadawyd y gefynnau ar ddwylo carcharor a oedd yn marw tra roedd wedi cael ei dawelu ac yn cael triniaeth angioplasti mewn ysbyty, ond tynnwyd hwy cyn iddo farw. Mae uned safonau proffesiynol y Swyddfa Gartref wedi cwblhau ymchwiliad beirniadol i'r achos hwn.

Roedd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi o'r farn fod y defnydd o efynnau'n ormodol yn y naill achos a'r llall, ac argymhellodd na ddylid defnyddio ataliaeth oni bai fod asesiad risg yn nodi risg benodol o ddianc neu risg o ran diogelwch y cyhoedd neu'r staff.

http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/inspections/report-on-an-unannounced-inspection-of-harmondsworth-immigration-removal-centre-5-16-august-2013-by-hm-chief-inspector-of-prisons/#.VGoUN1Pp_ld

### Iechyd

Mynegodd Comisiynwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl bryder ynglŷn ag arferion atal mewn cannoedd o ymweliadau yn Lloegr. Mewn un enghraifft, gwelodd CQC ataliaeth gorfforol yn cael ei defnyddio gan dri aelod o'r staff yn erbyn un claf. Yn ystod cyfnod o 15 munud, rhoddwyd y claf i orwedd ar ei bol ar lawr ei hystafell wely, tra roedd un aelod o'r staff yn dal ei choesau a'r lleill yn dal ei breichiau. Protestiodd y claf am y boen yn ei choesau a gofynnodd drosodd a throsodd i'r staff stopio. Sylwodd CQC yn dilyn hynny nad oedd llawer o wybodaeth am y digwyddiad wedi'i chofnodi ar siart arsylwi'r claf, ac nid oedd cofnod o farn y claf ychwaith. Yn ogystal â'u hymateb i'r digwyddiad unigol, cymerodd CQC gamau i sicrhau bod hyfforddiant a gweithgareddau monitro'n arwain at well cydymffurfiad â'r Cod Ymarfer.

### Codi ymwybyddiaeth

Defnyddiodd y Byrddau Monitro Annibynnol eu cynhadledd flynyddol i godi ymwybyddiaeth o faterion ataliaeth, â chyflwyniad ar ganfyddiadau'r Panel Cynghori Annibynnol ar Reoli Diffyg Cydymffurfiad a hyfforddiant dilynol yn cael ei ddarparu i fonitoriaid perthnasol.

## ii. Atal sancsiynau sy'n codi o waith yr NPM

Mae Protocol Dewisol y Confensiwn yn erbyn Arteithio yn nodi na ddylai sancsiynau (unrhyw gosb neu ragfarn sy'n digwydd oherwydd bod unigolyn neu sefydliad wedi bod mewn cysylltiad ag NPM neu ei staff) gael eu caniatáu na'u goddef (Erthygl 21). Fel y nodwyd ym mhedwerydd Adroddiad Blynyddol yr NPM, mae aelodau'r NPM wedi ymrwymo i gymryd camau i fynd i'r afael â'r gofyniad hwn a'u cyfrifoldeb eu hunain i atal unrhyw sancsiynau sy'n codi o'u gwaith, a rhoi sylw i unrhyw rai sy'n dod i'r amlwg.

Ym mis Hydref 2013, mabwysiadodd, Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a'r Byrddau Monitro Annibynnol a'r brotocol,[37] ar y cyd â'r Ombwdsmon Carchardai a Phrawf, i lywio gwaith ar y cyd i amddiffyn unrhyw garcharor, neu unigolyn mewn lle cadw rhag sancsiynau neu ragfarn arall. Mae'r protocol yn rhoi sicrwydd y dylai carcharorion / unigolion mewn lleoedd cadw fod yn rhydd i gyfathrebu â phob sefydliad heb ofni sancsiynau neu ragfarn arall, ac mae'n nodi trefniadau gwaith penodol er mwyn sicrhau bod y tri chorff yn mynd ar ôl unrhyw achos sy'n codi mewn ffordd briodol.

Ers mabwysiadu'r protocol, rhoddwyd gwybod am 10 achos honedig o sancsiynau – neu bryder y gallent godi – a gweithredwyd mewn cysylltiad â hwy. Cododd y rhan fwyaf o'r honiadau o sancsiynau ar ôl i garcharor siarad gydag aelod o staff Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi.

Oherwydd natur ddifrifol nifer fach o rai o'r achosion a'r honiadau mae sefydliadau perthnasol wedi cynnal ymchwiliadau mewnol mewn rhai achosion, ac mae'r cyrff a oedd yn gysylltiedig â'r protocol wedi cadw mewn cysylltiad er mwyn monitro'r camau a gymerwyd a sicrhau eu bod yn briodol.

Nododd gwerthusiad cychwynnol o weithredu'r protocol ei ddylanwad cadarnhaol wrth godi ymwybyddiaeth staff yr NPM o'u cyfrifoldeb i atal a gweithredu mewn cysylltiad â sancsiynau, nad ydynt yn debygol o fod yn amlwg, yn ogystal â dangos bod modd mynd i'r afael ag achosion o'r fath. Byddwn yn edrych ar ymdrechion

37 http://www.justiceinspectorates.gov.uk/prisons/wp-content/uploads/sites/4/2014/02/hmip-imb-ppo-protocol.pdf

pellach i sicrhau bod yr holl sancsiynau y rhoddir gwybod amdanynt yn cael sylw yn unol â'r protocol yn y flwyddyn adrodd nesaf, yn ogystal ag ymdrechion i ymestyn y gwaith hwn ar draws awdurdodaethau a gwahanol fathau o leoedd cadw.

Cafodd yr NPM gyfle i rannu ei brofiad o atal a mynd i'r afael â sancsiynau mewn cyfarfod i arbenigwyr ar y pwnc a drefnwyd gan y Gymdeithas er Atal Arteithio ym mis Ionawr 2014.

### iii. Plant a phobl ifanc

2013–14 oedd ail flwyddyn is-grŵp plant a phobl ifanc NPM y Deyrnas Unedig. Mae'r is-grŵp wedi'i sefydlu fel mecanwaith ar gyfer aelodau'r NPM y mae eu gwaith yn cynnwys ymweld â phlant mewn lleoedd cadw i gyfnewid gwybodaeth a hysbysrwydd ac i ystyried gweithio ar y cyd ar faterion sy'n effeithio ar blant mewn lleoedd cadw – yn fwyaf arbennig eleni, cynlluniau llywodraeth y Deyrnas Unedig i adeiladu colegau diogel yn y system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr.

Arweiniodd yr is-grŵp plant a phobl ifanc waith ar ymateb ar y cyd yr NPM i ymgynghoriad y Weinyddiaeth Cyfiawnder, 'Trawsnewid Trefniadau Caethiwed i Bobl Ifanc', ym mis Ebrill 2013, a oedd yn cynnig creu colegau diogel yng Nghymru a Lloegr. Amlinellodd aelodau'r NPM gyfres o egwyddorion yn seiliedig ar Reolau'r Cenhedloedd Unedig ar Amddiffyn Pobl Ifanc sydd wedi'u Hamddifadu o'u Rhyddid (Rheolau Havana) y credent y dylent fod yn sail i ddyluniad a threfniadau rheoli unrhyw ddalfeydd ar gyfer plant. Siaradodd aelodau'r NPM o blaid awyrgylch mwy cartrefol, a oedd yn canolbwyntio ar y plentyn, yn y lleoliadau hyn.

Roedd cyfarfodydd chwarterol yr is-grŵp yn cynnwys cyflwyniadau ar iechyd mewn lleoliadau diogel; defnyddio arferion arwahanu/ynysu â phlant mewn lleoedd cadw; a chadw plant yn nalfeydd yr heddlu ac mewn lleoedd cadw mewnfudwyr. Roedd cyfarfodydd wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol er mwyn canolbwyntio ar gadw plant de facto yng nghyswllt plant, trafod y gwahanol gyd-destunau cyfreithiol domestig sy'n gysylltiedig â phlant ac effeithiau penderfyniad y Goruchaf Lys yn P (OS) v Cheshire West and another [2014] UKSC 19; a'r arolygiad thematig sy'n cael ei arwain gan HMIC o'r modd y mae pobl sy'n agored i niwed yn cael eu trin yn nalfeydd yr heddlu.

Cynhaliwyd gwerthusiad o flwyddyn gyntaf yr is-grŵp yn 2014 hefyd. Penderfynwyd y dylai'r is-grŵp barhau, gan ei fod wedi bod yn effeithiol, ond y dylai gael mwy o awdurdod dirprwyedig i ymateb ar ran yr NPM cyfan i faterion yn codi sy'n ymwneud â phlant mewn lleoedd cadw. Penderfynwyd hefyd y dylai'r is-grŵp ymgymryd â gwaith yn ymwneud â'r flaenoriaeth strategol a ddewisir gan yr NPM ar gyfer pob blwyddyn fusnes.

## Craffu a chydweithio rhyngwladol

### i. Cyfarfod ag Is-bwyllgor Atal Arteithio'r Cenhedloedd Unedig

Ar 20 Mehefin 2013, rhoddodd cynrychiolwyr o Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a MWCS, ar ran NPM y Deyrnas Unedig, gyflwyniad yng Ngenefa ar waith yr NPM i gyfarfod llawn o'r Is-bwyllgor Atal Arteithio a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol Arall. Mae'r rhan fwyaf o'r mecanweithiau ataliol cenedlaethol yn sefydliadau unigol ac er bod gan rai ohonynt nifer o aelodau, mae'r nifer sy'n ymwneud ag NPM y Deyrnas Unedig yn llawer mwy

nag yn unlle arall. Mae hyn yn cynnig manteision o ran adnoddau a phrofiad ond cymhlethdod o ran cydgysylltu. Yn hyn o beth, mae NPM y Deyrnas Unedig, sydd â nifer o aelodau, yn unigryw. Pwrpas y cyfarfod oedd rhoi cyfle i'r Is-bwyllgor Atal Arteithio ac NPM y Deyrnas Unedig ystyried cryfderau a gwendidau model y Deyrnas Unedig, beth y gallai ei ddysgu gan fecanweithiau ataliol cenedlaethol eraill, neu beth y gallai ei ddysgu iddynt, ac i ba raddau y mae NPM y Deyrnas Unedig yn cyflawni ei rwymedigaethau dan OPCAT. Hwn oedd cyfarfod cyntaf yr NPM â chyfarfod llawn yr Is-bwyllgor Atal Arteithio ers i gorff y Deyrnas Unedig gael ei sefydlu.

Ym mis Tachwedd 2013, ysgrifennodd yr Is-bwyllgor Atal Arteithio lythyr yn amlinellu cyfres o arsylwadau, casgliadau ac awgrymiadau i NPM y Deyrnas Unedig. Roedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod manteision amlwg model y Deyrnas Unedig ond cyfeiriodd at risg negeseuon cymysg mewn model sydd â nifer o aelodau, yr angen i gael dealltwriaeth ddyfnach o OPCAT yn yr NPM, a'r potensial i aelodau unigol o'r NPM weithredu a rhannu argymhellion sy'n cael eu gwneud gan eraill. Awgrymodd yr Is-bwyllgor y dylai'r NPM wneud archwiliad cynhwysfawr o'i effeithiolrwydd a'i effeithlonrwydd, gan ddefnyddio'r offeryn hunanasesu roedd wedi'i ddatblygu (gweler Atodiad Wyth). Croesawodd yr NPM yr awgrym ac ymrwymodd i ddarparu ymateb llawn i'r Is-bwyllgor ar ôl iddo wneud ei archwiliad ac ystyried y cynnydd yn y digwyddiad i ddathlu pum mlynedd ers ei sefydlu.

Cynhaliwyd rhagor o gyfarfodydd anffurfiol a sesiynau cyfnewid gwybodaeth rhwng canolbwynt yr Is-bwyllgor Atal Arteithio ar gyfer y Deyrnas Unedig a'r NPM drwy gydol y flwyddyn.

### ii. Argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Arteithio ac ymateb yr NPM

Ym mis Mai 2013, cynhaliodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Arteithio ei adolygiad cyfnodol o gynnydd y Deyrnas Unedig wrth weithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Arteithio a'r Protocol Dewisol. Y Pwyllgor yn erbyn Arteithio yw'r corff sy'n gyfrifol am oruchwylio'r modd y mae Parti-wladwriaethau'n gweithredu'r Confensiwn yn erbyn Arteithio, ac mae'n cynnwys 10 arbenigwr awdurdodol, annibynnol.

Fel rhan o'i hadolygiad, cyflwynodd llywodraeth y Deyrnas Unedig adroddiad yn amlinellu'r ymdrechion i weithredu'r cytuniad. Yna atebodd gwestiynau'r Pwyllgor ar ei hadroddiad yn ystod y sesiwn ym mis Mai 2013. Gofynnodd y Pwyllgor nifer o gwestiynau, gan gynnwys a allai annibyniaeth yr NPM fod yn y fantol os yw swyddogion y Wladwriaeth sy'n gweithio mewn lleoedd lle mae unigolion yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn cael eu secondio i'r NPM. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am sicrwydd bod digon o adnoddau'n cael eu dyrannu i'r NPM er mwyn iddo allu cyflawni ei rôl yn effeithiol. O ganlyniad i'r adolygiad o ddogfennau o ystod o ffynonellau anllywodraethol a'i ryngweithiad ffurfiol â'r llywodraeth yn ystod y sesiwn, lluniodd y Pwyllgor gyfres o 'arsylwadau terfynol' ac argymhellion i'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys yr argymhelliad isod yn ymwneud â'r NPM:

> 14. Mae'r Pwyllgor, yn gwbl ymwybodol o barodrwydd y Parti-wladwriaeth i hyrwyddo rhannu profiadau, yn nodi bod yr arfer o secondio swyddogion y Wladwriaeth sy'n gweithio mewn lleoedd lle mae unigolion yn cael eu hamddifadu

o'u rhyddid i gyrff Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol yn codi pryder ynglŷn â'r sicrwydd o annibyniaeth lwyr sydd i'w ddisgwyl gan gyrff o'r fath (erthygl 2).

Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Parti-wladwriaeth yn rhoi'r gorau i'r arfer o secondio unigolion sy'n gweithio mewn lleoedd lle mae pobl yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid i gyrff Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol. Mae'n argymell bod y Parti-wladwriaeth yn dal i ddarparu digon o adnoddau dynol, materol ac ariannol i'r cyrff sy'n rhan o'r Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol i'w galluogi i gyflawni eu mandad atal yn annibynnol ac yn effeithiol.[38]

Yn ystod ei deialog gyda'r Pwyllgor yn erbyn Arteithio, nododd y llywodraeth fod pob aelod o'r NPM yn cael ei ariannu ar wahân ac nad oedd 'unrhyw gynlluniau i dorri cyllid ar gyfer y gwaith NPM a oedd yn cael ei wneud gan y cyrff hynny'. Yn ychwanegol at hyn, mynegodd ei farn nad oedd 'yr arfer o gyfnewid rhwng swyddogion y Wladwriaeth a swyddogion yr NPM yn rhoi annibyniaeth yr NPM yn y fantol; yn hytrach, roedd yn helpu i fodloni'r galw am ansawdd a mewnbwn arbenigol ac yn cynyddu ymwybyddiaeth swyddogion y Wladwriaeth o'r NPM.'[39]

Ar 5 Mawrth 2014, ar ôl trafodaeth yn yr NPM, darparwyd ymateb i'r Pwyllgor yn erbyn Arteithio (gweler Atodiad Chwech). Yn ei ymateb mynegodd yr NPM ei ymrwymiad i weithio er mwyn cryfhau gwir annibyniaeth ac annibyniaeth ymddangosiadol y mecanwaith yn unol â safonau a osodwyd gan Brotocol Dewisol y Confensiwn yn erbyn Arteithio. Ymrwymodd yr aelodau i weithio er mwyn gwneud gwahaniaeth mwy pendant rhwng yr adnoddau dynol y maent yn eu cymhwyso i weithgareddau'r NPM a'r rhai y maent yn eu cymhwyso i'w swyddogaethau ehangach, ac i weithio er mwyn lleihau eu dibyniaeth ar staff ar secondiad sy'n cael eu dyrannu i weithgareddau'r NPM. Yn ychwanegol at hyn, cytunodd NPM y Deyrnas Unedig i ddatblygu set o egwyddorion er mwyn lleihau'r posibilrwydd o wrthdaro rhwng buddiannau staff ar secondiad ar draws yr NPM. Croesawodd gydnabyddiaeth y Pwyllgor o'r angen i sicrhau bod yr NPM yn cael digon o adnoddau.

### iii. Adroddiadau'r Pwyllgor Ewropeaidd er Atal Arteithio ar ymweliadau 2012 â'r Deyrnas Unedig

Ym Medi a Hydref 2012 cynhaliodd y Pwyllgor Ewropeaidd er Atal Arteithio a Thriniaeth neu Gosb Annynol neu Ddiraddiol ddau ymweliad swyddogol â'r Deyrnas Unedig a chyhoeddwyd ei adroddiadau ar y ddau ymweliad eleni.

Roedd yr adroddiad ar ymweliad Medi 2012, a gyhoeddwyd ar ôl cryn dipyn o oedi ym mis Mawrth 2014, yn amlinellu nifer o argymhellion yn ymwneud ag archwiliad y Pwyllgor o sefyllfa carcharorion benywaidd (Carchardai Cornton Vale, Caeredin a Greenock) ac oedolion gwrywaidd ar remand (Carchardai Barlinnie a Kilmarnock). Ymchwiliodd y Pwyllgor hefyd i driniaeth ac amodau cadw mewn nifer o orsafoedd yr heddlu ac ymwelodd â chlinig seiciatrig diogelwch canolig, hefyd yn yr Alban. Yn Lloegr, edrychodd y Pwyllgor ar faterion yn ymwneud â phobl sy'n cael eu cadw dan ddeddfwriaeth mewnfudo ac ymwelodd â

**38** CAT/C/GBR/CO/5 at: http://tbinternet.ohchr.org/Treaties/CAT/Shared%20Documents/GBR/CAT_C_GBR_CO_5_16598_E.doc
**39** Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Arteithio, Summary record of the 1139th meeting, Consideration of reports submitted by States parties under article 19 of the Convention. CAT/C/SR.1139.

dwy ganolfan symud mewnfudwyr, Brook House a Colnbrook.[40]

Ymhlith ei argymhellion, galwodd y Pwyllgor Atal Arteithio am gryfhau'r mesurau diogelu sy'n bodoli ar gyfer pobl sy'n cael eu cadw gan yr heddlu yn yr Alban, ac ymdrechion i leihau gorboblogi drwy hyrwyddo dewisiadau eraill yn lle carchar. Roedd yn feirniadol o'r ffaith fod carcharorion ar remand yng Ngharchar Barlinnie, ar adeg yr ymweliad, yn aml yn treulio hyd at 22 awr y dydd wedi'u cau yn eu celloedd, ac o'r 63 ciwbicl tebyg i gypyrddau y rhoddwyd carcharorion ynddynt yn ystod y broses dderbyn yno. Mewn cysylltiad â'r canolfannau symud mewnfudwyr yr ymwelodd â hwy, mynegodd y Pwyllgor bryder ynglŷn â natur amhenodol lleoedd cadw a nifer y bobl a oedd yn treulio mwy na blwyddyn mewn dalfeydd mewnfudo; y cwynion a glywodd gan unigolion a oedd yn cael eu cadw mewn lleoedd cadw am agwedd negyddol staff a diffyg cefnogaeth ganddynt; a nifer fach o honiadau ynglŷn â defnydd gormodol o rym a cham-drin yn eiriol gan staff yng Nghanolfan Symud Mewnfudwyr Colnbrook. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid rhoi'r gorau i'r arfer o roi gefynnau am ddwylo unigolion a oedd yn cael eu cadw mewn lleoedd cadw yn ystod ymgyngoriadau meddygol mewn ysbytai, a gwneud adolygiad yn fuan o briodoldeb cadw mewn achosion lle mae ymarferydd meddygol wedi cyflwyno adroddiad yn nodi y gallai unigolyn sy'n cael ei gadw mewn lle cadw fod wedi cael ei arteithio (Rheol 35.3 o'r Rheolau Canolfannau Cadw (2001)).

Roedd adroddiad y Pwyllgor Atal Arteithio ar ei ymweliad ad hoc ym mis Hydref 2012, pan oedd dirprwyaeth o'r Pwyllgor yn bresennol ar daith mewn awyren siarter i symud mewnfudwyr rhwng Llundain a Colombo (Sri Lanka), yn gadarnhaol at ei gilydd ynglŷn â'r broses o baratoi ar gyfer symud a welodd a'r ymdrechion i wneud hynny mewn ffordd ddyngarol. Gwnaeth y Pwyllgor argymhellion ynglŷn ag achredu a gweithredu pecyn hyfforddi diwygiedig ar gyfer staff hebrwng, presenoldeb cyfieithwyr yn ystod teithiau hedfan gyda hebryngwyr a'r angen i gynnwys asesiadau seicolegol wrth recriwtio staff hebrwng.[41]

Cytunodd y llywodraeth y gellid cyhoeddi ei hymatebion i'r ddau adroddiad. [42] Dechreuodd aelodau'r NPM baratoi ymateb i'r Pwyllgor Atal Arteithio, i'w anfon yn y flwyddyn fusnes nesaf.

### iv. Cyfarfod Cyngor Ewrop ac NPM y Deyrnas Unedig ar gadw mewnfudwyr

Trefnwyd cyfarfod gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi gyda Chyngor Ewrop (Cynulliad Seneddol a Chyfarwyddiaeth Gyffredinol Democratiaeth) i gefnogi gwaith i ddatblygu'r broses o godio set o Reolau Cadw Mewnfudwyr a fyddai'n berthnasol i aelodau Cyngor Ewrop, a fyddai'n debyg i Reolau Carchardai Ewrop. Daeth y cyfarfod, a gynhaliwyd yng Nghyngor Ewrop yn Strasbourg ar 21 a 22 Tachwedd 2013, â mecanweithiau ataliaeth cenedlaethol o wahanol rannau o Gyngor Ewrop ac aelodau o'r Is-bwyllgor Atal Arteithio a'r Pwyllgor Atal Arteithio, yn ogystal â nifer o arbenigwyr rhyngwladol o sefydliadau academaidd a chyrff anllywodraethol at ei gilydd.

Roedd y trafodaethau yn ystod y cyfarfod yn canolbwyntio ar bryderon allweddol ynglŷn

**40** http://www.cpt.coe.int/documents/gbr/2014-11-inf-eng.htm
**41** http://www.cpt.coe.int/documents/gbr/2013-14-inf-eng.htm
**42** http://www.cpt.coe.int/documents/gbr/2013-15-inf-eng.pdf and http://www.cpt.coe.int/documents/gbr/2014-12-inf-eng.pdf

â'r driniaeth a'r amodau ar gyfer mewnfudwyr mewn lleoedd cadw ledled Ewrop, a rhannu arferion gorau wrth fonitro lleoedd cadw mewnfudwyr. Roedd y mecanweithiau ataliol cenedlaethol a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn rhannu pryder ynglŷn â diffyg rheolau cyfunol yn ymwneud â lleoedd cadw mewnfudwyr, ac roeddent yn cytuno y byddai rheolau o'r fath yn eu helpu i gyflawni eu mandadau fel cyrff monitro lleoedd cadw. Cyflwynodd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, fel aelod o NPM y Deyrnas Unedig, ei chynigion ar gyfer rhai o'r egwyddorion a ddylai gael eu cynnwys mewn set o safonau gofynnol ar gyfer cadw mewnfudwyr yn y dyfodol. Roedd datganiad terfynol (gweler Atodiad Saith) yn galw ar Gyngor Ewrop i weithredu'r cynigion hyn.

### v.Cyfnewid profiad yn rhyngwladol

Mae aelodau'r NPM yn cael budd o arbenigedd mecanweithiau ataliol cenedlaethol eraill ac mae NPM y Deyrnas Unedig yn aml yn croesawu dirprwyaethau allanol ac yn rhannu ei arbenigedd gyda hwy. Yn ystod y flwyddyn, croesawyd dirprwyaethau o Facedonia (NIPBICVS), yr Iseldiroedd (AGGCC), Tsieina (yr Arolygiaeth Gofal), Tsiecoslofacia (Yr Arolygiaeth Gofal), Twrci (yr Arolygiaeth Gofal), Japan (Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi) a Libya (Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi). Cyfarfu tîm cydgysylltu'r NPM â dirprwyaethau o Kyrgystan a Turkmenistan. Bu'r Gymdeithas er Atal Arteithio'n cysgodi tîm arolygu ar y cyd HMIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn ystod arolygiad o gyfleusterau cadw Heddlu Dyffryn Tafwys ym mis Medi 2013.


Ymwelodd aelodau'r NPM â Macedonia (HMIC), Indonesia (Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi) a Rwsia (Byrddau Monitro Annibynnol ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi) i gefnogi datblygiad monitro annibynnol.

Yn ychwanegol at hyn, rhennir gwybodaeth rhwng mecanweithiau ataliol cenedlaethol drwy gylchlythyr Ewropeaidd, ac mae NPM y Deyrnas Unedig yn anfon gwybodaeth iddo.

Cynhaliwyd cyfarfodydd hefyd gyda dirprwyaeth o Bwyllgor Rhyngwladol y Groes Goch yn Llundain i drafod meysydd cyffredin o ddiddordeb.

## Adran tri

# Pum mlynedd NPM y Deyrnas Unedig – pwyso a mesur ac edrych ymlaen



Manteisiodd NPM y Deyrnas Unedig ar y cyfle wrth gofnodi pum mlynedd ers ei sefydlu i adolygu'r gwaith yr oedd wedi'i wneud hyd yn hyn, gan annog pwyso a mesur mewnol a chraffu allanol gyda'r bwriad o gryfhau ei ddull o weithio yn y dyfodol. Roedd y broses adolygu hon yn cynnwys tair prif elfen: hunanasesiad o'r NPM gan ddefnyddio 'Offeryn hunanasesu dadansoddol' yr Is-bwyllgor Atal Arteithio ei hun (gweler Atodiad Wyth), adborth uniongyrchol gan yr Is-bwyllgor Atal Arteithio a gofyn am farn allanol yn ystod y digwyddiad 'The UK's NPM: Five Years On'. Ar y cyfan, cafwyd sylwadau cadarnhaol gan aelodau'r NPM a'r rhanddeiliaid allanol ynglŷn â'u profiad hyd yn hyn o NPM y Deyrnas Unedig ac roedd gwybodaeth ac ehangder ei aelodau'n cymharu'n ffafriol â mecanweithiau ataliol cenedlaethol eraill mewn gwahanol rannau o'r byd. Roedd hyn yn adlewyrchu rôl bwysig y Deyrnas Unedig wrth hyrwyddo OPCAT yn ystod y cyfnod sefydlu a'r blynyddoedd cynnar. Yr un pryd, nododd aelodau'r NPM a chyrff allanol fel ei gilydd feysydd pwysig lle gallai NPM y Deyrnas Unedig wella'i ymdrechion presennol i atal unigolion rhag cael eu cam-drin mewn lleoedd cadw. Cyflwynir crynodeb o drafodaethau a chanfyddiadau'r broses adolygu hon isod.

## Hunanasesiad yr NPM

Ym mis Chwefror 2012, cyhoeddodd Is-bwyllgor Atal Arteithio'r Cenhedloedd Unedig ddogfen yn dwyn y teitl 'Analytical self-assessment tool for National Preventive Mechanisms: A preliminary guide by the Subcommittee on Prevention of Torture regarding the functioning of an NPM'.[43] Mae'r ddogfen hon, ynghyd â chanllawiau presennol yr Is-bwyllgor, 'Guidelines on national preventive mechanisms', yn egluro disgwyliadau'r Is-bwyllgor ynglŷn â sefydlu a gweithredu mecanweithiau ataliol cenedlaethol.

Mae'r Is-bwyllgor Atal Arteithio'n pwysleisio bod yn rhaid i fecanweithiau ataliol cenedlaethol ddatblygu gyda threigl amser, gan gyfnerthu agweddau ffurfiol eu mandad ac ymarfer eu hawliau, yn ogystal â gwella a mireinio eu dulliau gweithio bob yn dipyn.

Yn 2013, cytunodd NPM y Deyrnas Unedig i ddefnyddio'r offeryn hunanasesu hwn i werthuso ei gydymffurfiad â gwahanol agweddau ar ei fandad ffurfiol, gan ddefnyddio'r garreg filltir bum mlynedd fel cyfle i edrych i ba raddau yr oedd yn cydymffurfio ag OPCAT a nodi meysydd i'w cryfhau yn y dyfodol.

Addaswyd offeryn naratif yr Is-bwyllgor Atal Arteithio yn holiadur (gweler Atodiad Wyth), gan drosi'r egwyddorion a'r safonau manwl yn 59 o gwestiynau gwahanol. Roedd y fformat holiadur yn galluogi holl aelodau NPM y Deyrnas Unedig i asesu eu hunain, gan ddefnyddio dosbarthiad 'coch, oren, gwyrdd', ac i'r canlyniadau gael eu dadansoddi ar draws yr NPM. Roedd arferion aelodau'r NPM yn amrywio o ran eu dull o ateb yr hunanasesiad, gyda rhai'n trafod eu hatebion ar lefel bwrdd, rhai ymhlith grwpiau bach o gydweithwyr, ac un aelod yn cyflwyno'r holiadur i adolygiad allanol gan gymheiriaid. Trafodwyd rhannau o'r offeryn a oedd yn ymwneud yn benodol â rôl gydgysylltu'r NPM ac â'r Wladwriaeth hefyd. Roedd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn awyddus i drafod yr holiadur, ac mae'n dal wedi ymrwymo i weithio mewn cysylltiad

43 http://www2.ohchr.org/english/bodies/cat/opcat/docs/AnalyticalTtoolsNPM_en.doc

agos ag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi er mwyn sicrhau bod NPM y Deyrnas Unedig yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn OPCAT. Roedd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn croesawu'r adolygiad hwn o gydymffurfiad cyffredinol ag OPCAT a bydd yn dal i edrych sut y gall gefnogi gweithrediad effeithiol yr NPM fel rhan o'i rhwymedigaethau ehangach dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Arteithio.

Arweiniodd y broses hunanasesu at broses systematig fewnol o bwyso a mesur, a chododd ymwybyddiaeth hefyd o ofynion penodol yn codi o OPCAT. Roedd yr aelodau'n ymwybodol y gallai cymharu canlyniadau'n gyffredinol orsymleiddio materion cymhleth, ac y gallent fethu â dal natur oddrychol y ffordd y mae cydymffurfio'n cael ei weld, ond yn gyffredinol gwelsant fod yr ymdrech gyntaf i gynnal ymarfer hunanasesu'n fuddiol. Cytunodd yr NPM i ailadrodd yr hunanasesiad yn flynyddol, a chyflwyno gwelliannau i'r fethodoleg er mwyn gwneud y broses yn gadarnach.

## Canfyddiadau cyffredinol

Ymatebodd pedwar ar bymtheg o'r 20 aelod i'r holiadur. At ei gilydd, dywedodd yr aelodau eu bod yn cydymffurfio ag OPCAT i raddau helaeth, gan ddweud eu bod yn cydymffurfio ag 81% o'r cwestiynau, yn cydymffurfio'n rhannol ag 13% a heb fod yn cydymffurfio ar hyn o bryd â 4.5%.

- Roedd y cyrff lleyg a gwirfoddol yn yr NPM yn fwy cadarnhaol o ran eu hunanasesiadau, gan nodi cydymffurfiad llawn ag 85% o'r holiadur o'i gymharu â 79% ymhlith y cyrff 'proffesiynol'.
- Aelodau Gogledd Iwerddon oedd y rhai mwyaf cadarnhaol, gan ddweud eu bod yn cydymffurfio'n llawn ag 89% o'r holiadur a heb fod yn cydymffurfio ar hyn o bryd â 2%.
- O'r holl wahanol fathau o leoedd cadw, aelodau'r NPM sy'n monitro dalfeydd yr heddlu a'r llysoedd oedd â'r sylwadau mwyaf cadarnhaol ynglŷn â'u cydymffurfiad ag OPCAT, a'r rhai â'r sylwadau lleiaf cadarnhaol oedd y rhai y mae eu rolau'n canolbwyntio ar gyfleusterau cadw iechyd meddwl a lleoliadau gofal a gofal cymdeithasol.


## Cydymffurfiad ag Erthygl 19 OPCAT – pwerau sylfaenol

Dadansoddwyd y canfyddiadau yn unol â'r tri phŵer NPM sylfaenol sy'n cael eu hamlinellu yn Erthygl 19 OPCAT, y pwerau i: archwilio triniaeth y rhai sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid; gwneud argymhellion gyda'r nod o wella'u triniaeth a'u hamodau; cyflwyno sylwadau ar y ddeddfwriaeth bresennol neu ddeddfwriaeth ddrafft.[44]

Fel y dengys y ffigur isod, adroddodd yr aelodau am lefelau cydymffurfiad uchel ar y cyfan. Roedd y cydymffurfiad uchaf â'r cwestiynau hunanasesu'n ymwneud ag ymarfer pwerau i wneud argymhellion. Roedd y cwestiynau hyn yn ymwneud yn benodol â'u harfer o wneud argymhellion dichonadwy yn canolbwyntio ar weithgaredd ataliol a chymryd rhan mewn deialog gydag awdurdodau perthnasol ar sail yr

44 NPMs shall be granted at a minimum the power: (a) To regularly examine the treatment of the persons deprived of their liberty in places of detention as defined in article 4, with a view to strengthening, if necessary, their protection against torture and other cruel, inhuman or degrading treatment or punishment; (b) To make recommendations to the relevant authorities with the aim of improving the treatment and the conditions of the persons deprived of their liberty and to prevent torture and other cruel, inhuman or degrading treatment or punishment, taking into consideration the relevant norms of the United Nations; (c) To submit proposals and observations concerning existing or draft legislation.

Cydymffurfiad ag Erthygl 19




argymhellion hyn a'u gweithrediad, yn ogystal â gweithdrefnau mewnol ar gyfer categoreiddio, ffeilio a phrosesu argymhellion ac ymatebion iddynt.

Nododd yr aelodau y lefelau cydymffurfiad isaf â materion yn ymwneud â'u swyddogaethau ymweld/monitro. Rhai o'r meysydd lle nododd yr aelodau y sgôp mwyaf o ran cryfhau eu gwaith oedd mewn cysylltiad â'u meini prawf ar gyfer dewis lleoedd i ymweld â hwy, eu codau ymddygiad mewnol eu hunain a'u canllawiau ar gyfer ymweld a materion yn ymwneud ag atal dial. Mae'r ffaith nad yw un aelod o'r NPM yn gwneud ymweliadau ar hyn o bryd (ond ei fod wedi'i ddynodi oherwydd bod ganddo'r pŵer i wneud hynny) hefyd wedi cyfrannu tuag at y canlyniad hwn sy'n isel ar y cyfan.

## Canfyddiadau eraill o'r hunanasesiad

Ymhlith y canfyddiadau eraill yn deillio o'r holiadur hunanasesu, nododd yr NPM ddau fater penodol yr oedd angen rhoi sylw pellach iddynt.

- Lefelau is o gydymffurfiad â'r gofyniad y dylai mecanweithiau ataliol cenedlaethol fod â nifer cyfartal o ddynion a merched a chynrychiolaeth ddigonol o grwpiau ethnig a lleiafrifol ymhlith eu hymwelwyr. Roedd pum deg y cant o'r aelodau'n credu eu bod yn cydymffurfio'n rhannol, nid oedd 11% yn cydymffurfio a dim ond 39% oedd yn cydymffurfio'n llawn.
- Lefelau is o gydymffurfiad â'r gofynion a amlinellwyd gan yr Is-bwyllgor Atal Arteithio sy'n ymwneud â chyfrifoldeb mecanweithiau ataliol cenedlaethol i atal achosion o ddial rhag codi o'u gwaith. Roedd 65% o'r aelodau yn cydymffurfio â gwahanol agweddau ar ganllawiau'r Is-bwyllgor ac 13% ddim yn cydymffurfio. Roedd y mater hwn wedi cael ei nodi'n barod yn NPM y Deyrnas Unedig ac roedd camau wedi cael eu cymryd gan rai aelodau.

Roedd y meysydd eraill a nodwyd fel rhai yr oedd angen gwneud rhagor o gynnydd mewn cysylltiad â hwy'n cynnwys y ffordd y mae aelodau'n adrodd am eu gwaith, ac yn rhannu ac yn cyhoeddi eu gwaith, a'u gwaith mewn cysylltiad ag achosion unigol. Nododd asesiad o swyddogaeth gydgysylltu'r NPM nifer o feysydd i'w gwella, gan gynnwys ei bartneriaethau cenedlaethol a rhyngwladol, mecanweithiau ar gyfer darparu gwybodaeth syml a hygyrch i'r cyhoedd, codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant.

### Casgliad

Cyflwynwyd canfyddiadau cyffredinol yr ymarfer hunanasesu gan dîm cydgysylltu'r NPM yn y digwyddiad i nodi pum mlynedd, a thrafodwyd y canfyddiadau manwl yn fewnol gan aelodau'r NPM mewn cyfarfod busnes. Sicrhaodd hyn fod canfyddiadau'r hunanasesiad yn bwydo i mewn i'r drafodaeth a'r broses o nodi meysydd ar gyfer datblygu'r NPM yn y dyfodol a chynllun busnes 2014–15. Er bod OPCAT yn nodi'r pwerau sylfaenol y mae'n rhaid i bob aelod o NPM y Deyrnas Unedig eu cael, a bod yr aelodau'n cael eu dynodi ar sail hyn, nid yw'n golygu bod yn rhaid i bob swyddogaeth gael ei chyflawni gan bob aelod drwy'r adeg, ond yn hytrach bod angen sicrhau cydymffurfiad llawn ag OPCAT drwy'r NPM yn ei gyfanrwydd.

Hyd y gŵyr NPM y Deyrnas Unedig, roedd ei ymgysylltiad ag offeryn hunanasesu'r Is-bwyllgor Atal Arteithio yn llawer mwy trylwyr nag unrhyw NPM arall yn unrhyw ran o'r byd. O ganlyniad, darparwyd adborth anffurfiol ar yr offeryn gwreiddiol i'r Is-bwyllgor Atal Arteithio, a dywedodd yr NPM fod ganddo ddiddordeb mewn cynorthwyo'r Is-bwyllgor i gryfhau'r ddogfen ar gyfer y dyfodol.

Cytunwyd y dylai'r hunanasesiad gael ei wneud yn flynyddol, ac y dylid cynnwys adolygiad gan gymheiriaid yn y dyfodol, fel ffordd o gofnodi cynnydd wrth gyflawni mandad OPCAT yr NPM.

## Digwyddiad NPM y Deyrnas Unedig a Chanolfan Gweithredu Hawliau Dynol Prifysgol Bryste 'The UK's NPM: Five Years On'

Ar 8 Ebrill 2014 cynhaliodd NPM y Deyrnas Unedig ddigwyddiad ym Mryste i nodi pum mlynedd ers iddo gael ei ddynodi. Trefnwyd a chynhaliwyd y digwyddiad mewn partneriaeth â'r Ganolfan Gweithredu Hawliau Dynol ym Mhrifysgol Bryste.[45]

Daeth tua 70 ynghyd i'r digwyddiad, gan gynnwys aelodau'r NPM, cynrychiolwyr sefydliadau sy'n cael eu harolygu, cyrff y llywodraeth a chyrff anllywodraethol o'r pedair awdurdodaeth, yn ogystal â chyrff hawliau dynol rhyngwladol a rhanddeiliaid.[46] Ei nod oedd rhoi cyfle i'r gwahanol randdeiliaid hyn asesu i ba raddau y mae NPM y Deyrnas Unedig yn cyflawni ei fandad atal arteithio dan OPCAT a nodi ffyrdd o gryfhau ei waith dros y pum mlynedd nesaf

Ailddatganodd y Gwir Anrhydeddus Simon Hughes AS, y Gweinidog Gwladol dros Gyfiawnder a Hawliau Sifil, ymrwymiad ei lywodraeth i weithredu OPCAT yn ei araith agoriadol, a rhoddodd gyfle i NPM y Deyrnas Unedig rannu ei barn ynglŷn â beth arall y gallai'r llywodraeth ei wneud er mwyn gwella cydymffurfiad ag OPCAT. Cadarnhaodd Malcolm Evans, Cadeirydd Is-bwyllgor Atal Arteithio y Cenhedloedd Unedig, yr angen i NPM y Deyrnas Unedig fabwysiadu dull ataliol o fonitro lleoedd cadw. Roedd Graham Morgan o Weithredu dros Iechyd Meddwl, un a dreuliodd gyfnod mewn lle cadw, yn awyddus i atgoffa'r rhai a oedd yn bresennol

45 Mae'r Ganolfan Gweithredu Hawliau Dynol yn darparu cefnogaeth a chymorth gwerthfawr i'r NPM ar sail ad hoc. Nodir y berthynas rhwng y ddau barti mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a gellir ei weld yn: http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/about-hmi-prisons/working-with-partners/#.VGn0TlPp_ld
46 Bydd adroddiad pellach am y digwyddiad hwn ar gael ar wefan NPM y Deyrnas Unedig a'r Ganolfan Gweithredu Hawliau Dynol y flwyddyn nesaf.

fod angen deall y profiad o fod mewn lle cadw o safbwynt yr unigolyn sy'n cael ei gadw yno. Galwodd Deborah Coles, un o gyd-gyfarwyddwyr yr elusen INQUEST, ar yr NPM i ystyried chwarae mwy o rôl wrth hyrwyddo dull cydgysylltiedig o ddysgu gwersi, ar draws y sectorau, yn dilyn marwolaethau yn y ddalfa, ac atgoffodd Silvia Casale, arbenigwr ar atal arteithio, y rhai a oedd yn bresennol ei bod yn bwysig bod mecanweithiau ataliol cenedlaethol ym mhob cwr o'r byd yn nodi gwendidau a phroblemau systemig ym mhob lleoliad cadw. Edrychodd y rhai a oedd yn bresennol hefyd ar y rôl hollbwysig a chwaraewyd gan y Deyrnas Unedig wrth ddrafftio OPCAT, a'r sylw sy'n cael ei roi ar hyn o bryd i gefnogi gwaith i atal arteithio dramor drwy ei pholisi tramor, fel cefndir pwysig i waith domestig yr NPM.

### Edrych yn ôl ar bum mlynedd cyntaf yr NPM

Mae'r rhan fwyaf o'r cyrff sydd bellach yn ffurfio NPM y Deyrnas Unedig wedi'u sefydlu cyn iddynt gael eu dynodi'n aelodau, ac mae hyn yn gwneud NPM y Deyrnas Unedig yn wahanol i'w gymheiriaid mewn gwledydd eraill. O ran sefyllfa'r Deyrnas Unedig mewn cysylltiad â mecanweithiau ataliol cenedlaethol eraill mewn rhannau eraill o'r byd, nodwyd bod NPM y Deyrnas Unedig yn dibynnu ar fanteision penodol:

- yr adnoddau y gall aelodau sefydledig eu cynnig i'w waith;
- arbenigedd presennol yr aelodau;
- ehangder cwmpas, daearyddol a thematig; a'r
- haenau o ymweliadau gwirfoddol a statudol y gellir eu gwneud o ganlyniad i'w aelodaeth amrywiol.

Nododd yr aelodau fod bod yn rhan o'r NPM wedi dylanwadu ar arferion gwaith a ffocws eu sefydliadau mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys y canlynol:

- sicrhau mwy o ganolbwyntio ar yr angen i sicrhau nad yw unigolion yn cael eu cam-drin mewn lleoedd cadw;
- cefnogi canolbwyntio mwy ar faterion yn ymwneud â lleoedd cadw mewn sefydliadau sydd â chylch gwaith ehangach, er enghraifft ymhlith cyrff sy'n ymwneud â dalfeydd yr heddlu fel rhan o'u pwerau i arolygu agweddau ehangach ar blismona;
- hyrwyddo cydweithio rhwng aelodau'r NPM, a fydd yn arwain at fwy o rannu'r arferion gorau;
- canolbwyntio ar faterion allweddol (er enghraifft cadw de facto, arwahanu ac ataliaeth) yn yr NPM, fel bod aelodau unigol yn gallu canolbwyntio mwy ar y materion hyn;
- sefydlu'r is-grŵp plant a phobl ifanc, er mwyn i aelodau sy'n monitro lleoedd lle mae plant yn cael eu cadw allu siarad â llais cryfach, unedig
- cryfhau agweddau penodol ar ddulliau gweithio'r aelodau, gan gynnwys y sail resymegol dros recriwtio 'arolygwyr arbenigol' i fonitro meysydd cadw penodol; sicrhau bod hyfforddiant staff yn seiliedig ar hawliau ac ar drugaredd; a rhoi sylw i wrthdaro posibl rhwng buddiannau sy'n deillio o ddefnyddio staff sy'n cael eu secondio o gyrff sy'n cael eu harolygu.

### Cryfhau gwaith yr NPM yn y dyfodol

Caniataodd y digwyddiad i'r rhai a oedd yn bresennol ganolbwyntio ar rai meysydd penodol sy'n berthnasol ar hyn o bryd i'r NPM mewn trafodaethau grŵp bach cyfochrog. Roedd y sesiynau'n gyfle i drafod profiadau a syniadau ynglŷn â rhai agweddau anodd ar waith presennol yr NPM, ac i nodi ffyrdd o oresgyn y rhain. Ceir crynodeb isod o'r pynciau a drafodwyd a'r prif bwyntiau ar gyfer gwaith yn y dyfodol.

1. Yr NPM yng nghyd-destun arallgyfeirio modelau darparu gwasanaeth: heriau i waith arolygu a monitro.

Cadeiriodd a chyflwynodd Juliet Lyon (Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai) a'r Athro Andrew Coyle (arbenigwr ar atal arteithio) drafodaeth ar ddatblygu modelau cadw newydd a darparu gwasanaethau mewn lleoedd cadw. Roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys pwerau'r NPM o gymharu â darparwyr preifat, y diffiniad o awdurdodaeth, a gallu'r NPM i archwilio i ba raddau roedd lleoedd cadw'n cydymffurfio â'r gofynion o fewn fframwaith OPCAT. Roedd yr argymhellion o'r sesiwn hwn yn cynnwys:

- Yr angen i'r NPM nodi lleoedd cadw yn barhaus er mwyn sicrhau bod pob un yn cael ei fonitro;
- Pwysigrwydd cynnwys canolfannau cadw tramor sydd dan reolaeth y Deyrnas Unedig fel rhan o gylch gwaith NPM y Deyrnas Unedig.

2. Gwneud argymhellion: un o swyddogaethau craidd yr NPM. Beth sy'n gwneud argymhelliad da, a beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol i'r NPM roi argymhellion ar waith?

Cadeiriwyd y sesiwn hwn gan Rachel Murray (Canolfan Gweithredu Hawliau Dynol), a chyflwynodd Danielle Pearson (tîm cydgysylltu'r NPM) a Mari Amos (Is-bwyllgor Atal Arteithio) eu barn ynglŷn â sut y gallai'r NPM gryfhau'r argymhellion y mae'n eu gwneud. Nodwyd y canlynol fel meysydd i'w gwella yn y dyfodol:

- Egluro wrth y rhai sy'n cael eu monitro gan yr NPM pam y gwnaethpwyd yr argymhellion penodol, pa ganlyniadau a ddisgwylir, at bwy y cyfeirir yr argymhellion, pwy sy'n atebol am yr ymateb, a phwysigrwydd deialog adeiladol;
- Mae llinellau amser ar gyfer gweithredu a gweithdrefnau dilynol clir yn ddymunol.

3. Yr NPM yn ei gyd-destun rhyngwladol: sut y mae NPM y Deyrnas Unedig yn gwneud y defnydd gorau o'i gysylltiadau rhyngwladol?

Cadeiriodd a chyflwynodd Mona Sadek (Canolfan Gweithredu Hawliau Dynol) a Bruce Adamson (Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban) drafodaeth ynglŷn â sut y gallai NPM y Deyrnas Unedig ddatblygu gwell perthynas â'r gymuned ryngwladol a chyfrannu tuag at waith ar leoedd cadw ac atal arteithio ar lefel ryngwladol. Trafodwyd cwmpas rhyngwladol gwaith monitro'r NPM hefyd. Roedd yr argymhellion o'r sesiwn hwn yn cynnwys:

- Yr angen i greu un wefan ar gyfer yr NPM er mwyn rhannu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan NPM y Deyrnas Unedig yn ei gyfanrwydd a'i aelodau unigol;
- Mabwysiadu safbwynt cryfach ar y gwarantau sy'n bodoli er mwyn amddiffyn rhag arteithio a cham-drin pan fo unigolion sydd mewn lleoedd cadw'n cael eu symud i wledydd tramor. Gellid edrych yn fanylach ar gysylltiadau â mecanweithiau ataliol cenedlaethol eraill a'u gallu i ddarparu sicrwydd rhag arteithio a cham-drin.

4. Atal arteithio a cham-drin: buddsoddi mewn arolygiadau sy'n seiliedig ar hawliau.

Cadeiriwyd y drafodaeth hon gan Stephen Bowen (Sefydliad Hawliau Dynol Prydain), a rhoddwyd cyflwyniad gan Theresa Nixon (RQIA). Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar ffyrdd o sicrhau bod safonau hawliau dynol yn sail i waith yr NPM, a beth y mae hyn yn ei olygu o ran methodoleg a dull gweithredu'r aelodau. Trafododd y rhai a oedd yn bresennol yr angen i ddatblygu syniad cliriach ynglŷn â ffurf 'arolygiad hawliau dynol', a nodwyd mai prif amcan arolygiad sy'n gydnaws ag OPCAT yw edrych 'i ba raddau y mae hawliau dynol yn cael eu parchu'. Roedd yr argymhellion yn cynnwys y canlynol:

- Dylai hawliau dynol gael eu nodi'n glir ym mandad pob aelod a dylent fod yn ganolog i bob man;
- Byddai darparu hyfforddiant hawliau dynol i arolygwyr, darparwyr gwasanaeth a'u staff yn chwarae rhan bwysig er mwyn atal arteithio a cham-drin;
- Dylai aelodau'r NPM fod yn agored â chyrff sy'n cael eu harolygu ynglŷn â'r safonau penodol a ddefnyddir i'w hasesu, a ddylai ddeillio o'r gyfraith.

5. 'Pwy sy'n gwarchod y gwarchodwyr?' Atebolrwydd yr NPM a'i aelodau – beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol?

Cadeiriwyd a chyflwynwyd y drafodaeth hon, a oedd yn canolbwyntio ar heriau atebolrwydd i'r NPM a'i aelodau, gan Hugh Chetwynd (Pwyllgor Atal Arteithio) a Barbara Bernath (y Gymdeithas er Atal Arteithio). Roedd pawb a oedd yn bresennol yn cytuno bod annibyniaeth ac atebolrwydd ffurfiol ac ymddangosiadol yr NPM yn hanfodol. Roedd yr argymhellion a oedd yn deillio o'r sesiwn hwn yn cynnwys:

- Dylai'r NPM fod yn atebol i'r Senedd yn hytrach na'r llywodraeth, a dylai'r Senedd drafod ei adroddiad blynyddol;
- Mae angen gwneud rhagor er mwyn sicrhau annibyniaeth aelodau'r NPM a'u staff.

6. *Cadw de facto: beth yw'r risgiau sy'n gysylltiedig ag unigolion nad ydynt yn cael eu cadw'n ffurfiol dan y gyfraith, ond a allai'n dal gael eu hamddifadu o'u rhyddid?*

Arweiniodd Jill Stavert (Prifysgol Napier) a Donald Lyons (MWCS) drafodaeth ynglŷn â'r gwaith sy'n cael ei wneud gan yr NPM ar gadw de facto. Yn dilyn datblygiadau cyfreithiol yn ddiweddar sy'n cymhwyso dull ehangach o ddiffinio achosion o amddifadu o ryddid, gall yr NPM ddod â gwerth ychwanegol i'r maes hwn drwy ganolbwyntio rhagor ar y materion. Roedd yr argymhellion yn cynnwys:

- Sicrhau bod y ffocws mewn lleoliadau iechyd meddwl yn newid o ofyn cwestiynau ynglŷn â chyfreithlondeb cadw unigolion, i gwestiynau yn ymwneud â chymesuredd a rheidrwydd, a moeseg.
- Dylai aelodau'r NPM ddal i drafod sut y byddant yn sicrhau bod y rhai sy'n derbyn triniaeth gartref/yn y gymuned yn cael eu monitro.

Ar ddiwedd y diwrnod, crynhodd Nick Hardwick (Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi) a Rachel Murray (Canolfan Gweithredu Hawliau Dynol) y themâu a'r heriau a oedd wedi dod i'r amlwg, ac yr oedd yn rhaid i'r NPM roi sylw iddynt er mwyn sicrhau ei fod yn gallu gwneud cynnydd wrth gyflawni ei fandad OPCAT. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cydlyniaeth – yr her o sicrhau cydlyniaeth rhwng 20 o wahanol gyrff monitro lleoedd cadw. Dylai'r aelodau ymdrechu i sicrhau mwy o gydlyniaeth a chysondeb yng ngwaith yr NPM.
- Mandad yr NPM – yr angen i adolygu cydymffurfiad â'r meysydd craidd ym mandad yr NPM yn barhaus, gan gynnwys rhoi sylw i'r holl leoedd cadw, ac annibyniaeth wirioneddol ac ymddangosiadol ym mhob agwedd ar waith yr NPM.
- Cyfrifoldebau'r aelodau – mae gweithredu OPCAT yn gyfrifoldeb unigol i aelodau dynodedig yr NPM, ac yn gyfrifoldeb cyfunol, ac mae hyn yn dipyn o her i aelodau y mae eu cylch gwaith yn ymwneud â meysydd eraill yn ogystal â lleoedd cadw.
- Cydgysylltiad – mae swyddogaeth gydgysylltu NPM y Deyrnas Unedig yn fach ac yn gyfyngedig o ran adnoddau i gorff mor gymhleth.
- Codi ymwybyddiaeth – mae angen i'r NPM wneud mwy i godi ymwybyddiaeth o'i waith dan OPCAT, cynyddu dealltwriaeth ohono a sicrhau mwy o gefnogaeth iddo, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- Monitro ataliol – cynyddu dealltwriaeth o fonitro ataliol a beth y mae'n ofynnol i aelodau'r NPM ei wneud, a chael pobl i ddeall bod bod yn rhan o'r NPM yn fwy na dim ond 'anrhydedd".


## Edrych ymlaen at y chweched flwyddyn

Fel y dengys yr adroddiad hwn, defnyddiwyd pumed blwyddyn yr NPM i edrych yn ôl, gwerthuso a thrafod y gwaith y mae wedi'i wneud hyd yn hyn, yn fewnol a chyda rhanddeiliaid allanol. O ganlyniad, mae'r NPM wedi cytuno y bydd yn ei chweched flwyddyn yn:

- Cynnwys mwy o eglurder mewn prosesau cynllunio ac adrodd, ar gyfer camau gweithredu unigol yr aelodau wrth gyflawni eu rôl gyda'r NPM, a blaenoriaethau cydgysylltiedig ar y cyd..
- Canolbwyntio gwaith NPM cydgysylltiedig ar un mater blaenoriaeth thematig, gyda'r bwriad o ddatblygu dull cyson o fonitro/arolygu'r mater penodol yn yr NPM. Bydd hefyd yn caniatáu i'r NPM godi ymwybyddiaeth o ymarfer sy'n gysylltiedig â'r mater a goblygiadau sy'n berthnasol i hawliau dynol, a chyflwyno argymhellion i gryfhau polisi ac ymarfer. Yn 2014–15, bydd yr NPM yn canolbwyntio ar fater carcharu pobl ar eu pen eu hunain, gwahanu ac arwahanu.
- Trafod gwaith dilynol ar gadw de facto (gweler y Pedwerydd Adroddiad Blynyddol) ymhlith aelodau perthnasol yr NPM.
- Gwerthuso cydymffurfiad â'r offeryn hunanasesu, a chyflwyno adolygiad aelod-aelod neu adolygiad gan gymheiriaid allanol i'r broses.
- Cyflwyno cynlluniau i gryfhau trefniadau llywodraethu a phwerau'r NPM i lywodraeth y Deyrnas Unedig.
- Dal i gadw mewn cysylltiad â'r Is-bwyllgor Atal Arteithio, gofyn am hyfforddiant a chymorth technegol os oes angen, ac ymateb i'r llythyr a anfonwyd ganddo yn Nhachwedd 2013.

- Ceisio datblygu gwefan annibynnol i'r NPM ac, yn dilyn hynny, strategaeth cyfryngau cymdeithasol er mwyn cysylltu â chymuned ehangach yr NPM.
- Cynhyrchu adnoddau hyfforddi a rhagor o daflenni ffeithiau sy'n cefnogi holl aelodau'r NPM yn eu gwaith mewnol ac allanol
- Gwneud cynnydd wrth fabwysiadu polisïau sancsiynau ar draws yr NPM.
- Bydd aelodau yn yr Alban yn cyfarfod i drafod eu gwaith yn dilyn canlyniad y refferendwm ar annibyniaeth.

# Adran pedwar
# Atodiadau



# Atodiad Un

## Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig – 31 Mawrth 2009[47]
## Protocol Dewisol y Confensiwn yn erbyn Arteithio (OPCAT)

**Y Gweinidog Gwladol yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder (Mr Michael Wills):**
Mae Protocol Dewisol y Confensiwn yn erbyn Arteithio (OPCAT), a gadarnhawyd gan y Deyrnas Unedig yn Rhagfyr 2003, yn ei gwneud yn ofynnol i barti-wladwriaethau sefydlu 'mecanwaith ataliol cenedlaethol' i weithredu system o ymweliadau rheolaidd â lleoedd cadw er mwyn atal arteithio a thriniaeth neu gosb arall sy'n greulon, yn annynol neu'n ddiraddiol.

Mae OPCAT yn darparu y caiff mecanwaith ataliol cenedlaethol fod yn un corff neu'n nifer o gyrff. Bwriad y llywodraeth yw y bydd gofynion OPCAT yn cael eu cyflawni yn y Deyrnas Unedig drwy gydweithrediad y cyrff arolygu presennol..

Rwyf yn dynodi'r cyrff canlynol i ffurfio NPM y Deyrnas Unedig. Os bydd angen ychwanegu cyrff arolygu newydd i'r NPM yn y dyfodol, neu os bydd cyrff o fewn yr NPM yn cael eu hailstrwythuro neu eu hailenwi, byddaf yn hysbysu'r Senedd am hynny.

**Cymru a Lloegr**
- Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
- Byrddau Monitro Annibynnol)
- Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVA)
- Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC)
- Y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
- Comisiynydd Plant Lloegr (CCE)
- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)
- wyddfa Safonau mewn Addysg (Ofsted)

**Yr Alban**
- Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn yr Alban (HMIPS)
- Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn yr Alban (HMICS)
- Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC)
- Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban (MWCS)
- Y Comisiwn Gofal (CC)

**Gogledd Iwerddon**
- Byrddau Monitro Annibynnol
- Crolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon (CJINI)
- Awdurdod Gwella Rheoleiddio ac Ansawdd (RQIA)
- Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon (NIPBICVS)

47 HC Col 56WS, 31 Mawrth 2009.

# Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig – 3 Rhagfyr 2013[48] Protocol Dewisol y Confensiwn yn erbyn Arteithio (OPCAT)

**Y Gweinidog dros Blismona, Cyfiawnder Troseddol a Dioddefwyr (Damian Green):** Mae fy nghyfaill gwir anrhydeddus a bonheddig y Gweinidog Gwladol yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder (Yr Arglwydd McNally) wedi gwneud y Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig a ganlyn.

Mae Protocol Dewisol y Confensiwn yn erbyn Arteithio (OPCAT), a gadarnhawyd gan y Deyrnas Unedig yn Rhagfyr 2003, yn ei gwneud yn ofynnol i Barti-wladwriaethau sefydlu 'Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol' (NPM) i ymweld â lleoedd cadw er mwyn atal arteithio a thriniaeth neu gosb arall sy'n greulon, yn annynol neu'n ddiraddiol. Sefydlwyd NPM y Deyrnas Unedig gan y Llywodraeth ym mis Mawrth 2009 (Hansard 31 Mawrth 2009, Cyfrol 490, Rhan 57, Colofn 56WS).

Rwy'n hysbysu'r Tŷ bod y tri sefydliad isod wedi cael eu dynodi'n ffurfiol fel aelodau ychwanegol i NPM y Deyrnas Unedig:

- Arsylwyr Lleyg, yng Nghymru a Lloegr;
- Social Care and Social Work Improvement Scotland, a adwaenir yn well fel yr Arolygiaeth Gofal yn yr Alban (yn lle Comisiwn yr Alban ar gyfer Rheoleiddio Gofal, nad yw'n bodoli mwyach;
- Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yr Alban, yn yr Alban.'

48 HC Col 41WS, 03 Rhagfyr 2013.

# Atodiad Dau

## Disgrifiad byr o'r Aelodau

Yn adroddiad blynyddol cyntaf NPM y Deyrnas Unedig, roedd disgrifiad o bob un o aelodau'r NPM, a oedd yn rhoi gwybodaeth fanwl am eu mandad, eu strwythur a'u methodoleg. Yn hytrach nag ailadrodd y wybodaeth honno mewn adroddiadau blynyddol, rydym wedi cynnwys disgrifiad byr o bob un o'r aelodau isod, i'ch atgoffa. Rydym hefyd wedi cynnwys manylion unrhyw newidiadau pwysig a gafwyd yn ystod 2013–14. Ceir gwybodaeth fanwl am bob aelod yn ein hadroddiad blynyddol cyntaf, yn y gronfa ddata ar-lein o aelodau NPM y Deyrnas Unedig, ac yn adroddiadau blynyddol yr aelodau unigol neu ar eu gwefannau.[49]

**Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru**
Mae AGGCC yn rheoleiddio ac yn arolygu'r holl wasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys llety diogel, lle y mae plant yn cael eu lleoli un ai oherwydd eu hymddygiad troseddol neu am eu bod yn risg sylweddol iddyn nhw eu hunain neu i bobl eraill. Bydd AGGCC hefyd yn monitro'r trefniadau diogelu rhag colli rhyddid yn ystod ei harolygiadau rheolaidd o gartrefi gofal oedolion ac mae'n cyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru ar weithrediad y trefniadau.
www.cssiw.org.uk

**Yr Arolygiaeth Gofal**
Sefydlwyd yr Arolygiaeth Gofal o dan Ddeddf Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus (Yr Alban) 2010. Mae'n gorff annibynnol ar gyfer gwella a chraffu ar waith cymdeithasol a gwasanaethau gofal a chymorth cymdeithasol i bobl o bob oed. Sefydlwyd yr Arolygiaeth yn Ebrill 2011 drwy gyfuno tri chorff craffu blaenorol: Comisiwn yr Alban ar gyfer Rheoleiddio Gofal (y Comisiwn Gofal) ar gyfer gwasanaethau gofal; yr Asiantaeth Arolygu Gwaith Cymdeithasol (SWIA) a oedd yn cynnal arolygiadau strategol o wasanaethau gwaith cymdeithasol yn y gymuned, ac un o gyfarwyddiaethau Arolygiaeth Addysg Ei Mawrhydi (HMIE) a oedd yn cynnal arolygiadau ar y cyd o wasanaethau i amddiffyn plant. Un rhan o gylch gwaith newydd yr Arolygiaeth Gofal yw rheoleiddio cartrefi diogel ar gyfer plant a phobl ifanc yn ogystal â gwasanaethau preswyl eraill.
http://www.scswis.com/

49 Mae'r gronfa ddata ar-lein o aelodau NPM y Deyrnas Unedig, a gasglwyd gan y Ganolfan Gweithredu Hawliau Dynol ym Mhrifysgol Bryste ar y cyd â'r aelodau eu hunain, ar gael yn http://www.bristol.ac.uk/law/research/centres-themes/hric/hricnpmukdatabase/index.html. Nodir gwefan pob aelod o'r NPM yn Atodiad III.

**Y Comisiwn Ansawdd Gofal**
Mae'r CQC yn sefydliad statudol annibynnol sy'n gyfrifol am fonitro, arolygu a rheoleiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion yn Lloegr, i sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau sylfaenol o ran ansawdd a diogelwch. Bydd y CQC hefyd yn monitro gweithrediad Deddf Iechyd Meddwl 1983, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u cadw o dan gyfraith iechyd meddwl. Bydd y CQC yn arolygu gofal iechyd mewn carchardai a lleoedd cadw mewnfudwyr ar y cyd ag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ac yn cymryd rhan mewn arolygiadau o ddalfeydd yr heddlu ochr yn ochr ag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi.
http://www.cqc.org.uk/

**Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon**
Mae CJINI yn gorff statudol sy'n gyfrifol am arolygu pob agwedd ar y system cyfiawnder troseddol. Mae mandad eang gan CJINI a chaiff arolygu lleoedd cadw o lawer math, gan gynnwys carchardai, canolfan cyfiawnder ieuenctid, dalfeydd yr heddlu a dalfeydd y llysoedd.
http://www.cjini.org/

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
Mae AGIC yn rheoleiddio ac yn arolygu pob math o ofal iechyd yng Nghymru. Un agwedd ar y rôl hon yw monitro cydymffurfiaeth â deddfwriaeth iechyd meddwl a sicrhau bod sefydliadau gofal iechyd yn cadw at y trefniadau diogelu rhag colli rhyddid o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Wrth wneud hyn, bydd AGIC yn cydweithio'n agos ag AGGCC, sy'n monitro'r defnydd o drefniadau diogelu rhag colli rhyddid mewn lleoliadau gofal cymdeithasol. Mae AGIC hefyd yn cymryd rhan mewn arolygiadau carchardai yng Nghymru o dan arweiniad Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, gan asesu'r gofal iechyd ar gyfer carcharorion a sicrhau ei fod yn cyfateb i'r hyn sydd yn y gymuned.
http://www.hiw.org.uk/

**Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi**
Mae HMIC o dan ddyletswydd statudol i arolygu ac adrodd ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd plismona. Ar ôl cadarnhau OPCAT, mae rôl HMIC yn cynnwys cyflawni arolygiadau o ddalfeydd yr heddlu yng Nghymru a Lloegr mewn partneriaeth ag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi. Erbyn mis Mawrth 2014, roedd y rhaglen dreigl gyntaf o arolygiadau wedi cael ei chwblhau, a phob heddlu yng Nghymru a Lloegr wedi cael ei arolygu o leiaf unwaith. Dechreuodd rhaglen arolygu newydd ym mis Ebrill 2014.
http://www.hmic.gov.uk/

**Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn yr Alban**
Rôl Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn yr Alban yw monitro cyflwr, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Gwasanaethau'r Heddlu yn yr Alban ac Awdurdod Heddlu'r Alban. Nodir y rôl hon yn Neddf Diwygio'r Heddlu a'r Gwasanaeth Tân (Yr Alban) 2012. Fel rhan o'i rôl ehangach o adolygu a gwella plismona ledled yr Alban, mae HMICS yn arolygu cyfleusterau dalfeydd yr heddlu, gan fonitro'r ffordd y mae pobl mewn lleoedd cadw'n cael eu trin, a'r amodau ar eu cyfer.
http://hmics.org/

**Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi**
Mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn sefydliad statudol annibynnol sy'n cynnal arolygiadau rheolaidd o leoedd cadw er mwyn asesu'r ffordd o drin y rhai sydd wedi'u cadw a'r amodau ar eu cyfer. Bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn arolygu'r holl garchardai yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys sefydliadau troseddwyr ifanc, yr holl ganolfannau cadw mewnfudwyr,

dalfeydd tymor byr a threfniadau hebrwng ar gyfer rhai sydd wedi'u cadw gan wasanaethau mewnfudo, a holl ddalfeydd yr heddlu ar y cyd â HMIC, cyfleusterau cadw llysoedd, canolfannau hyfforddi diogel mewn partneriaeth ag Ofsted, a chyfleusterau cadw'r tollau gyda HMIC. Drwy wahoddiad, mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi hefyd yn cymryd rhan mewn arolygiadau o garchardai yng Ngogledd Iwerddon (mewn partneriaeth â CJINI) ac yn arolygu rhai cyfleusterau cadw milwrol.
http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/

### Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn yr Alban

Mae HMIPS yn arolygu carchardai, gan gynnwys sefydliadau troseddwyr ifanc, gan roi sylw'n benodol i'r ffordd y mae carcharorion yn cael eu trin a'r amodau ar eu cyfer. Bydd hefyd yn arolygu trefniadau ar gyfer hebrwng carcharorion – gan gynnwys amodau'r cludiant ar gyfer carcharorion – yn ogystal â dalfeydd y llysoedd a mannau eraill lle y mae carcharorion yn cael eu dal dros dro y tu allan i'r carchar.
http://www.scotland.gov.uk/about/public-bodies/hmip

### Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd

Mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn wirfoddolwyr o'r gymuned sy'n ymweld â'r holl orsafoedd heddlu lle y mae pobl yn cael eu dal i holi am eu lles. Mae'r ymweliadau â dalfeydd yn rhai statudol ac mae pŵer gan ymwelwyr i fynd i mewn i orsafoedd heddlu, archwilio cofnodion sy'n ymwneud â lleoedd cadw, cwrdd â rhai sy'n cael eu cadw i drafod eu triniaeth a'u hamodau, ac archwilio cyfleusterau, gan gynnwys celloedd, toiledau a chyfleusterau ymolchi, a chyfleusterau ar gyfer darparu bwyd. Un o brif rolau ICVA yw edrych ar sylfaen sgiliau ymwelwyr annibynnol â dalfeydd i sicrhau eu bod yn hyderus ac yn gallu ymweld â'r rhan fwyaf o'r bobl mewn dalfeydd gan wneud hynny mewn ffordd mor effeithiol â phosibl.

Yn dilyn adolygiad cynharach o ICVA a gomisiynwyd gan y Swyddfa Gartref, newidiodd ICVA o fod yn sefydliad anghorfforedig i fod yn gwmni cyfyngedig drwy warant ar 31 Gorffennaf 2013.
http://icva.org.uk/

### Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (Yr Alban)

Mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn yr Alban yn cynnal ymweliadau dirybudd rheolaidd â gorsafoedd heddlu er mwyn monitro triniaeth ac amodau'r rhai sydd mewn lleoedd cadw. Cafodd Ymwelwyr â Dalfeydd yn yr Alban eu dynodi'n swyddogol yn aelod o NPM y Deyrnas Unedig ym mis Rhagfyr 2013. O ganlyniad i basio Deddf Diwygio'r Heddlu a'r Gwasanaeth Tân (Yr Alban) 2012, mae ymweliadau â dalfeydd yn yr Alban yn gynllun statudol bellach.

Mae'r cynllun statudol yn cael ei weinyddu nawr gan Awdurdod Heddlu'r Alban. Er 1 Ebrill 2013 mae wedi bod yn canolbwyntio'n bennaf ar ddod â'r wyth cynllun lleol blaenorol at ei gilydd a safoni ymweliadau, mecanweithiau adrodd a chofnodi. Yn ychwanegol at hyn, er mwyn cyflawni mandad OPCAT, sefydlwyd trefniadau er mwyn sicrhau bod pob canolfan gadw, nad oedd yn arfer derbyn ymweliadau, yn cael ei chynnwys yn y cynllun.
http://www.spa.police.uk/icv/

**Byrddau Monitro Annibynnol**
Mae Byrddau Monitro Annibynnol o dan ddyletswydd statudol i'w sicrhau eu hunain bod cyflwr y carchardai a chyfleusterau cadw mewnfudwyr y maent yn ymweld â nhw yn foddhaol, yn ogystal â'r dull o'u gweinyddu a thriniaeth carcharorion a rhai sydd mewn lleoedd cadw. Mae'r Byrddau'n cynnwys aelodau o'r gymuned sy'n cyflawni eu dyletswyddau'n ddi-dâl drwy ymweld â sefydliadau'n aml ac yn rheolaidd. Mae Bwrdd ar gyfer pob carchar yng Nghymru a Lloegr ac ar gyfer pob canolfan cadw mewnfudwyr yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, a hefyd ar gyfer rhai dalfeydd tymor byr i gadw mewnfudwyr. Maent hefyd yn monitro rhai teithiau awyrennau siarter. Penodir aelodau'r Byrddau gan yr Ysgrifennydd Gwladol.
http://www.justice.gov.uk/about/imb

**Byrddau Monitro Annibynnol (Gogledd Iwerddon)**
Mae'r Byrddau Monitro Annibynnol yng Ngogledd Iwerddon yn gyrff statudol sy'n monitro'r ffordd y mae carcharorion yn cael eu trin ac amodau eu carcharu. Mae'r byrddau'n cynnwys aelodau o'r gymuned sy'n cyflawni eu dyletswyddau'n ddi-dâl drwy ymweld â sefydliadau'n rheolaidd. Mae tri bwrdd yng Ngogledd Iwerddon, un ar gyfer pob carchar. Penodir aelodau'r byrddau gan Weinidog Cyfiawnder Gogledd Iwerddon.
http://www.imb-ni.org.uk/

**Arsylwyr Lleyg**
Gwirfoddolwyr annibynnol sy'n gwneud yn siŵr bod carcharorion sy'n cael eu hebrwng gan gwmnïau preifat yng Nghymru a Lloegr yn cael eu trin yn iawn yw Arsylwyr Lleyg. Mae Arsylwyr Lleyg yn arolygu lleoedd cadw mewn llysoedd a'r cerbydau celloedd a ddefnyddir gan gontractwyr i gludo'r rhai sy'n cael eu cadw i'r llys ac oddi yno. Maent hefyd yn ymweld â gorsafoedd yr heddlu i weld sut y mae carcharorion yn cael eu trosglwyddo o ofal yr heddlu i'r contractwyr ac yn ymweld â charchardai i weld sut y mae carcharorion yn cael eu trosglwyddo o ofal y carchar i'r contractwyr ac fel arall. Mae Arsylwyr Lleyg yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod safonau triniaeth briodol yn cael eu cadw.
http://www.layobservers.org.uk/

**Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban**
Mae MWCS yn sefydliad statudol annibynnol sy'n ymdrechu i ddiogelu hawliau a lles pawb sydd â salwch meddwl, anabledd dysgu neu gyflwr cysylltiedig. Mae mandad eang gan MWCS ac un o'i weithgareddau yw monitro gofal a thriniaeth y bobl sy'n cael eu cadw o dan gyfraith iechyd meddwl, ymweld â hwy, ac ymchwilio i achosion o gadw'n amhriodol neu ddiffygion yn ymwneud â gofal a thriniaeth.
http://www.mwcscot.org.uk/

**Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon**
Yn yr un modd â gweddill y Deyrnas Unedig, ceir ymweliadau dirybudd rheolaidd â dalfeydd yr heddlu yng Ngogledd Iwerddon gan ymwelwyr â dalfeydd. Mae ymwelwyr â dalfeydd yn wirfoddolwyr o'r gymuned leol sy'n monitro hawliau, iechyd a lles ac amodau cadw'r rheini sydd yn nalfeydd yr heddlu, ac yn cyflwyno adroddiad ar eu canfyddiadau i Bwyllgor Perfformiad Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon.
www.nipolicingboard.org.uk/index/publications/custody-visitors.htm

**Swyddfa Safonau mewn Addysg Children's Services and Skills**
Mae Ofsted yn gorff arolygu a rheoleiddio sy'n ceisio hyrwyddo rhagoriaeth mewn gofal plant a phobl ifanc, ac mewn addysg a sgiliau i ddysgwyr o bob oed. Yng nghyd-destun lleoedd cadw, bydd Ofsted yn arolygu'r ddarpariaeth o ofal ac addysg ar gyfer plant

mewn llety diogel, ac yn asesu'r ddarpariaeth o addysg a hyfforddiant mewn carchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc a chanolfannau cadw mewnfudwyr drwy gymryd rhan mewn arolygiadau o dan arweiniad Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi.
http://www.ofsted.gov.uk/

**Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr**
Prif swyddogaeth Comisiynydd Plant Lloegr yw hyrwyddo a diogelu hawliau plant yn Lloegr, gan gynnwys hyrwyddo ymwybyddiaeth o'u barn a'u buddiannau, gan roi sylw arbennig i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Gall y Comisiynydd hefyd roi cyngor a chymorth i blant sy'n byw oddi cartref neu sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol, a'u cynrychioli. Yn ychwanegol at hyn, mae gan Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr bŵer i fynd i mewn i unrhyw leoliad lle mae plentyn (mae 'plant' yn cynnwys oedolion ifanc penodol sy'n rhan o gylch gwaith Swyddfa'r Comisiynydd Plant) yn cael llety neu'n derbyn gofal, ac eithrio annedd breifat, er mwyn edrych ar y safonau gofal, cyfweld unrhyw un sy'n gweithio ar y safle ac (os yw'r plentyn yn cydsynio) cyfweld y plentyn yn breifat. Mae Swyddfa Comisiynydd Plant Lloegr wedi defnyddio'r pŵer hwn i ymweld ag ystâd ddiogel cyfiawnder ieuenctid, lleoliadau mewnfudwyr a chyfleusterau iechyd meddwl diogelwch canolig.
http://www.childrenscommissioner.gov.uk/

**Awdurdod Gwella Rheoleiddio ac Ansawdd**
Mae gan yr RQIA bwerau i fonitro argaeledd a hygyrchedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon a hyrwyddo gwelliannau yn ansawdd y gwasanaethau hyn. Un agwedd allweddol ar ei rôl yw arolygu'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn lleoedd cadw, gan gynnwys carchardai, llety diogel i blant a lleoedd ar gyfer cadw pobl o dan gyfraith iechyd meddwl. Ym mis Hydref 2011, cyhoeddwyd adroddiad terfynol adolygiad o Wasanaeth Carchardai Gogledd Iwerddon.[50] Roedd yr adroddiad yn gwneud 40 argymhelliad, ac roedd 10 ohonynt yn ymwneud yn benodol â'r ddarpariaeth gofal iechyd mewn carchardai. Gofynnwyd i'r RQIA ddarparu asesiad annibynnol i'r Pwyllgor Goruchwylio ar weithrediad y 10 argymhelliad a oedd yn ymwneud â gofal iechyd. Ym mis Mawrth 2014 adroddodd yr RQIA yn ôl i'r Pwyllgor Goruchwylio ar nifer o'r argymhellion gofal iechyd perthnasol, a chawsant eu cymeradwyo'n derfynol gan y Pwyllgor.
http://www.rqia.org.uk/home/index.cfm

**Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban**
Mae SHRC yn gorff statudol annibynnol sydd â phŵer i fynd i mewn i leoedd cadw ac adrodd ar hawliau pobl sy'n cael eu cadw. Dyletswydd gyffredinol y Comisiwn yw hyrwyddo ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a pharch at hawliau dynol ac, yn fwyaf arbennig, annog yr arferion gorau mewn cysylltiad â hwy.
http://scottishhumanrights.com/

50 Review of the Northern Ireland Prison Service: Conditions, Management and oversight of all prisons: Prison Review Team Final Report, Hydref 2011

# Atodiad Tri

## Cylch gorchwyl Grŵp Llywio'r NPM

**Cefndir**
Mewn cyfarfod o aelodau'r NPM yng Nghaeredin ar 9 Mai 2011, cyflwynwyd cynnig ynghylch strwythur gweithredu'r NPM. Awgrymwyd y dylai'r aelodau ystyried sefydlu pwyllgor gwaith neu grŵp llywio ar gyfer yr NPM i hwyluso penderfyniadau a chyflawni gwaith ar y cyd. Mynegwyd cryn ddiddordeb yn y cynnig bryd hynny a chytunwyd y byddai Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi'n paratoi cynnig manylach i'w ystyried gan aelodau. Gofynnir am eich sylwadau ar y cynnig a amlinellir isod.

**Cynnig**
Sefydlu Grŵp Llywio ar gyfer NPM y Deyrnas Unedig.

**Pwrpas**
Ar hyn o bryd, mae'r NPM yn cynnwys 20 o gyrff ac mae Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi'n cydgysylltu ei waith. Hyd yn hyn, rydym wedi gweithredu ar sail consensws ond mae'n anochel, gan fod yr aelodaeth mor fawr ac amrywiol, ei bod weithiau'n anodd ac yn cymryd cryn amser i sicrhau cytundeb rhwng yr aelodau a symud ymlaen yn gyflym ar faterion, os gellir gwneud hynny o gwbl. Mae'r heriau hyn wedi cynyddu ers i'r llywodraeth ehangu aelodaeth yr NPM o 18 i 20. O safbwynt y Cydgysylltydd, mae angen mecanwaith i symud ymlaen ar weithgareddau ar y cyd yn y cyfnodau rhwng cyfarfodydd o'r NPM cyfan neu i wneud penderfyniadau'n gyflym, heb orfod ymgynghori â phob un o'r 20 aelod. Os ydym am wneud mwy o waith ar y cyd o dan faner yr NPM – ac mae nifer o aelodau wedi mynegi awydd i wneud hynny – yna bydd mecanwaith fel grŵp llywio yn gallu hwyluso hyn. Yn ogystal â hynny, mae lefel yr ymgysylltu â'r NPM yn amrywio rhwng aelodau: y gobaith yw y bydd y Grŵp Llywio yn fodd i hyrwyddo ymgysylltiad yr holl aelodau.

Y rôl sydd wedi'i hawgrymu ar gyfer y Grŵp Llywio yw:

- hwyluso penderfyniadau sy'n ymwneud â'r NPM
- pennu cyfeiriad strategol ar gyfer gweithgarwch cydgysylltiedig/ar y cyd gan yr NPM
- helpu i gynllunio gweithgareddau ar y cyd ar gyfer y dyfodol, e.e. gweithdai thematig, adroddiadau blynyddol
- cynghori a helpu Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a Chydgysylltydd yr NPM i gyflawni eu rolau
- monitro ac asesu gwerth gweithgareddau ar y cyd
- hyrwyddo ymgysylltu gan yr holl aelodau mewn gweithgarwch ar y cyd gan yr NPM
- gweithredu ar ran yr NPM
- cynrychioli holl aelodau'r NPM hyd eithaf ei allu, gan ystyried gwahanol rolau'r aelodau a chyd-destunau eu gwaith.

Wrth sefydlu Grŵp Llywio, ni fydd bwriad i leihau'r mewnbwn gan 20 aelod unigol yr NPM. Bydd Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, y Cydgysylltydd a/neu'r Grŵp Llywio yn parhau i ofyn am fewnbwn gan yr holl aelodau ynghylch materion sy'n neilltuol o bwysig neu rai a allai fod yn ddadleuol.

Bydd y Grŵp Llywio yn ceisio cynrychioli buddiannau'r NPM cyfan ond ni fydd ei benderfyniadau'n rhwymo aelodau unigol.

Bydd cyfle i ddatblygu rôl a strwythur y Grŵp Llywio yn y dyfodol yn ôl ein profiad.

### Aelodaeth

Er mwyn bod yn effeithiol, dylai'r Grŵp Llywio fod yn fach ond dylem sicrhau hefyd fod y Grŵp yn cynrychioli'r NPM cyfan i'r graddau mwyaf posibl. Wrth ddewis aelodau'r Grŵp Llywio, dylid ystyried y gwahanol fathau o leoedd cadw yr ymwelir â nhw a'r gwahanol awdurdodaethau lle y mae'r aelodau'n gweithredu yn ogystal â natur y cyrff eu hunain (h.y. cyrff lleyg a phroffesiynol). Ni fydd yn bosibl i aelodau'r Grŵp Llywio gynrychioli'r holl leoedd cadw yr ymwelir â nhw, ond ceisir amrywiaeth. Gan mai Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi sy'n cydgysylltu'r NPM, bydd yn rhaid i Brif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi fod yn aelod sefydlog o'r Grŵp Llywio. Dylid ystyried hefyd ai Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ynteu aelod arall a ddylai gadeirio'r Grŵp.

Cynigir y bydd cais yn cael ei wneud am wirfoddolwyr i wasanaethu ar y Grŵp Llywio ac y bydd pedwar person yn cael eu dewis gan Gydgysylltydd yr NPM gan sicrhau rhaniad teg rhwng y mathau o leoedd cadw yr ymwelir â nhw a chyrff lleyg/proffesiynol. Bydd un aelod yr un dros Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Dim ond dau dymor o ddwy flynedd a ganiateir i aelodau'r grŵp llywio a dylai'r tymhorau hynny fod am yn ail.

Os bydd cynrychiolydd corff lleyg yn aelod o'r Grŵp Llywio, gall Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ysgwyddo treuliau rhesymol sy'n gysylltiedig â'r aelodaeth honno (costau teithio'n unig yn ôl pob tebyg). Bydd disgwyl i holl aelodau eraill y Grŵp Llywio ysgwyddo eu costau eu hunain.

### Dulliau gweithio

Rhagwelir y bydd aelodau'r Grŵp Llywio mewn cysylltiad yn rheolaidd â Chydgysylltydd yr NPM ac y bydd cymaint o waith â phosibl yn cael ei wneud drwy ebost a thros y ffôn. Cynhelir cyfarfodydd o'r Grŵp Llywio ddwywaith y flwyddyn. Bydd gwaith y Grŵp yn dryloyw a rhaid iddo adrodd yn ôl i holl aelodau'r NPM ar ei drafodaethau a'i benderfyniadau. Cyflawnir swyddogaeth ysgrifenyddol y Grŵp Llywio gan Gydgysylltydd yr NPM.

# Atodiad Pedwar

# Cylch gorchwyl yr Is-grŵp Plant a Phobl Ifanc

## Cyflwyniad

Ers ei sefydlu yn 2009, mae'r cyrff sy'n rhan o NPM y Deyrnas Unedig wedi monitro llywodraeth y Deyrnas Unedig i weld a yw'n cwrdd â'i rhwymedigaethau o dan Gytuniad y Cenhedloedd Unedig ynghylch trin pobl sy'n cael eu cadw mewn unrhyw fath o ddalfa.

Mae plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried yn rhan o waith yr NPM ochr yn ochr â thriniaeth oedolion ac mae cyfarfodydd busnes rheolaidd yr NPM wedi cynnwys trafodaethau sy'n canolbwyntio ar blant. Er hynny, prin yw'r cyfle mewn cyfarfodydd busnes i gael trafodaethau arbenigol rheolaidd.

O ganlyniad, cytunodd aelodau'r NPM yn 2013 i sefydlu is-grŵp arbenigol i ganolbwyntio ar blant a phobl ifanc. Byddai'r grŵp hwn yn cynnig cyfle i'r rheini sydd ag arbenigedd a phrofiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc gynorthwyo'r NPM cyfan drwy gynnig cyngor, gwybodaeth ar argymhellion arbenigol.

## Cefndir

Mae plant a phobl ifanc o dan 18 oed yn lleiafrif bach o'r bobl sydd mewn lleoedd cadw yn y Deyrnas Unedig. Maent yn agored i niwed oherwydd eu hoed a'u galluedd, a hefyd am eu bod yn cael eu cadw. Bydd llawer ohonynt hefyd wedi wynebu profiadau anodd yn eu bywyd cyn cael eu cadw.

Mae hawliau a mesurau diogelu ychwanegol ar gyfer plant mewn lleoedd cadw, ac mae'r rhain wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac mewn offerynnau rhyngwladol eraill, yn ogystal â chyfraith ddomestig.

Mae plant yn cael eu cadw mewn lleoliadau amrywiol yn y gwahanol awdurdodaethau sydd yn y Deyrnas Unedig. Gall hyn olygu ei bod yn anodd i aelodau'r NPM nodi heriau cyffredin, rhannu arferion da a gwneud argymhellion.

Drwy ganolbwyntio ar anghenion penodol plant a phobl ifanc mewn lleoedd cadw, bydd yr is-grŵp hwn yn helpu'r NPM i gyflawni ei rôl ataliol[51] drwy rannu arferion da ar ymweliadau ac arolygiadau, drwy ddadansoddi sefyllfaoedd lle y mae plant mewn perygl o gael eu cam-drin mewn ffordd gyfannol sy'n cynnwys y system gyfan, a thrwy wneud argymhellion er mwyn gwella polisi ac ymarfer ar gyfer plant sy'n cael eu cadw.

## Cadeirio, adrodd ac aelodaethp

Bydd is-grŵp yr NPM yn cael ei gadeirio gan Ddirprwy Gomisiynydd Plant Lloegr ac yn cael cymorth gan yr OCC.

**51** Gweler y canllawiau yn Optional Protocol to the UN Convention against Torture: Implementation Manual, Chapter V - Operational Functioning of NPMs.

Bydd yn adrodd i grŵp llywio'r NPM ac yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn. Bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cyd-drefnu â chyfarfodydd y grŵp llywio.

Bydd yr is-grŵp yn agored i aelodau'r NPM sy'n ymddiddori yn hawliau plant a phobl ifanc mewn lleoedd cadw, mewn amrywiaeth o leoliadau.

**Amcanion**
Amcan yr is-grŵp fydd hyrwyddo effeithiolrwydd cyffredinol gwaith yr NPM ar hawliau plant a phobl ifanc mewn lleoedd cadw.

Bydd y grŵp yn gwneud hyn yn y ffyrdd canlynol:
- rhannu arferion, profiad a gwybodaeth rhwng aelodau'r NPM ar faterion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yn y ddalfa
- adnabod materion a phryderon allweddol sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc a rhoi gwybod amdanynt yng nghyfarfod busnes yr NPM drwy'r Grŵp Llywio
- gwneud argymhellion ar ran yr NPM i lywodraeth a rhanddeiliaid ynghylch ffyrdd o ddiogelu hawliau plant a phobl ifanc sy'n cael eu cadw
- cyfrannu at adroddiad blynyddol yr NPM a darparu trosolwg a sylwadau ar adrannau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc.

**Tymhorau a gweithdrefnau adolygu**
Bydd yr is-grŵp yn cynnig rhestr flynyddol o bynciau i'w trafod ganddo. Anfonir y rhestr hon i grŵp llywio'r NPM i'w chymeradwyo.

Bydd y grŵp llywio yn adolygu effeithiolrwydd gwaith yr is-grŵp ar ddiwedd y flwyddyn, ar sail adroddiad a hunanasesiad.

Atodiad Pump

# Panel Cynghori Annibynnol ar Farwolaethau yn y Ddalfa: Egwyddorion cyffredin ataliaeth ddiogelach[52]

**Cyffredinol**

a. Ataliaeth gorfforol yw'r defnydd cyfreithlon o rym gan ddefnyddio technegau cyffwrdd a dal corfforol wedi'u cymeradwyo sy'n galluogi un person i gyfyngu symudiad person arall.

b. Un o brif gyfrifoldebau staff sy'n gweithio mewn sefydliadau cadw neu sy'n ymdrin ag aelodau o'r cyhoedd yw diogelu'r holl rai y maent yn dod i gysylltiad â hwy yn broffesiynol yn rhinwedd eu swydd.

c. Rhaid i staff geisio sefydlu a meithrin diwylliant di-drais lle bynnag y bo modd.

d. Ni chaniateir defnyddio ataliaeth o unrhyw fath ac eithrio mewn sefyllfaoedd lle na ellir gwneud unrhyw beth arall a rhaid ei chyfyngu i'r sefyllfaoedd hynny lle mae lleihau tensiwn a thechnegau dargyfeirio eraill nad ydynt yn rhai corfforol wedi methu â datrys y sefyllfa.

e. Rhaid i bob achos o ataliaeth fod yn angenrheidiol, yn un y gellir ei gyfiawnhau ac yn un sy'n gymesur â'r bygythiad ymddangosiadol.

f. Pa bryd bynnag y defnyddir ataliaeth gorfforol gall gael effaith seicolegol ac emosiynol sylweddol ar bawb sy'n gysylltiedig â hi, ar bawb sy'n dyst i'r digwyddiadau a hefyd ar y sefydliad ehangach.

g. Yn achlysurol gall ataliaeth gorfforol arwain at farwolaeth yr unigolyn sy'n cael ei atal.

**Hyfforddiant**

h. Yr unig dechnegau y caniateir eu defnyddio ar gyfer ataliaeth gorfforol yw'r rhai sydd wedi cael eu cymeradwyo a'u dysgu.

i. Ni chaniateir i unrhyw aelod o'r staff ddefnyddio technegau ataliaeth oni bai ei fod wedi cael ei hyfforddi a'i awdurdodi i wneud hynny.

j. Rhaid i staff ddeall y technegau anghorfforol a chorfforol y byddant yn eu defnyddio.

k. Rhaid iddynt fod wedi cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r technegau hynny'n ddiogel.

l. Rhaid cynnal eu sgiliau lleihau tensiwn a'u sgiliau ym mhob un o'r technegau a gymeradwywyd drwy hyfforddiant rheolaidd.

**Rheoli**

m. Os bydd tri[53] aelod o'r staff neu fwy yn ymwneud yn weithredol ag atal unigolyn yna rhaid i un o'r aelodau hynny o'r staff fod yn rheoli'r ataliaeth (Rheolwr) a rhaid iddi fod yn amlwg drwy'r adeg, i bawb sy'n ymwneud â'r ataliaeth, pwy yw'r Rheolwr.

---

**52** http://iapdeathsincustody.independent.gov.uk/work-of-the-iap/working-groups/use-of-restraint/
**53** Mae cymhlethdodau ataliaeth yn anghyffredin iawn os oes dim ond un neu ddau swyddog yn ymwneud â'r broses; ymddengys bod cymhlethdodau'n fwy cyffredin os oes mwy o swyddogion yn ymwneud yn weithredol.

n. Ar ddechrau digwyddiad lle defnyddir ataliaeth bydd yr aelod o'r staff sy'n gyfrifol am amddiffyn pen a gwddf y sawl sy'n cael ei gadw, ac am sicrhau ei fod yn dal i allu anadlu, yn ymgymryd â'r rôl Rheolwr beth bynnag ei statws.

o. Bydd y Rheolwr yn cadarnhau ei rôl wrth gydweithwyr cyn gynted ag y bo modd ar ôl dechrau defnyddio ataliaeth gan ddefnyddio ymadrodd dynodedig. (e.e. 'Fi sydd â rheolaeth dros y digwyddiad hwn nawr').

p. Os oes aelod o'r staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol ond nad yw'n rhan o'r broses atal ei hun yn bresennol dylai ef neu hi ddod yn Rheolwr yr ataliaeth cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

q. Ni fydd rheolaeth dros yr ataliaeth yn cael ei throsglwyddo i Reolwr arall oni bai fod y rheolaeth yn cael ei chynnig a'i derbyn yn gadarnhaol gan ddefnyddio ymadroddion dynodedig (e.e. 'Fi sydd â rheolaeth dros y digwyddiad hwn nawr' / 'Ti/chi sydd â rheolaeth').

r. Yn ystod cyfnod atal rhaid i'r technegau sy'n cael eu defnyddio gael eu hadolygu'n aml gyda'r nod o roi'r gorau i ataliaeth gorfforol o bob math yn ddiogel yn y cyfnod byrraf sy'n ymarferol.

s. Rhaid i'r Rheolwr gael yr awdurdod i orchymyn addasu neu ryddhau unrhyw ddaliad/daliadau gafael.

### Meddygol

t. Mewn ambell amgylchedd efallai y gwyddys beth yw'r risgiau penodol i iechyd yr unigolyn sy'n cael ei gadw, ond mewn amgylchiadau eraill mae'n bosibl na wyddys beth ydynt. Rhaid i bob techneg atal a gymeradwywyd ystyried y posibilrwydd y gallai afiechyd(on) sylfaenol wneud unigolyn yn fwy tebygol o ddioddef effeithiau anffafriol ac o bosibl o farw.

u. Rhaid i aelod o'r tîm sydd wedi cael ei enwebu gan y Rheolwr i asesu arwyddion hollbwysig yr unigolyn sy'n cael ei atal (Pibell Wynt, Anadlu, Cylchrediad) wneud hynny cyn gynted ag y bo modd ar ôl dechrau'r ataliaeth.

v. Rhaid ailadrodd yr asesiadau hyn o arwyddion hollbwysig yn aml drwy gydol y cyfnod atal a hysbysu'r Rheolwr ynglŷn â'r canlyniadau. Rhaid gofyn am gyngor meddygol os mynegir unrhyw bryder.

w. Os yw'r ataliaeth yn ymyriad wedi'i gynllunio mewn sefydliad sydd â staff gofal iechyd wedi'u hyfforddi rhaid iddynt fod yn bresennol drwy gydol y cyfnod atal.

### Llywodraethu

x. Dylai pob digwyddiad ataliaeth gael ei recordio ar fideo os yw hynny'n bosibl.

y. Rhaid i gofnod manwl a chywir o bob digwyddiad ataliaeth gael ei gadw a'i ddadansoddi yn lleol ac yn ganolog. Dylid defnyddio'r data hyn i adolygu technegau ac arferion ac i ddarparu gwybodaeth ar gyfer gwerthuso, hyfforddi a datblygu staff.

z. Rhaid sefydlu a dilyn gweithdrefnau ôl-drafod ar gyfer pawb sy'n ymwneud â'r digwyddiad (gan gynnwys yr unigolyn sy'n cael ei gadw os yw hynny'n bosibl). Os oes tri neu ragor o swyddogion yn ymwneud ag unrhyw ddigwyddiad ataliaeth unigol rhaid cael gweithdrefn ôl-drafod ffurfiol dan ofal aelod hyfforddedig o'r staff.

# Atodiad Chwech

## Ymateb yr NPM i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Arteithiore

Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi
NICK HARDWICK CBE

Dyddiad: 5 Mawrth 2014

Claudio Grossman
Cadeirydd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Arteithio
Swyddfa Uwch Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig
Palais des Nations
1211 Geneva 10
Y Swistir

Annwyl Mr Grossman

Ymateb Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y Deyrnas Unedig i Arsylwadau Terfynol y Pwyllgor yn erbyn Arteithio ar bumed adroddiad cyfnodol y Deyrnas Unedig

Mae Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol (NPM) y Deyrnas Unedig wedi trafod yr arsylwadau terfynol a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor yn erbyn Arteithio ynglŷn â phryderon yn ymwneud â'r arfer o secondio swyddogion y Wladwriaeth sy'n gweithio mewn lleoedd lle mae pobl yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid i gyrff yr NPM a'r argymhelliad y dylid dod â'r arferiad hwn i ben (paragraff 14).

Mae Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y Deyrnas Unedig yn cytuno â'r Pwyllgor yn erbyn Arteithio ynglŷn â'r angen i sicrhau ei annibyniaeth, ac mae'n croesawu'r sylw a roddwyd i hyn yn ystod yr adolygiad o weithredu'r Confensiwn yn erbyn Arteithio yn y Deyrnas Unedig. Mae aelodau o NPM y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo i weithio er mwyn cryfhau gwir annibyniaeth ac annibyniaeth ymddangosiadol y mecanwaith yn unol â safonau a osodwyd gan Brotocol Dewisol y Confensiwn yn erbyn Arteithio.

Yn wahanol i'r rhan fwyaf o'r mecanweithiau ataliol cenedlaethol, mae NPM y Deyrnas Unedig yn fecanwaith aml-gorff, sy'n cynnwys 20 o gyrff a oedd yn bodoli'n barod â mandadau a phwerau sy'n gydnaws â swyddogaethau NPM fel y maent wedi'u sefydlu gan OPCAT. Roedd y penderfyniad i ddynodi'r cyrff hyn fel NPM y Deyrnas Unedig yn cydnabod arfer presennol y Deyrnas Unedig o fonitro lleoedd cadw'n annibynnol.

Er bod cwmpas gwaith rhai aelodau o NPM y Deyrnas Unedig yn perthyn yn gyfan gwbl, neu bron yn gyfan gwbl i gwmpas gwaith OPCAT (megis Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, y Byrddau Monitro Annibynnol, Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon), mae aelodau eraill o'r NPM (er enghraifft y Comisiwn Ansawdd Gofal, Ofsted, yr Awdurdod Gwella Rheoleiddio ac Ansawdd a Chomisiwn Hawliau Dynol yr Alban) yn gweithredu mewn lleoliadau amrywiol neu â phwerau sy'n llawer ehangach o ran cwmpas na'r rhai o dan OPCAT.

Oherwydd hyn, bydd aelodau NPM y Deyrnas Unedig yn ceisio sicrhau gwahaniaeth cliriach rhwng yr adnoddau dynol y maent yn eu cymhwyso ar gyfer gweithgareddau'r NPM a'r rhai y maent yn eu cymhwyso ar gyfer eu swyddogaethau ehangach. Mae aelodau NPM y Deyrnas Unedig wedi cytuno i geisio lleihau eu dibyniaeth ar staff ar secondiad sy'n cael eu dyrannu i weithgareddau'r NPM. Mae'r aelodau wedi cael eu hannog i wneud rhagor o ymrwymiadau penodol yn y cyswllt hyn os ydynt yn teimlo bod hyn yn briodol.

Yn ychwanegol at hyn, bydd NPM y Deyrnas Unedig yn datblygu cyfres o egwyddorion er mwyn lleihau'r posibilrwydd o wrthdaro rhwng buddiannau staff ar secondiad mewn gwahanol rannau o'r NPM. Cymhwysir y gyfres hon o egwyddorion tra bydd aelodau'n cymryd camau i leihau eu dibyniaeth ar staff ar secondiad, ac yn yr achosion lle mae aelodau'r NPM yn methu'n glir â dod o hyd i staff â'r gallu a'r wybodaeth broffesiynol sydd ei hangen (Erthygl18.2 OPCAT) er mwyn cyflawni eu mandad arolygu o'r tu allan i'r sefydliadau a allai fod yn cael eu harolygu. Mae hyn yn berthnasol iawn i arolygiadau lleoliadau iechyd, sydd angen arbenigedd clinigol cyfredol sydd ddim ond i'w gael fel arfer drwy weithio fel darparwyr gwasanaeth iechyd eu hunain. Yn yr achosion penodol hyn, bydd aelodau'r NPM yn adrodd am yr ymdrechion y maent wedi'u gwneud i ddod o hyd i staff heb eu secondio, ac i sicrhau cydymffurfiad â'r gyfres o egwyddorion.

Mae NPM y Deyrnas Unedig yn falch bod y Pwyllgor yn erbyn Arteithio yn cydnabod bod angen sicrhau bod gan yr NPM ddigon o adnoddau, ac mae'n credu y dylai'r argymhelliad hwn fod yn berthnasol i'r adnoddau sydd ar gael i aelodau unigol yr NPM yn ogystal â'r NPM yn ei gyfanrwydd.

Yn gywir,

Nick Hardwick
Prif Arolygydd Carchardai Ei Mawrhydi,
ar ran Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y Deyrnas Unedig

# Atodiad Saith

## Datganiad gan Fecanweithiau Ataliol Cenedlaethol Ewrop ar yr angen am reolau gan Gyngor Ewrop ar leoedd cadw mewnfudwyr

**Cynhadledd ar Ganolfannau Cadw Mewnfudwyr yn Ewrop, 21–22 Tachwedd 2013, Strasbourg**

Adeiladu ar Benderfyniad 1707 (2010) y Cynulliad Seneddol ar gadw ceiswyr lloches a mewnfudwyr afreolaidd, a gwaith ac argymhellion Pwyllgor Atal Arteithio Cyngor Ewrop ar gadw mewnfudwyr.

Ystyried y gwahaniaeth sylfaenol rhwng cadw troseddol a gweinyddol.

1. Daeth Mecanweithiau Ataliol Cenedlaethol[54] Ewrop ynghyd yn Strasbourg i gefnogi gwaith i ddatblygu proses er mwyn codeiddo set o *Reolau Cadw Mewnfudwyr* sy'n berthnasol i Aelod-wladwriaethau Cyngor Ewrop, ac sy'n seiliedig ar gynsail Rheolau Carchardai Ewrop. Mae'r mecanweithiau ataliol cenedlaethol yn barod i gymryd rhan yn y broses o ddatblygu'r codeiddio hwn.

2. Mae cefnogaeth mecanweithiau ataliol cenedlaethol presennol Ewrop yn adlewyrchu absenoldeb rheolau cyfunol ym maes cadw mewnfudwyr. Cytunir bod angen datblygu rheolau o'r fath a bod hynny'n ddichonadwy.

3. Bydd rheolau o'r fath yn helpu mecanweithiau ataliol cenedlaethol i gyflawni eu mandadau fel cyrff monitro lleoedd cadw, er mwyn atal arteithio a cham-drin.

4. Bydd rheolau o'r fath hefyd yn darparu canllawiau clir i awdurdodau cadw a phobl sy'n gweithio gyda mewnfudwyr sy'n cael eu cadw.

5. Dylai'r *Rheolau Cadw Mewnfudwyr*:
   - godeiddio'r safonau hawliau dynol rhyngwladol a rhanbarthol presennol sy'n berthnasol i bob math o amddifadu o ryddid ar sail statws mewnfudo;
   - cael yr un statws â Rheolau Carchardai Ewrop;
   - ymdrin â meysydd amrywiol, gan gynnwys y canlynol: amodau cadw a thrin unigolion sy'n cael eu cadw; gofal iechyd; gwybodaeth am hawliau; mynediad at gynrychiolaeth a gweithdrefnau cyfreithiol; ymarfer yr hawl i loches; cyfathrebu â'r byd mawr; mesurau priodol ar gyfer diogelwch a threfn; mecanweithiau cwynion effeithiol; mynediad at ddehonglwyr; ystyriaeth briodol i amrywiaeth sefyllfaoedd a gwreiddiau unigolion, gan roi sylw arbennig i ferched, ac i grwpiau agored i niwed yn fwyaf arbennig; gweithgareddau â phwrpas iddynt ar gyfer y rhai sy'n cael eu cadw; gweithdrefnau a pharatoi ar gyfer rhyddhau a symud.

6. Credwn mai Cyngor Ewrop yw'r sefydliad sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni'r gwaith hwn, a ddylai roi sylw i ddeddfwriaeth bresennol yr Undeb Ewropeaidd yn y maes hwn.

54 Mae Mecanweithiau Ataliol Cenedlaethol yn gyrff annibynnol sydd wedi cael eu sefydlu gan Wladwriaethau yn unol â Phrotocol Dewisol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Arteithio, fel ffordd o atal arteithio a cham-drin ym mhob lle cadw.

# Atodiad Wyth

## Holiadur Hunanasesu NPM y Deyrnas Unedig

| OFFERYN HUNANASESU'R IS-BWYLLGOR ATAL ARTEITHIO | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ar gyfer aelodau'r NPM** | | | | |
| EIN CYF | CYF. YR IS-BWYLLGOR | DATGANIAD HUNANASESIAD YR NPM | STATWS COCH/ OREN/ GWYRDD | SYLWADAU YCHWANEGOL |
| **CYFLWYNIAD** | | | | |
| 1.1 | I.1 | Mae'r aelod o'r NPM yn ymweld â lleoedd cadw'n rheolaidd er mwyn atal arteithio a cham-drin, ac er mwyn cryfhau amddiffyniad pobl sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid | | |
| 1.2 | I.1 | Mae'r aelod o'r NPM yn gwneud argymhellion i'r awdurdodau perthnasol gyda'r bwriad o wella triniaeth ac amodau pobl sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid ac atal arteithio a cham-drin | | |
| 1.3 | I.1 | Mae'r aelod o'r NPM yn gwneud cynigion ac arsylwadau yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth bresennol a deddfwriaeth ddrafft | | |
| 1.4 | I.2 | Mae annibyniaeth weithredol yr aelod o'r NPM yn cael ei gwarantu | | |
| 1.5 | I.2 | Mae gan yr aelod o'r NPM yr adnoddau angenrheidiol i gyflawni ei swyddogaethau yn unol â gofynion OPCAT | | |
| 1.6 | I.2 | Mae awdurdodau perthnasol yn archwilio argymhellion aelodau'r NPM ac yn trafod eu gweithrediad | | |
| 1.7 | (G) II.B.30 | Mae'r aelod o'r NPM yn cyflawni pob agwedd ar ei waith mewn modd sy'n osgoi gwrthdaro gwirioneddol neu ymddangosiadol rhwng buddiannau | | |
| 1.8 | (G) II.B.30 | - mae hyn yn cynnwys sicrhau nad yw aelodau'r NPM yn dal nac yn cael swyddi sy'n codi cwestiynau yn ymwneud â gwrthdaro rhwng buddiannau | | |
| **STRATEGAETH DDATBLYGU'R NPM** | | | | |
| 1.9 | II.4 | Mae'r aelod o'r NPM yn trefnu ei adnoddau dynol ac ariannol er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar ei rôl NPM yn cael ei chyflawni | | |
| 1.10 | II.5 | Mae'r aelod o'r NPM yn monitro ac yn dadansoddi ei weithgareddau a'i ganlyniadau fel ffordd o ddysgu gwersi a datblygu arferion | | |
| 1.11 | II.7 | Mae'r staff yn cael hyfforddiant priodol er mwyn cyflawni eu rôl yn yr NPM yn effeithiol | | |

| | | |
|---|---|---|
| **TREFNIADAETH FEWNOL** | | |
| 1.12 | III.8 | Mae gan yr aelod o'r NPM bolisïau a gweithdrefnau mewnol priodol er mwyn cyflawni ei fandad (gallai'r rhain roi sylw i'r canlynol: cyflogi a diswyddo staff; gwneud penderfyniadau; trefniadaeth y swyddfa; ei waith a'i gyllidebau; ymweliadau â lleoedd cadw a drafftio adroddiadau) |
| **GWEITHREDU GWEITHGAREDDAU** | | |
| | | At ddibenion cynllunio ei weithgareddau, mae gan yr aelod o'r NPM: |
| 1.13 | IV.A.9 | - restr ar gyfer yr holl leoedd cadw sydd o fewn ei gylch gwaith |
| 1.14 | IV.A.9 | - archif o'r holl wybodaeth berthnasol sydd ar gael am leoedd cadw sydd o fewn ei gylch gwaith a'r modd y mae pobl sy'n cael eu cadw yno'n cael eu trin |
| 1.15 | IV.A.10 | - meini prawf ar gyfer dewis lleoedd i ymweld â nhw sy'n sicrhau bod pob lle cadw'n cael ymweliad rheolaidd, gan ystyried y math o sefydliad, maint y sefydliad a lefel y broblem hawliau dynol y gwyddys amdani |
| 1.16 | IV.A.11 | - tîm ymweld sydd â'i gyfansoddiad yn darparu'r wybodaeth, y profiad a'r sgiliau angenrheidiol |
| 1.17 | IV.A.11 | - tîm ymweld sydd â chydbwysedd rhwng dynion a merched ac sy'n cynnwys cynrychiolaeth briodol o grwpiau ethnig a lleiafrifoedd ethnig |
| 1.18 | IV.A.11 | - tîm ymweld sydd â'r adnoddau dynol angenrheidiol a'r amser sydd ei angen i gyflawni ei dasgau |
| 1.19 | IV.A.12 | - strategaeth ar gyfer rhoi blaenoriaeth i ddeddfwriaeth y mae angen gwneud sylwadau arni |
| | | Mae methodoleg ymweld yr aelod o'r NPM: |
| 1.20 | IV.B.13 | - yn cynnwys canllawiau ar gyfer ymweliadau â lleoedd cadw, sy'n cynnwys: cynnal cyfweliadau preifat, ymdrin â grwpiau agored i niwed, sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chasglu o bob ffynhonnell sydd ar gael |
| 1.21 | IV.B.14 | - yn sicrhau bod yr holl gyfleusterau mewn sefydliad yn cael ymweliad |
| 1.22 | IV.B.14 | - yn asesu cofrestrau, cofnodion achosion, gweithgareddau a gwasanaethau |
| 1.23 | IV.B.15 | - yn sicrhau bod arsylwadau'n cael eu croeswirio a'u hasesu |
| 1.24 | IV.B.15 | - yn sicrhau bod data sy'n adlewyrchu problemau difrifol a chyffredinol yn cael eu cyfundrefnu |
| 1.25 | IV.B.16 | - yn cynnwys cyfarfod ôl-drafod uniongyrchol a gynhelir gydag awdurdodau ar ddiwedd yr ymweliad |

| | | |
|---|---|---|
| 1.26 | IV.B.18 | - yn cynnwys canllawiau clir ar gyfer adrodd am achosion unigol o gam-drin yn fwriadol (gan gynnwys gofyn am ymchwiliadau, cadw gwybodaeth bersonol y dioddefwr yn gyfrinachol, ac amddiffyn unigolion o'r fath rhag dial) |
| 1.27 | IV.B.17 | Mae'r aelod o'r NPM yn ystyried datblygu cod ymddygiad ar gyfer ei dimau ymweld (yn cynnwys cyfarch unigolion sy'n cael eu cadw a staff, sut a phryd i gynnal cyfweliadau unigol neu grŵp, ymdrin â materion diogelwch, sicrhau cyfrinachedd, rheoli cyfarfodydd ôl-drafod mewnol) |
| | | |
| | | Mae adroddiad ymweliad yr aelod o'r NPM: |
| 1.28 | IV.C.19 | - yn canolbwyntio ar y materion pwysicaf |
| 1.29 | IV.C.19 | - yn nodi, yn ffeilio ac yn dadansoddi ymarfer da |
| 1.30 | IV.C.19 | - yn dadansoddi achosion o gam-drin yn fwriadol er mwyn nodi bylchau yn y broses o amddiffyn unigolion sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid |
| 1.31 | IV.C.20 | - yn cynnwys argymhellion sydd â sail dda iddynt, sy'n canolbwyntio ar atal ac sy'n ddichonadwy o safbwynt ymarferol |
| 1.32 | IV.C.21 | Mae gan yr aelod o'r NPM strategaeth ar gyfer cyflwyno, cyhoeddi a dosbarthu adroddiadau ymweliadau |
| | | |
| | | Er mwyn dilyn hynt argymhellion ar gyfer newidiadau, mae'r aelod o'r NPM: |
| 1.33 | IV.D.22 | - yn cynnal deialog gydag awdurdodau'r llywodraeth a sefydliadau a arolygwyd ynglŷn â gweithredu'r argymhellion, gan gynnwys cyfnewid gwybodaeth yn ysgrifenedig ac yn llafar |
| 1.34 | IV.D.22 | - yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol, sy'n cynnwys canlyniad deialog gyda'r awdurdodau |
| 1.35 | IV.D.24 | - yn cadarnhau bod argymhellion yn cael eu gweithredu'n rheolaidd drwy ymweliadau dilynol â sefydliadau nad ydynt yn cyflawni |
| | | |
| | | Er mwyn atal dial, mae'r aelod o'r NPM: |
| 1.36 | IV.E.25 | - wedi datblygu strategaeth er mwyn atal dial neu fygythiadau yn erbyn pobl sy'n cael eu cyfweld yn ystod ymweliadau a phobl sy'n darparu gwybodaeth yn ystod ymweliadau |
| 1.37 | IV.E.25 | - wedi mabwysiadu polisi sy'n amlinellu pa fath o wybodaeth y gellir ei chasglu mewn cyfweliadau grŵp a pha fath o wybodaeth y dylid ei chasglu mewn cyfweliadau preifat yn unig |
| 1.38 | IV.E.25 | - yn dilyn hynt achosion y mae pryder penodol yn eu cylch ac yn eu monitro |

| | | |
|---|---|---|
| 1.39 | IV.E.25 | - yn ceisio ac yn hwyluso ymyriadau gan eraill fel rhan o'r strategaeth |
| 1.40 | IV.E.25 | - yn gweithredu ar sail gwybodaeth sy'n peri pryder ynglŷn â dial posibl a dderbynnir gan eraill |
| 1.41 | IV.E.25 | - â chydsyniad y rhai sy'n cael eu cadw, yn dwyn achosion unigolion penodol y mae perygl i rywun geisio dial arnynt i sylw'r awdurdodau perthnasol |
| 1.42 | IV.E.25 | - yn ceisio sicrhau bod ymchwiliad disgyblu neu ymchwiliad troseddol yn cael ei sefydlu mewn achosion o ddial honedig |

| | | |
|---|---|---|
| **MATERION TRAWSBYNCIOL** | | |
| | | Mae'r aelod o'r NPM wedi sefydlu: |
| 1.43 | V.A.30 | - llinellau cyfathrebu gyda gweinyddiaethau perthnasol a'r rhai sy'n gyfrifol am weinyddu a rheoli'r lleoedd cadw sydd o fewn ei gylch gwaith |
| 1.44 | V.A.31 | - mecanwaith ar gyfer cyfathrebu a chydweithredu gydag awdurdodau perthnasol ynglŷn â gweithredu argymhellion |
| 1.45 | V.A.31 | - mae'r mecanwaith hwn yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer gweithredu ar frys |
| 1.46 | V.A.31 | - dull o roi sylw i unrhyw anawsterau gweithredol y deuir ar eu traws wrth gynnal yr ymweliadau a'u datrys |
| 1.47 | V.A.31 | - polisi ar gyfer cyhoeddi adroddiadau a chanfyddiadau |
| 1.48 | V.A.31 | - polisi yn ymwneud â chynhyrchu a chyhoeddi adroddiadau thematig |
| 1.49 | V.A.32 | - strategaeth ar gyfer cydweithio â gweithredwyr cenedlaethol eraill er mwyn atal arteithio |
| 1.50 | V.A.32 | - mae'r strategaeth hon yn cynnwys cydweithio wrth ddilyn hynt achosion lle mae lle i amau bod arteithio neu gam-drin yn digwydd neu achosion o arteithio neu gam-drin sydd wedi cael eu cofnodi |
| 1.51 | V.A.33 | Mae gan yr aelod o'r NPM strategaeth ar gyfer hysbysu pobl ynglŷn â'i waith a'i fandad |
| 1.52 | V.A.33 | Mae'r aelod o'r NPM wedi sefydlu gweithdrefn syml a hygyrch er mwyn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae gan yr aelod o'r NPM systemau priodol: |
| 1.53 | V.B.34 | - er mwyn categoreiddio, ffeilio a phrosesu gwybodaeth a gasglwyd o'i ymweliadau â lleoedd cadw |
| 1.54 | V.B.34 | - er mwyn categoreiddio, ffeilio a phrosesu ei argymhellion ac ymatebion iddynt |
| 1.55 | V.B.34 | - sy'n defnyddio gwybodaeth a gasglwyd yn ystod ymweliadau i gefnogi'r broses barhaus o gynllunio gwaith a datblygu strategaeth |

| | | |
|---|---|---|
| 1.56 | (G) III.B.37 | Mae'r aelod o'r NPM yn sicrhau bod unrhyw wybodaeth gyfrinachol a gaiff yn ystod ei waith yn cael ei diogelu'n llwyr |
| 1.57 | V.C.35 | Mae'r aelod o'r NPM yn cefnogi darparu'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn cyflawni ei fandad yn effeithiol |
| 1.58 | V.C.36 | Nid yw blaenoriaethu adnoddau i'r materion a'r sefydliadau sydd â'r broblem bwysicaf yn golygu bod unrhyw fath arbennig o sefydliad neu ardal ddaearyddol yn cael ei diystyru o waith yr aelod o'r NPM |
| 1.59 | V.D.37 | Mae gan yr aelod o'r NPM strategaeth ar gyfer hyfforddiant parhaus a datblygu ei ddulliau gweithio |

## OFFERYN HUNANASESU'R IS-BWYLLGOR ATAL ARTEITHIO

### Ar gyfer Tîm Cydgysylltu'r NPM

| EIN CYF. | CYF. YR IS-BWYLLGOR | DATGANIAD HUNANASESIAD YR NPM | STATWS COCH/ OREN/ GWYRDD | SYLWADAU YCHWANEGOL |
|---|---|---|---|---|
| **CYFLWYNIAD** | | | | |
| 3.1 | I.3 | Mae'r NPM yn caboli ac yn gwella ei ddulliau gweithio bob yn dipyn | | |
| 3.2 | I.3 | Mae'r NPM mewn cysylltiad uniongyrchol â'r Is-bwyllgor Atal Arteithio | | |
| 3.3 | II.4 | Mae'r NPM yn ffurfio partneriaethau gyda sefydliadau cenedlaethol a rhyngwladol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o OPCAT | | |
| 3.4 | II.4 | Mae gan yr NPM strategaeth er mwyn cael cymaint o effaith ag sy'n bosibl drwy ei waith | | |
| 3.5 | II.5 | Mae'r NPM yn monitro ac yn dadansoddi ei weithgareddau a'i ganlyniadau fel ffordd o ddysgu gwersi a datblygu arferion | | |
| 3.6 | IV.F.27 | Mae'r NPM wedi ystyried gweithdrefnau monitro a dadansoddi yn erbyn rhai sy'n cael eu hamau o arteithio a cham-drin | | |
| 3.7 | IV.F.27 | Mae'r NPM wedi ystyried cefnogi neu hwyluso sefydlu cofrestr genedlaethol o honiadau o arteithio, yn ogystal ag ymchwiliadau, achosion troseddol a chanlyniadau | | |
| 3.8 | IV.F.28 | Mae'r NPM yn siarad o blaid newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol a'u gweithredu lle nad yw ei fandad yn rhoi pwerau i asesu deddfwriaeth ddrafft a deddfwriaeth sy'n bodoli'n barod yn erbyn rhwymedigaethau rhyngwladol y Wladwriaeth a safonau rhyngwladol eraill | | |
| 3.9 | IV.D.23 | Mae'r NPM yn cynnal deialog â chyrff cenedlaethol a rhyngwladol perthnasol eraill, gan gynnwys cymdeithas sifil, ac yn ystyried pob gwybodaeth berthnasol a dderbynnir ganddynt | | |
| 3.10 | V.A.30 | Mae'r NPM wedi sefydlu llinellau cyfathrebu â chyrff cenedlaethol a rhyngwladol perthnasol ym maes atal arteithio | | |
| 3.11 | V.A.31 | Mae'r NPM wedi sefydlu strategaeth ar gyfer cydweithio â chyrff rhyngwladol, gan gynnwys yr Is-bwyllgor Atal Arteithio, ar atal arteithio | | |
| 3.12 | V.A.32 | - mae'r strategaeth hon yn cynnwys cydweithio wrth ddilyn hynt achosion lle mae lle i amau bod arteithio neu gam-drin wedi digwydd neu achosion o arteithio neu gam-drin sydd wedi cael eu cofnodi | | |

| | | |
|---|---|---|
| 3.13 | V.A33 | Mae gan yr NPM strategaeth ar gyfer hysbysu pobl ynglŷn â'i waith a'i fandad |
| 3.14 | V.A.33 | Mae'r NPM wedi sefydlu gweithdrefn syml a hygyrch er mwyn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd |
| 3.15 | V.D.37 | Mae gan yr NPM strategaeth ar gyfer hyfforddiant parhaus a datblygu ei ddulliau gweithio |
| 3.16 | V.E.38 | Mae gan yr NPM adroddiad blynyddol (gall yr adroddiad gynnwys adroddiadau am yr heriau presennol, cynlluniau a blaenoriaethau, dadansoddiad o ganfyddiadau, argymhellion ac ymatebion, materion thematig a gweithredu dilynol ar faterion, adroddiadau am gydweithio) |

Allwedd i'r Statws Coch/Oren/Gwyrdd:

| | |
|---|---|
| Ddim yn cydymffurfio ar hyn o bryd | |
| Yn cydymffurfio'n rhannol | |
| Yn cydymffurfio'n llawn | |

Mae holl gyfeiriadau'r Is-bwyllgor Atal Arteithio yn gyfeiriadau at yr offeryn hunanasesu (http://www2.ohchr.org/english/bodies/cat/opcat/docs/AnalyticalTtoolsNPM_en.doc) oni bai bod y llythyren 'G' o'u blaen i ddangos cyfeiriad at Ganllawiau'r Is-bwyllgor ar gyfer mecanweithiau ataliol cenedlaethol (http://www2.ohchr.org/english/bodies/cat/opcat/docs/SPT_Guidelines_NPM_en.doc)

# Atodiad Naw

# Taflenni ffeithiau'r NPM

## Taflen ffeithiau 1: Cyflwyno Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y Deyrnas Unedig

### Beth yw Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol (NPM)?

Gall yr NPM fod yn gorff unigol dynodedig neu'n grŵp o gyrff dynodedig sy'n ymweld â lleoedd cadw er mwyn monitro triniaeth ac amodau'r rhai sy'n cael eu cadw yno. Nod NPM yw sicrhau nad yw arteithio na thriniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol arall yn digwydd.

Mae'r mandad ar gyfer NPM yn dod o Brotocol Dewisol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Arteithio (OPCAT), cytuniad hawliau dynol a ddrafftiwyd ac y cytunwyd arno gan Wladwriaethau a oedd eisiau sicrhau amddiffyniad cryfach i unigolion sy'n cael eu cadw mewn lleoedd cadw. Y syniad sylfaenol sydd wrth wraidd OPCAT yw y gall system o ymweliadau annibynnol, rheolaidd â lleoedd cadw fod yn amddiffyniad pwysig rhag camdriniaeth, gan atal arteithio a cham-drin mewn lleoedd sydd oherwydd eu natur allan o olwg y cyhoedd.

Rhaid i Wladwriaethau sy'n cadarnhau OPCAT sefydlu NPM. Erbyn hyn mae 55 NPM wedi eu sefydlu'n ffurfiol mewn gwahanol rannau o'r byd.

| Gofynion penodol NPM |
| --- |
| Er mwyn cydymffurfio ag OPCAT, rhaid i fecanweithiau ataliol cenedlaethol gael pwerau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys y pŵer i:<br>- arolygu pob lle cadw<br>- cael mynediad at bob gwybodaeth sy'n ymwneud â'r rhai sy'n cael eu cadw<br>- cyfweld unigolion sy'n cael eu cadw yn breifat<br>- dewis pa leoedd y maent am ymweld â nhw a gyda phwy y maent am siarad<br>- gwneud argymhellion yn seiliedig ar normau hawliau dynol i awdurdodau perthnasol<br>- gwneud cynigion ac arsylwadau ar ddeddfwriaeth bresennol neu ddeddfwriaeth ddrafft. |

### Sut beth yw NPM y Deyrnas Unedig a beth mae'n ei wneud?

Cytunodd y Deyrnas Unedig i dderbyn OPCAT yn 2003, gan fynegi ei hymrwymiad i atal arteithio a cham-drin mewn lleoedd cadw ym mhob cwr o'r Deyrnas Unedig.

Cafodd Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y Deyrnas Unedig ei ddynodi'n ffurfiol yn 2009 ac erbyn hyn mae'n cynnwys 20 o sefydliadau sydd â'u swyddogaethau swyddogol yn cynnwys monitro ac arolygu lleoedd cadw. Ar hyd a lled y Deyrnas Unedig, mae gwahanol leoliadau cadw'n cael ymweliad neu'n cael eu harolygu gan wahanol aelodau o'r NPM fel a ganlyn:

| LLEOLIAD CADW | Awdurdodaeth | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Lloegr** | **Cymru** | **Yr Alban** | **Gogledd Iwerddon** |
| **Carchardai** | Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi gyda'r Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) ac Ofsted | Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) | Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi yn yr Alban (HMIPS) gyda'r Arolygiaeth Gofal (CI) | Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon (CJINI) ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi gyda'r Awdurdod Gwella Rheoleiddio ac Ansawdd (RQIA) |
| | Byrddau Monitro Annibynnol (IMB) | Bwrdd Monitro Annibynnol | | Bwrdd Monitro Annibynnol Gogledd Iwerddon |
| **Dalfeydd yr heddlu** | Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi | | Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn yr Alban (HMICS) | CJINI gyda'r RQIA |
| | ICVA | ICVA | ICVS | NIPBICVS |
| **Dalfeydd y llysoedd** | Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ac Arsylwyr Lleyg | | HMIPS | CJINI |
| **Plant mewn llety diogel** | Ofsted (ar y cyd ag Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi mewn cysylltiad â chanolfannau hyfforddi diogel) | Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) | CI | RQIA |
| | | | | CJINI |
| **Plant (Pob lleoliad)** | OCC | | | |
| **Cadw o dan gyfraith iechyd meddwl** | CQC | AGIC | Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban (MWCS) | RQIA |
| **Amddifadu o ryddid a mesurau diogelu eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol** | CQC | AGIC | CI a MWCS | RQIA |
| | | AGGCC | | |
| **Dalfeydd mewnfudo** | Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi | | | |
| | Byrddau Monitro Annibynnol | | | |
| **Dalfeydd y lluoedd arfog** | Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a Chymdeithas Ymwelwyr Annibynnol a'r Ddalfa | | | |
| **Cyfleusterau cadw'r tollau** | HMIC ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi a HMICS | | | |

Cydgysylltir NPM y Deyrnas Unedig gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ac mae Grŵp Llywio sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r pedair gwlad yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau.

## Pa wahaniaeth y mae bod yn rhan o'r NPM yn ei wneud?

Mae bod yn rhan o'r NPM yn dod â chydnabyddiaeth a chyfrifoldebau. Mae pwerau aelodau'r NPM i arolygu, monitro ac ymweld â lleoedd cadw'n cael eu cydnabod yn ffurfiol fel rhan o ymdrechion y Deyrnas Unedig i atal arteithio. Yr un pryd, mae gan aelodau'r NPM gyfrifoldeb i sicrhau bod eu harferion gwaith yn gyson â safonau ar gyfer monitro ataliol a sefydlwyd gan OPCAT.

### Beth yw monitro ataliol?

Er mwyn i fonitro ac arolygu lleoedd cadw gyflawni swyddogaeth ataliol, deellir yn gyffredinol y dylai ymweliadau fod yn rhagweithiol ac yn rheolaidd. Yn yr un modd, dylent ddadansoddi'r lle cadw fel system, ac asesu pob agwedd sy'n gysylltiedig ag amddifadu o ryddid. Bydd hyn yn eu galluogi i nodi problemau a fyddai'n arwain at arteithio neu gam-drin. Yn olaf, er mwyn atal mae angen deialog barhaus ac adeiladol gydag awdurdodau perthnasol, gyda chyrff ymweld yn darparu argymhellion gyda'r bwriad o wella'r system gadw yn yr hirdymor [diffiniad y Gymdeithas er Atal Arteithio].

Yn ogystal â gwaith monitro ataliol aelodau unigol, mae NPM y Deyrnas Unedig hefyd yn canolbwyntio ar faterion pwysig sy'n gysylltiedig â lleoedd cadw, gan hyrwyddo dadansoddiad ac ymateb rhesymegol iddynt. Mae'r NPM yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau. Bydd cyrff hawliau dynol swyddogol y Cenhedloedd Unedig a chyrff anllywodraethol yn craffu ar yr adroddiad blynyddol hwn er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei fandad OPCAT.

### Os hoffech gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Louise Finer, Cydgysylltydd yr NPM
louise.finer@hmiprisons.gsi.gov.uk

## Taflen ffeithiau 2: Pum mlynedd cyntaf NPM y Deyrnas Unedig

### Beth yw Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol (NPM)?

Sefydlodd y Deyrnas Unedig ei Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol (NPM) ym mis Mawrth 2009. Nod yr NPM yw atal arteithio a cham-drin ym mhob lle cadw, yn unol â Phrotocol Dewisol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Arteithio.

### Sefydlu'r NPM

Yn ei bum mlynedd cyntaf, mae NPM y Deyrnas Unedig wedi canolbwyntio ar sefydlu strwythur llywodraethu effeithiol a chodi ymwybyddiaeth ymhlith ei aelodau a rhanddeiliaid allweddol. Mae cynnydd wedi cael ei wneud er mwyn:

- Sicrhau bod pob lle cadw yn y Deyrnas Unedig yn cael ei fonitro'n annibynnol
  Gwaith monitro aelodau'r NPM wedi ehangu i gynnwys celloedd llysoedd, hebryngwyr ac allgludo, unedau diogelwch canolig ar gyfer plant a phobl ifanc, a chelloedd yr heddlu sydd 'heb eu dynodi'.

- Sefydlu set gyffredin o Ddisgwyliadau er mwyn llywio ymdrechion aelodau o dan eu mandad NPM
  Cafodd y pwerau a'r arferion a ddisgwylir gan aelodau'r NPM wrth gyflawni eu swyddogaeth fonitro eu hamlinellu a'u cytuno gan aelodaeth lawn yr NPM.

- Cryfhau llywodraethu
  Mae'r swyddogaeth gydgysylltu, a gyflawnir gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, a sefydlu grŵp llywio i hwyluso gwneud penderfyniadau a phennu'r cyfeiriad strategol, wedi cryfhau effeithiolrwydd yr NPM, sydd bellach yn cynnwys hyd at 20 o aelodau sefydliadol.

- Mynd i'r afael â'r materion penodol a wynebir gan blant a phobl ifanc mewn lleoedd cadw
  Mae is-grŵp thematig yn cyfarfod yn rheolaidd yn awr i rannu gwybodaeth a chyfuno ymdrechion er mwyn sicrhau nad yw plant a phobl ifanc yn cael eu cam-drin mewn lleoedd cadw.

- Datblygu ymwybyddiaeth o NPM y Deyrnas Unedig yn genedlaethol ac yn rhyngwladol
  Mae hyfforddiant ar atal arteithio a cham-drin drwy fonitro wedi cael ei ddarparu gan aelodau'r NPM i nifer o gyrff ymweld lleyg, arolygiaethau proffesiynol a rhanddeiliaid eraill. Mae cysylltiadau pwysig ar gyfer rhannu gwybodaeth ac arbenigedd wedi cael eu sefydlu gyda sefydliadau anllywodraethol a llawer o gyrff eraill. Galwyd ar NPM y Deyrnas Unedig i rannu ei arbenigedd ar hyd a lled y byd â mecanweithiau ataliol newydd a gwledydd sydd yn y broses o gadarnhau OPCAT.

### Canolbwyntio ar bryderon yn ymwneud â lleoedd cadw

Drwy ddod â'i sgiliau, ei arbenigedd a'i ddulliau gweithredu amrywiol at ei gilydd, mae NPM y Deyrnas Unedig wedi ceisio canolbwyntio ar feysydd cyffredin sy'n peri pryder.

Mae'r gwaith hwn wedi caniatáu i aelodau'r NPM rannu arbenigedd, datblygu dealltwriaeth newydd o faterion hawliau dynol, cryfhau eu methodoleg eu hunain, a gwneud argymhellion ar gyfer gweithredu pellach. Mae'n cynnwys:

- Goblygiadau arferion sy'n ymwneud â chadw o safbwynt hawliau dynol
  Mae trafodaethau drwy'r NPM yn ei gyfanrwydd wedi cryfhau dealltwriaeth o'r materion hawliau dynol sy'n ymwneud â defnyddio grym ac ataliaeth, marwolaethau yn y ddalfa, arwahanu ac iechyd meddwl.

- Taflu goleuni ar gadw de facto
  Mae gallu cyrff monitro i ddeall a mynd i'r afael â chadw de facto wedi cael ei ddatblygu drwy ddadansoddiad o'r arferion a'r dulliau gweithredu presennol.

- Sicrhau nad yw'r rhai sy'n cael eu cadw'n wynebu sancsiynau
  Mae protocol wedi cael ei gytuno rhwng dau aelod o'r NPM er mwyn sicrhau na fydd unrhyw garcharorion nac unigolion sy'n cael eu cadw mewn lleoedd cadw'n wynebu dial na sancsiynau o ganlyniad i'w cysylltiad â monitoriaid neu ymwelwyr, a bod camau'n cael eu cymryd pan roddir gwybod am arferion o'r fath.

- Cryfhau argymhellion sy'n cael eu gwneud i awdurdodau
  Mae dadansoddiad o'r ffordd y mae argymhellion yn cael eu gwneud a'u dilyn wedi cael ei wneud ar draws yr NPM a bydd yn cyfrannu tuag at waith yn y dyfodol.

### Gwneud sylwadau ar ddeddfwriaeth a pholisi

Mae llawer o aelodau unigol yr NPM yn defnyddio'u pwerau i wneud sylwadau ar ddeddfwriaeth a pholisi. Mae bod yn rhan o'r NPM wedi annog aelodau i gyflwyno cynigion ar y cyd ar feysydd sy'n achosi pryder cyffredin neu sydd o ddiddordeb cyffredin, gan gymhwyso normau hawliau dynol i'w dadansoddiad. Mae'r rhain yn cynnwys sylwadau ar y canlynol:

- Penderfyniad gan y Swyddfa Gartref i ddarparu oedolyn priodol i helpu pobl ifanc 17 oed sy'n cael eu cadw yn nalfa'r heddlu, a bod person sy'n gyfrifol am eu lles yn cael ei hysbysu.
- Penderfyniad Llywodraeth yr Alban i ddiddymu pwyllgorau ymweld â charchardai gan nad oeddent yn cydymffurfio ag OPCAT a chynnig bod arolygiaeth garchardai'r Alban yn ymgymryd â'u rôl fonitro.
- Cynigion llywodraeth y Deyrnas Unedig i drawsnewid yr ystâd ieuenctid.
- Cynigion Llywodraeth yr Alban i ddiwygio plismona, drwy alw'n llwyddiannus ar y llywodraeth i ddefnyddio'r diwygiad hwn fel cyfle i gryfhau trefniadau ymweld â dalfeydd.
- Ymchwiliadau a biliau seneddol amrywiol ar bynciau sy'n cynnwys: troseddwyr benywaidd; cyfiawnder ieuenctid; y ffordd yr ymchwilir i farwolaethau yn dilyn cysylltiad â'r heddlu; a chyfrifoldebau awdurdodau lleol tuag at blant sy'n derbyn gofal ar ôl bod ar remand.

# Atodiad Deg

## Rhestr byrfoddau

| | |
|---|---|
| ACPO | Association of Chief Police Officers |
| AGGCC | Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| AGIC | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| CAT | Convention against Torture |
| CI | Care Inspectorate |
| CJINI | Criminal Justice Inspection Northern Ireland |
| CPT | Committee for the Prevention of Torture |
| CQC | Care Quality Commission |
| HMIC | Her Majesty's Inspectorate of Constabulary |
| HMICS | Her Majesty's Inspectorate of Constabulary for Scotland |
| HMI Prisons | Her Majesty's Inspectorate of Prisons |
| HMIPS | Her Majesty's Inspectorate of Prisons for Scotland |
| HMP | Her Majesty's Prison |
| HRIC | Human Rights Implementation Centre |
| ICRC | International Committee of the Red Cross |
| ICVA | Independent Custody Visiting Association |
| ICVS | Independent Custody Visitors Scotland |
| IMB | Independent Monitoring Board |
| IMBNI | Independent Monitoring Boards (Northern Ireland) |
| IRC | Immigration Removal Centre |
| LO | Lay Observers |
| MMPR | Minimising and managing physical restraint |
| MWCS | Mental Welfare Commission for Scotland |
| NIPBICVS | Northern Ireland Policing Board Independent Custody Visiting Scheme |
| NGO | Non-governmental organisation |
| NOMS | National Offender Management Service |
| NPM | National Preventive Mechanism |
| OCC | Office of the Children's Commissioner for England |
| Ofsted | Office for Standards in Education, Children's Services and Skills |
| OPCAT | Optional Protocol to the Convention against Torture and other Cruel, Inhuman or Degrading Treatment or Punishment |
| PCC | Police and Crime Commissioner |
| RQIA | Regulation and Quality Improvement Authority |
| SHRC | Scottish Human Rights Commission |
| SPT | Subcommittee on Prevention of Torture |
| SCH | Secure Children's Home |
| STC | Secure Training College |
| YOI | Young Offender Institution |

# Atodiad Un ar Ddeg


## Rhagor o wybodaeth am NPM y Deyrnas Unedig

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am NPM y Deyrnas Unedig, cysylltwch â chydgysylltydd yr NPM. Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am aelod penodol, gallwch gysylltu â'r aelod hwnnw'n uniongyrchol.

Louise Finer
Cydgysylltydd y Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi
Victory House
6th Floor
30–34 Kingsway
Llundain  WC2B 6EX

Ffôn: 020 3681 2800
Ffacs: 020 7035 2141
Ebost: louise.finer@hmiprisons.gsi.gov.uk
Gwefan: http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/national-preventive-mechanism/



The image used in this report is a detail from *The Victorian Train,* by a patient at Camlet Lodge, Chase Farm Hospital, which won a Gold Award for Drawing at the 2014 Koestler Awards. The Koestler trust is a prison arts charity, inspiring offenders, secure patients and detainees to take part in the arts, work for achievement and transform their lives. For more information visit: www.koestlertrust.org.uk

Produced by Design102,
Communications and Information Directorate, Ministry of Justice

ISBN 978-1-4741-1225-3

9 781474 112253